# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | **GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 8 CHWEFROR 2024 am 2:00 y. p.** | **THURSDAY 8 FEBRUARY 2024 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),*** Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Liz Wood

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans ***(Cadeirydd),*** William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

## R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2023.

**3 LLYWODRAETHU GWYBODAETH: ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH 2022/23** (Tudalennau 15 - 24)

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth.

**4 CANLYNIAD YMCHWILIAD SWYDDFA'R COMISIYNYDD GWYBODAETH I'R DIGWYDDIAD SEIBER 2021** (Tudalennau 25 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2022/23** (Tudalennau 33 - 48)

Cyflwyno adroddiad y Prif Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

**6 ADOLYGIAD RHEOLI'R TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2023-24** (Tudalennau 49 - 66)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) Swyddog Adran 151.

**7 DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25**

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151.

**8 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 67 - 74)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**9 GWIRIAD IECHYD RHEOLI RISG GAN ZURICH** (Tudalennau 75 - 102)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**10 ARCHWILIO ALLANOL: ADOLYGIAD STRATEGAETH DDIGIDOL - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 103 - 124)

- Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

- Cyflwyno ymateb y sefydliad.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**11** **ARCHWILIO ALLANOL: DEFNYDDIO GWYBODAETH AM BERFFORMIAD - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 125 - 140)

- Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.
- Cyflwyno ymateb y sefydliad.

**12** **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH 2023/24** (Tudalennau 141 - 148)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**13** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 149 - 150)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol: -

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

**14** **ADRODDIAD BLYNYDDOL SEIBERDDIOGELWCH 2023/24** (Tudalennau 151 - 160)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr, 2023

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Mrs Sharon Warnes (Aelod Lleyg) (Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod hwn yn unig)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Dyfed Wyn Jones, Keith Roberts, Margaret M. Roberts, Ieuan Williams.<br><br>Aelodau Lleyg: Michael Wilson, William Parry |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 4)<br>Prif Archwiliwr (NW)<br>Rheolwr Yswiriant a Risg (ar gyfer eitem 8)<br>Swyddog Diogelu Data Ysgolion (EW) (ar gyfer eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd), Trefor Lloyd Hughes, MBE, Liz Wood. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid), y Cynghorydd Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Alan Hughes (Arweinydd Archwilio Perfformiad – Archwilio Cymru), Sabel Williams (Archwilio Cymru), Bethan H. Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg) Claire Klimaszewski (Rheolwr Cyllid) |

---

Yn absenoldeb y Dirprwy Gadeirydd, y Cynghorydd Euryn Morris, etholwyd Mrs Sharon Warnes fel Dirprwy Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor.

Ar ran aelodau'r Pwyllgor, estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes, MBE nad oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch.

Gyda chytundeb y Pwyllgor, cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai'n amrywio'r drefn fusnes ar yr agenda i gyflwyno eitemau 3 a 9 i ganiatáu i Swyddogion Archwilio Cymru roi sylw i ymrwymiadau eraill. Cytunodd y Pwyllgor i newid y drefn.

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.



DRAFT

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 21 Medi 2023 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn dilyn o hynny –

Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd gan y Pwyllgor ynghylch cynnydd y camau gweithredu a nodir yn y cofnodion mewn perthynas ag adolygiad o'r hyfforddiant Gwasanaethau Cwsmeriaid i staff sy'n wynebu'r cyhoedd gan y Tîm Arweinyddiaeth yn unol ag eitem (3) a datblygu asesiad anghenion hyfforddi a chyflwyno hyfforddiant addas mewn ymateb i faterion a godwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol ag eitem (4), dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 y byddai'n dilyn i fyny ymholiadau'r Pwyllgor ac yn adrodd yn ôl ar y sefyllfa o ran unrhyw gynnydd ar y ddwy eitem hynny.

**Gweithredu Ychwanegol – Bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 yn dilyn i fyny'r cynnydd o ran y camau gweithredu fel y manylir.**

## 3. ADRODDIAD SICRWYDD LLYWODRAETHIANT GWYBODAETH BLYNYDDOL YSGOLION MÔN 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a oedd yn cynnwys dadansoddiad o'r prif faterion llywodraethu gwybodaeth a'r blaenoriaethau mewn perthynas ag ysgolion Ynys Môn ar gyfer y cyfnod rhwng Chwefror 2023 a Thachwedd 2023 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a oedd yn darparu datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynghyd â throsolwg o gydymffurfiad ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Ynys Môn â gofynion cyfreithiol o ran ymdrin â gwybodaeth gan gynnwys Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a chodau ymarfer perthnasol. Hefyd roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion y camau a gymerwyd ers yr adroddiad diwethaf ym mis Ionawr 2023 a'r hyn a gyflawnwyd o dan Strategaeth Datblygu Diogelu Data Ysgolion 2022/23 yn ogystal â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer Strategaeth Diogelu Data Ysgolion 2023/24 a'r cynnydd hyd yma.

Cadarnhaodd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion y cynnydd a wnaed gan ysgolion ers yr adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor. Mae'r ysgolion wedi mabwysiadu mwyafrif y polisïau yn ffurfiol ac wedi dechrau'r broses o fonitro a dangos eu bod yn cydymffurfio â'r holl bolisïau diogelu data. Mae mwy o ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu data yn ystod y cyfnod yn unigol ac yn ôl dalgylch ac mae hyn wedi helpu ysgolion i wella eu harferion. Mae mwy o lywodraethwyr ysgol hefyd wedi derbyn hyfforddiant neu wedi derbyn cyflwyniad diogelu data gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion. Mae 25 o gyrff llywodraethu wedi derbyn cyflwyniad o'r fath sy'n tynnu sylw at y prif ofynion a'r disgwyliadau ar ysgolion o ran rhwymedigaethau diogelu data. Gwnaed cynnydd sylweddol i sicrhau bod Cytundebau Diogelu Data priodol ar waith o ran y systemau, y rhaglenni a'r apiau a ddefnyddir gan ysgolion. Erbyn hyn mae gan y rhan fwyaf o ysgolion Hysbysiadau Preifatrwydd addas a chyfredol sydd wedi'u rhannu gyda rhieni neu yn achos fersiynau cyffredinol a fersiynau plant a phobl ifanc, wedi'u postio ar wefan yr ysgol. Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn parhau i gynnal ymweliadau archwilio ag ysgolion unigol i adolygu cydymffurfiaeth a threfniadau diogelu data. Ymwelwyd â 44 o'r 45 ysgol yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2023. Mae'r 45fed ysgol wedi trefnu ymweliad ar gyfer y mis nesaf.

Barn y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yw bod ysgolion yn parhau i ddangos eu bod yn deall eu cyfrifoldebau a'u goblygiadau fel rheolwr data a'r disgwyliadau cyfreithiol a ddaw yn

sgil hynny. Mae ysgolion hefyd yn parhau i ddangos bod ganddynt well dealltwriaeth o'r rhwymedigaethau diogelu data a'u bod wedi bod yn rhoi mwy o flaenoriaeth i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i gydymffurfio â gofynion o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae angen cwblhau darnau penodol pellach o waith i sicrhau bod pob ysgol ar yr un lefel cydymffurfio a'u bod yn nes at gydymffurfio'n llawn ac yn gallu dangos tystiolaeth o hyn. Gan hynny, gall y Swyddog Diogelu Data Ysgolion roi sicrwydd rhesymol bod ysgolion yn cydymffurfio â gofynion diogelu data.

Wrth ystyried yr adroddiad nododd y Pwyllgor y canlynol -

- Bod y rhan fwyaf ond nid pob ysgol wedi mabwysiadu'r prif bolisïau diogelu data a'u bod yn monitro eu cydymffurfiaeth â pholisïau unigol. Roedd y Pwyllgor eisiau gwybod beth oedd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod pob ysgol yn mabwysiadu'r polisïau**.**

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod system rheoli cydymffurfiaeth data ar waith gyda'r polisïau a fabwysiadwyd gan ysgolion yn cael eu cofnodi'n ffurfiol. Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd ag ysgolion i oruchwylio cydymffurfiaeth. Yn seiliedig ar yr ymweliadau archwilio i ysgolion, gellir cadarnhau'n anffurfiol bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi mabwysiadu'r polisïau yn ôl yr angen ac o blith yr ysgolion hynny nad ydynt wedi cyrraedd y cam hwnnw hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf yn y broses o wneud hynny gyda rhai ar fin cyflwyno'r dogfennau polisi terfynol i'w mabwysiadu gan eu cyrff llywodraethu.

- Gan dderbyn bod llawer o alwadau ar ysgolion, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd ynghylch y trefniadau ar gyfer monitro a dangos cydymffurfiaeth â gofynion diogelu data o ddydd i ddydd yn ogystal â'r cwestiynau y dylai aelodau etholedig yn eu rôl fel llywodraethwyr ysgol eu gofyn i ysgolion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a bod tystiolaeth eu bod yn cydymffurfio.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod ysgolion wedi derbyn dogfen Rhestr Wirio Polisïau Diogelu Data i'w helpu i fonitro cydymffurfiaeth â chamau gweithredu allweddol o fewn polisïau diogelu data unigol a disgwylir iddynt ddefnyddio'r ddogfen fel dull monitro. Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn adolygu'r defnydd y mae ysgolion wedi bod yn ei wneud o'r Rhestr Wirio Polisïau Diogelu Data yn ystod ymweliadau archwilio 2024. Yn yr un modd, mae dogfen ganllaw ar gyfer llywodraethwyr ysgol wedi'i pharatoi i'w helpu i ddeall sut i fonitro ac adolygu cydymffurfiaeth. Er mai un agwedd ar fywyd ysgol yw diogelu data, mae'n bwysig, ac mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn ymdrechu i sicrhau bod diogelu data a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â diogelu data yn parhau i gael sylw blaenllaw gan ysgolion. Mae ysgolion yn parhau i ofyn am gyngor ac arweiniad ar faterion diogelu data gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

- P'un a yw'r dyddiadau allweddol i ysgolion weithredu'r tasgau yn y Strategaeth Diogelu Data Ysgolion ar gyfer 2023-24 yn rhai y gellir eu cyflawni.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, er efallai na fydd rhai camau gweithredu wedi'u cwblhau'n llawn erbyn y dyddiad y cytunwyd i'w gweithredu, bod llawer ohonynt o natur barhaus ac yn datblygu wrth i fwy o wybodaeth a rhaglenni gael eu cyhoeddi, sy'n golygu y bydd angen adolygu rhai dyddiadau targed. Mae'r rhan fwyaf o'r camau allweddol ar y gweill a'r cam sylweddol nesaf yw sicrhau bod gan bob ysgol unigol Gofnod o Weithgareddau Prosesu (ROPA) ac i'r perwyl hwn crëwyd templed ROPA wedi'i lenwi'n barod ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd y gall ysgolion ei addasu i'w hanghenion unigol.

DRAFT

- P'un ai o ran statws sicrwydd, a oes ysgolion unigol mewn gwahanol gategorïau ac ar wahanol gamau o ran cynnydd a ph'un ai a yw pob ysgol ar y trywydd iawn i gwblhau'r gofynion a chydymffurfio'n llawn.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr ysgolion at ei gilydd ar yr un lefel o ran cynnydd a'u bod yn gweithio'n unol â chynllun datblygu y cytunwyd arno. Er bod rhai ysgolion efallai ar y blaen, mae'r farn sicrwydd rhesymol yn berthnasol i'r rhan fwyaf a does yr un yn peri unrhyw bryderon sylweddol. Cynhelir yr ymweliadau archwilio blynyddol i adolygu cynnydd a chydymffurfiaeth. Er bod pob ysgol yn gweithio tuag at gydymffurfio yn llawn ar hyn o bryd, mae'r arferion rheoli gwybodaeth o ddydd i ddydd mewn ysgolion wedi symud ymlaen dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn adroddiad a datganiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a**
- **Chymeradwyo camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion – y Cynllun Diogelu Data Ysgolion – er mwyn galluogi ysgolion i weithredu'n llawn yn unol â gofynion diogelu data.**

**Gweithredu Ychwanegol: Bod y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn dosbarthu copi o'r ddogfen Canllawiau Diogelu Data ar gyfer llywodraethwyr ysgol i holl Aelodau Etholedig y Cyngor.**

## 4. DATGANIAD CYFRIFON 2022/23 AC ADRODDIAD ISA 260

- Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Datganiad Cyfrifon Terfynol 2022/23 yn dilyn archwiliad i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r cyfrifon archwiliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 wedi'i ymestyn i 31 Rhagfyr, 2023 ar gyfer holl gynghorau Cymru. Cyflwynwyd Datganiad Cyfrifon drafft Cyngor Sir Ynys Môn 2022/23 i archwilwyr allanol y Cyngor, Archwilio Cymru i'w archwilio ar 30 Mehefin. Mae'r gwaith archwilio manwl bellach wedi'i gwblhau gan mwyaf, yn amodol ar adolygiad terfynol o'r diwygiadau ôl-archwilio a wnaed i'r cyfrifon. Nid oes disgwyl i sefyllfa ariannol y Cyngor newid ymhellach ond os bydd unrhyw faterion sylweddol yn codi o'r adolygiad, yna bydd Archwilio Cymru yn darparu diweddariad llafar i'r Cyngor Llawn ac yn ôl-weithredol i'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol.

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad, profion ac archwiliad trylwyr o'r trafodion ariannol mewn perthynas â 2022/23 a'r Datganiad Cyfrifon drafft. Nododd y profion archwilio rai newidiadau oedd eu hangen a newidiwyd rhai gwallau a argymhellwyd gan y tîm Archwilio i sicrhau bod y cyfrifon yn berthnasol gywir. Mae'r rhain wedi'u cofnodi yn Atodiad 3 o adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru fel eitem ar wahân ar yr agenda. Ar wahân i'r rheini, casgliad yr Archwilwyr yw bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol 2022/23; eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2023 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ac mai bwriad yr Archwilwyr yw cyhoeddi barn ddiamod ar gyfrifon 2022/23. Mae rhai o'r newidiadau i'r cyfrifon yn cynnwys y canlynol -

- Gostyngiad o £72k yn y gwerth a ddelir mewn credydwyr am werth yr arian parod y mae'r Cyngor yn ei ddal ar ran Cronfa'r Degwm Ynys Môn sydd wedi effeithio ar alldro refeniw y Cyngor ar gyfer 2022/23 wrth gynyddu'r tanwariant am y flwyddyn o £1.212m i £1.284m.

- Gwelliant i Nodyn 5 yn y cyfrifon mewn perthynas â digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd i gynnwys gwybodaeth am y ddwy ysgol yr effeithiwyd arnynt gan RAAC a ddaeth i'r amlwg ar ddechrau blwyddyn academaidd 2023/24.
- Y sylw yn y cyfrifon o ran sefyllfa asedau net Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae ailbrisio cynllun pensiwn llywodraeth leol wedi arwain at ased pensiwn net yn hytrach na rhwymedigaeth net sylweddol fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd bod y cyfraddau llog uwch wedi effeithio ar y ffactor disgownt a ddefnyddir gan yr actwari. Cofnodwyd hyn yn gywir fel dim ar y fantolen yn unol â rheolau cyfrifo. O ganlyniad bu'n rhaid dileu'r ased pensiwn net gwerth £19.814m a oedd wedi'i gynnwys yn golofn incwm a gwariant cynhwysfawr arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES). Pwysleisiodd yr Archwilwyr y dylid dangos y gwerth hwn ar wahân gan ei fod yn ddigwyddiad perthnasol eithriadol ac felly fe'i diwygiwyd ar y CIES.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifyddu a'i thîm am eu gwaith yn paratoi a chwblhau'r cyfrifon o fewn yr amserlen a diolchodd hefyd i Archwilio Cymru am eu rhan a'u cefnogaeth wrth hwyluso'r broses archwilio.

- Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2022/23 i'w ystyried a'i gymeradwyo. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y cyflwynwyd y fersiwn ddrafft ohono i'r Pwyllgor am sylwadau yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf, 2023) yn ceisio rhoi sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith yn ystod 2022/23 ar gyfer cynnal ei fusnes yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol ac ar gyfer sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhan o Ddatganiad Cyfrifon Terfynol 2022/23.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod y sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan y Pwyllgor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ym mis Gorffennaf yn cael eu cefnogi ac wedi'u cynnwys yn y fersiwn derfynol.

  Ni chafwyd sylwadau pellach gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2022/23.

- Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Allanol ar archwilio'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022/23 (adroddiad ISA 260) i'w ystyried gan y Pwyllgor.

  Adroddodd Yvonne Thomas, Rheolwr Archwilio Cymru ar brif ganfyddiadau archwiliad cyfrifon y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 fel a ganlyn --

  - Ni all archwilwyr fyth roi sicrwydd llwyr fod cyfrifon yn cael eu datgan yn gywir, yn hytrach maent yn gweithio i lefel perthnasedd. Disgwylir i'r lefel perthnasedd geisio nodi a chywiro camddatganiadau a allai fel arall achosi i ddefnyddwyr y cyfrifon gael eu camarwain. Ar gyfer archwiliad 2022/23 y lefel perthnasedd oedd £2.979m. Pennwyd lefel perthnasedd is ar gyfer trafodion parti cysylltiedig (ar gyfer unigolion) (£10,000) ac ar gyfer Tâl Uwch Swyddogion (£1,000).
  - Bod yr archwiliad bellach wedi'i gwblhau gan mwyaf yn amodol ar gwblhau camau terfynol y weithdrefn archwilio. Ar ôl hynny bydd adroddiad terfynol ISA 260 yn cael ei gyhoeddi i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn.
  - Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y bydd y Cyngor wedi darparu Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1. Mae barn ddiamod yn golygu nad oes unrhyw bryderon perthnasol am unrhyw agweddau ar y cyfrifon.

- Mae'r adroddiad archwilio arfaethedig wedi'i nodi yn Atodiad 2 yr adroddiad ac mae'n cadarnhau barn yr archwilydd annibynnol fod y datganiadau ariannol yn rhoi golwg deg ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth, 2023 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny a'u bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasir gan y Cod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU 2022/23.
- Nid oes unrhyw gamddatganiadau a nodwyd yn y cyfrifon sy'n parhau heb eu cywiro.
- Ar y dechrau, roedd camddatganiadau yn y cyfrifon ond maent bellach wedi'u cywiro gan reolwyr. Caiff y rhain eu nodi a'u hesbonio yn Atodiad 3 ac maent yn ymwneud yn bennaf â materion datgelu a dosbarthu.
- Yn ystod yr archwiliad, mae'r archwilwyr yn ystyried nifer o faterion yn ymwneud â'r cyfrifon ac yn adrodd ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi; nid oedd unrhyw faterion o'r fath i'w hadrodd ar gyfer yr archwiliad eleni.

Diolchodd Yvonne Thomas i dîm Gwasanaethau Cyfrifyddu'r Cyngor am eu cydweithrediad a'u cymorth gyda'r broses archwilio eleni.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru i bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon ac adroddiad Archwilio Cyfrifon fel a ganlyn –

- Cadarnhawyd bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn 2024/25 a thu hwnt yn heriol oherwydd costau cynyddol ac oherwydd bod y galw am wasanaethau'r Cyngor yn parhau i godi ar gyfradd uwch na'r cynnydd mewn cyllid. Mae'r risgiau hynny hefyd yn parhau yn 2023/24 ac mae'n rhaid eu rheoli i sicrhau cyn lleied â phosibl o orwariant am y flwyddyn. Mae gwaith cychwynnol i ddatblygu'r gyllideb ar gyfer 2024/25 yn dangos y bydd yn rhaid i gyllideb y Cyngor gynyddu £15m i ymateb i'r holl bwysau o ran chwyddiant a'r galw ac y bydd yn rhaid ariannu unrhyw ddiffyg drwy godi'r Dreth Gyngor, cwtogi gwasanaethau a/neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor gan gofio bod £3.78m o gronfeydd wrth gefn eisoes wedi'u defnyddio i gydbwyso'r gyllideb yn 2023/24. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 15 at gynghorau yn Lloegr a oedd wedi mynd i drafferthion ariannol gyda rhai ohonynt i bob pwrpas yn datgan eu bod yn fethdalwyr ac eglurodd oblygiadau ymarferol gorfod cyhoeddi hysbysiad Adran 114 a'r hyn a olygai hynny i gynghorau yn y sefyllfa honno o ran cynnal gwaith y cyngor a gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd.

- Eglurwyd bod gwybodaeth wedi'i datgelu am broblemau RAAC mewn dwy o ysgolion y Cyngor yn Nodyn 5 o'r cyfrifon fel digwyddiad ôl-fantolen er bod y materion hynny wedi codi yn y flwyddyn ariannol bresennol, gwnaed hynny er mwyn rhoi gwybodaeth i ddarllenwyr y cyfrifon am ddigwyddiad sydd wedi codi wedyn a allai effeithio ar statws ariannol y Cyngor yn y dyfodol. Mae'r gwaith adfer a wnaed hyd yma i sicrhau bod toeau'r adeiladau yr effeithiwyd arnynt gan yr RAAC fel y gallant barhau i gael eu defnyddio wedi golygu gwariant cyfalaf sylweddol. Yn ogystal â hyn, mae cau'r ddwy ysgol dros dro, gweithredu trefniadau dysgu o bell a nodi darpariaeth addas arall wedi golygu bod goblygiadau ar gyfer gwariant refeniw. Er nad oes angen gwneud unrhyw addasiadau i gyfrifon 2022/23 yn sgil problemau RAAC, mae'n cael ei amlygu fel digwyddiad a allai effeithio ar y Cyngor yn ariannol yn y dyfodol.

- Eglurwyd polisïau diswyddo ac adleoli'r Cyngor yng nghyd-destun ymholiadau ynghylch Nodyn 28 mewn perthynas â chostau ymadael â staff a swyddi gwag gan gadarnhau bod unigolion y mae eu swyddi mewn perygl o ddod i ben yn cael cynnig cyflogaeth arall addas os ydynt yn bodloni'r meini prawf neu gallent gael eu hadleoli i swydd arall yn unol â phrosesau Adnoddau Dynol. Fodd bynnag, os nad oes cyfle adleoli ar gael bydd yr

unigolyn yn cael ei ddiswyddo. Ni fydd swydd sy'n dod i ben yn cael ei hail-hysbysebu gan fod y cyllid ar gyfer y swydd yn dod i ben ar y pwynt hwnnw.

- Eglurwyd bod y datganiad ar dudalen 11 o'r ISA 260 sy'n darllen "Fel rhan o'r drafodaeth honno [h.y. mewn perthynas â lle gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol] canfûm botensial ar gyfer twyll mewn postio cofnodion anarferol; "yn cysylltu'n ôl ag un o'r risgiau datganiad ariannol a nodwyd yn y Cynllun Archwilio Allanol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf mewn perthynas â gwrthwneud rheolaethau gan reolwyr a'r gwiriadau y byddai'r archwilwyr yn eu cynnal fel rhan o'u hymateb arfaethedig i'r risg sy'n cynnwys profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cofnodion. Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth o dwyll yn ystod yr archwiliad.
- Cadarnhawyd nad yw'r addasiad a wnaed i Gronfa'r Degwm Ynys Môn y cyfeirir ato yn adroddiad Swyddog Adran 151 yn cael ei adrodd gan yr archwilwyr yn adroddiad ISA 260 gan nad yw o werth sylweddol ac mae'n un o nifer o fân addasiadau a wnaed.
- Cadarnhawyd bod y cyfrifon yn dal i gael eu hadolygu ac y bydd unrhyw newidiadau, gan gynnwys mân wallau a/neu anghysondebau, yn cael eu cywiro ar gyfer cyfarfod llawn y Cyngor.

**Penderfynwyd –**

- **Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cadarnhau ei fod yn derbyn Datganiad Cyfrifon Terfynol 2022/23 fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1 i adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.**
- **Nodi y bydd unrhyw newidiadau dilynol i'r Datganiad Cyfrifon yn cael eu cytuno gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'u hadrodd i'r Cyngor Llawn cyn derbyn Datganiad Cyfrifon 2022/23 yn ffurfiol.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a fydd yn rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2022/23.**
- **Nodi Adroddiad ISA 260 Archwilio Allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022/23.**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi'r gweithgaredd a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol yn ystod 2022/23 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn y Cyngor, gan dynnu sylw at rai o'r meysydd risg twyll presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg, a darparu casgliad ar effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor i leihau'r risg o dwyll.

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o'r adroddiad gan dynnu sylw at y ffaith ei bod yn bwysicach nag erioed fod pob corff cyhoeddus yng Nghymru'n ceisio lleihau'r risg o golledion drwy dwyll a'u bod yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol. Cyfeiriodd at drefniadau atal twyll y Cyngor a aseswyd yn erbyn y pum egwyddor sydd yng Nghod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd, sef, cydnabod cyfrifoldeb am atal twyll a llygredd; nodi risgiau o dwyll a llygredd; cael strategaeth atal twyll a llygredd ar waith; darparu adnoddau i weithredu'r strategaeth a gweithredu mewn ymateb i dwyll a llygredd. Nododd yr adroddiad fod 28 diwrnod o waith y tîm Archwilio Mewnol yn ystod 2022/23 yn ymwneud â gweithgareddau atal twyll gan gynnwys 8 diwrnod yn ymgymryd â gwaith ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol ac 20 diwrnod yn ymwneud â gwaith twyll rhagweithiol, ymholiadau twyll cyffredinol ac ymchwiliadau. Cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at achosion o geisio twyllo'r

Cyngor yn ystod 2022/23, sut yr ymdriniwyd â'r rheini a'r camau a gymerwyd i’w hatal rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Daeth y Pennaeth Archwilio a Risg i'r casgliad fod cynnydd da yn cael ei wneud tuag at gyflawni Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-25. Bydd parhau i gyflawni'r Cynllun Gweithredu (sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad) yn sicrhau bod y Cyngor yn llwyddo i ymladd twyll. Un o’r camau allweddol nesaf fydd datblygu asesiad o’r risg o dwyll ar gyfer y Cyngor cyfan a fydd yn helpu i wella gallu’r Cyngor i nodi achosion posibl o dwyll, yn ogystal ag unrhyw wendidau yn ei drefniadau atal twyll neu feysydd lle mae mwy o risg o dwyll. Bydd hyn yn caniatáu i’r Cyngor dargedau ei adnoddau prin yn well a’i weithgareddau’n briodol, yn enwedig os neu pan fydd risgiau newydd yn gysylltiedig â thwyll yn dod i’r amlwg.

Yn y drafodaeth ddilynol codwyd y materion canlynol –

- Gan dderbyn ei bod yn bwysig codi ymwybyddiaeth o dwyll a chael polisïau i'r perwyl hwnnw, roedd y Pwyllgor eisiau gwybod pa reolaethau sydd ar waith i atal twyll rhag digwydd yn y lle cyntaf o ddydd i ddydd e.e. twyll mandad lle gwneir ymgais i newid manylion banc unigolyn neu gwmni.
- Osgoi talu premiwm ail gartrefi lle mae'r ail gartref yn cael ei nodi fel y brif breswylfa.
- Achosion o dwyll mewn perthynas â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a sut y caiff ei gyflawni mewn perthynas â'r grant.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod pob adolygiad Archwilio Mewnol yn archwilio'r rheolaethau sydd ar waith ar gyfer y maes dan sylw ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella os nodir diffygion neu wendidau. Bydd gwaith y Gweithgor Atal Twyll hefyd yn helpu i sicrhau y bydd twyll a phosibilrwydd o dwyll ar flaen meddyliau pobl, a’u bod yn ymwybodol ohono wrth iddynt gynnal eu busnes bob dydd. Yn ogystal â hyn, mae staff wedi cael cyfarwyddyd i gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ac i wirio manylion cyswllt ar ffurf cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn i osgoi twyll mandad banc ac wrth ail-gontractio ar gyfer meddalwedd Bacs, bydd y Cyngor yn sicrhau bod y feddalwedd yn cynnwys dilysu manylion adnabod fel mater o drefn. Gall twyll Grant Cyfleusterau i'r Anabl ddigwydd pan fydd derbynnydd y grant yn symud tŷ ar ôl i'r eiddo gael ei addasu heb ad-dalu'r grant neu lle nad yw gwaith wedi'i gwblhau i'r safonau gofynnol neu ddim o gwbl neu yn achos dyfynbrisiau uwch ar gyfer y gwaith.

  O ran ail gartrefi, gan nad yw deddfwriaeth yn pennu'r meini prawf ar gyfer yr hyn sy'n brif breswylfa, mae'r cyfrifoldeb ar y Cyngor i ffurfio ei farn ei hun ar sail gwybodaeth a geir am ffordd o fyw'r unigolyn e.e. man gwaith, cyfeiriad y feddygfa, ysgolion y plant i greu darlun o ble mae'r unigolyn yn byw ac i ddod i benderfyniad ar y sail honno. Gall penderfyniad y Cyngor gael ei herio drwy broses apelio. Fodd bynnag, wrth i nifer cynyddol o gynghorau yn Lloegr benderfynu codi premiwm ail gartrefi, mae osgoi/twyll o'r math hwn yn debygol o leihau.

**Penderfynwyd nodi Adroddiad Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd Blynyddol 2022/23 a'r gweithgaredd a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn digwydd o fewn ac yn erbyn y Cyngor.**

## 6. ADRODDIAD AR DDEILLIANNAU MENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn nodi deilliannau presennol y Cyngor mewn perthynas ag ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o broses ymarfer yr NFI, a'i phwrpas, sef ymarfer paru data a gynhelir bob dwy flynedd gan Swyddfa'r Cabinet sy'n ceisio canfod ac atal twyll a gwallau. Mae'n orfodol ar y Cyngor, ynghyd ag awdurdodau lleol eraill a chyrff sector cyhoeddus i gymryd rhan. Mae cyfranogwyr yn cyflwyno data i wefan ddiogel yr NFI ar ddiwedd y flwyddyn galendr ddynodedig, ac ar ôl hynny mae'r system NFI yn paru data mewn cyrff cyhoeddus, a rhyngddynt, i nodi anghysondebau. Rhoddir gwybod am anghysondebau posibl, a elwir yn 'barau', i gyfranogwyr er mwyn iddynt eu hadolygu , ymchwilio iddynt a chofnodi'r deilliannau sydd wedyn yn cael eu casglu a'u hadrodd yn genedlaethol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r parau data ynddynt eu hunain yn awgrymu twyll neu wallau, ond maent yn canfod achosion y dylid ymchwilio iddynt ymhellach. Ar gyfer ymarfer yr NFI 2020/21 roedd saith maes i gyfrif am bron i 97% o'r £6.5m o achosion o dwyll a gwallau ar gyfer Cymru - gostyngiadau'r Dreth Gyngor (£2.6m) a Bathodynnau Glas (£1.4m) oedd y rheini'n bennaf. Fel rhan o ymarfer yr NFI 2022/23, cyflwynodd y Cyngor ddata mewn perthynas â Thai, trwyddedau gyrwyr tacsi, Cyflogres, hanes taliadau credydwyr a data sefydlog, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r Dreth Gyngor a'r Gofrestr Etholwyr. Yn ogystal â hyn, cyflwynodd yr Adran Gwaith a Phensiynau fanylion derbynyddion budd-daliadau a chyflwynodd Gwasanaeth Digidol y Bathodyn Glas fanylion Deiliad Bathodyn Glas.

Rhwng Ionawr a Mawrth 2023 derbyniodd y Cyngor gyfanswm o 66 adroddiad unigol a oedd yn cynnwys cyfanswm o 2,638 o barau unigol. Hyd yma ymchwiliwyd i 8 diwrnod gan weithio ar ddarparu'r data i Swyddfa'r Cabinet, dadansoddi a gwerthuso parau a gweithio gyda gwasanaethau i ymchwilio i'r parau a gwella eu prosesau. Mae'r adroddiad yn nodi'r adroddiadau y mae Archwilio Mewnol wedi'u dadansoddi a/neu wedi cydlynu'r gwerthusiad ohonynt a'r meysydd gwasanaeth y maent yn berthnasol iddynt. Manylir ar ganlyniadau'r gwaith hwnnw yn Atodiad 1 gan gynnwys yr arbedion ariannol a wnaed o ran taliadau dyblyg i gredydwyr (£13,343.21) neu a amcangyfrifir fel yn achos twyll Rhestr Aros Tai (£4,283) a Bathodynnau Glas heb eu canslo (£194,350). O ran yr olaf, yn dilyn trafodaethau gyda'r uwch swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu'r Bathodyn Glas nodwyd bod pob un o'r 299 o barau NFI ar gyfer y categori hwn yn enghreifftiau o ddiffyg cyfathrebu rhwng gwasanaethau a bod Bathodynnau Glas heb eu cau ar y system oherwydd nad oedd y tîm wedi cael gwybod am farwolaeth deiliad y drwydded. Nodwyd yn hyn o beth mai cymhlethdod pellach yw bod marwolaethau yn cael eu cofrestru yn y sir lle maent yn digwydd sy'n golygu bod marwolaethau yn Ysbyty Gwynedd gan gynnwys rhai trigolion o Ynys Môn yn cael eu cofrestru yng Ngwynedd. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth honno o reidrwydd yn cael ei throsglwyddo i'r Cyngor yn Ynys Môn drwy broses Dywedwch Wrthym Unwaith Gwynedd neu sy'n golygu fel arall bod Bathodynnau Glas wedyn yn parhau ar agor ar y system ar ôl i ddeiliad y drwydded farw.

Oherwydd gwrthdaro rhwng gwahanol flaenoriaethau a diffyg adnoddau, nid yw'r Tîm Refeniw wedi dadansoddi parau eto mewn perthynas â gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-dal Tai a Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor. Mae'r Tîm yn bwriadu defnyddio darparwr allanol i gynnal adolygiad swmp wedi'i reoli o'i ddisgowntiau a'i eithriadau cyn diwedd 2023/24. Er yr ystyrir bod ymarfer yr NFI wedi cynnig gwerth am arian, mae'n ymddangos bod gwendidau yn y fformiwlâu a ddefnyddir gan yr NFI i gyfrifo deilliannau e.e., y gwerth uwch ar gyfer 'Bathodynnau Glas' sy'n dal i gael eu defnyddio a'r incwm y mae'r Cyngor yn ei golli o ganlyniad. Fodd bynnag, mae'r cyfle i nodi gwendidau mewn rheolaethau mewnol a chyfleoedd i drafod ffyrdd o gryfhau prosesau gyda rheolwyr yn un fantais anfesuradwy sydd ddim yn cael ei hadlewyrchu yn neilliannau ariannol yr NFI. Bydd ffyrdd o wella'r broses o ddadansoddi parau er mwyn sicrhau mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn cael eu trafod gyda Phenaethiaid Gwasanaeth ac Uwch Reolwyr wrth symud ymlaen fel bod ymarferion yn y dyfodol yn rhoi mwy o elw ar fuddsoddiad.

Wrth ystyried yr adroddiad bu'r Pwyllgor yn trafod y canlynol -

- Effaith yr adroddiad deilliannau a'r incwm a gollwyd i'r Cyngor gan wallau'r Bathodyn Glas a'i fod yn adlewyrchiad ar y Cyngor yn enwedig os nad yw'r bathodynnau wedi cael eu camddefnyddio. Nododd y Pwyllgor yn arbennig yr heriau a'r cymhlethdodau sy'n codi o safbwynt Bathodynnau Glas ac o bosibl ar gyfer gwasanaethau eraill hefyd gan nad yw'r Cyngor yn cael gwybod am farwolaethau sy'n digwydd y tu allan i'w ffiniau, yn fwyaf amlwg yn Ysbyty Gwynedd. Nododd y Pwyllgor ymhellach ei fod yn rhoi'r Cyngor dan anfantais mewn perthynas â phrosesau fel ymarfer yr NFI.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y rheolwyr wedi rhoi sicrwydd y bydd prosesau rheoli mewnol yn cael eu cryfhau i sicrhau bod gweinyddwyr Bathodyn Glas yn gallu croesgyfeirio manylion deiliaid trwyddedau gyda chofnodion y rhai sydd wedi marw, gan sicrhau bod y bathodynnau'n cael eu canslo'n brydlon. Mae gwaith ychwanegol hefyd yn cael ei wneud i sefydlu proses gyfathrebu uniongyrchol rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a Cyswllt Môn.

- Adennill arian y mae'r ymarfer NFI yn awgrymu y gallai fod wedi cael ei golli i dwyll e.e. mewn perthynas â Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor a ph'un ai y rhoddir cyfrif am golledion/diffyg casglu incwm y Dreth Gyngor wrth baratoi'r gyllideb.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y darparwr allanol a benodwyd gan y Cyngor i adolygu disgowntiau ac esemptiadau'r Dreth Gyngor yn ceisio dilysu deiliadaeth sengl yn achos hawlwyr Disgownt Person Sengl ac os oes tystiolaeth i awgrymu nad yw hawlydd yn byw ar ei ben ei hun, yna caiff y cyfrif ei addasu yn unol â hynny ac mae bil newydd o'r Dreth Gyngor yn cael ei baratoi a'i anfon at yr hawlydd a allai arwain at dalu'r Dreth Gyngor neu at dystiolaeth mai ef/hi yw'r unig un sy'n byw yn yr eiddo. Mae'r Cyngor wedi cynyddu'r debyd a godir drwy ganslo hawliadau nad oedd yn ddilys. Rhoddwyd gwybod pellach i'r Pwyllgor am y broses ar gyfer gosod y Sylfaen Dreth, yn ogystal â'r gyfradd gasglu a'r ffactorau dan sylw, gan gynnwys nifer y ddisgowntiau a'r eithriadau a ganiatawyd. Mewn blwyddyn arferol, cesglir tua 97% o incwm y Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn a 99.3% dros dair blynedd.

**Penderfynwyd nodi adroddiad Deilliannau'r NFI a chadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd sicrwydd o gynnwys yr adroddiad bod y Cyngor yn ceisio manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan y Fenter Twyll Genedlaethol i ddefnyddio dadansoddeg data i gryfhau'r broses o atal a chanfod twyll.**

## 7. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg i ddiweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 30 Tachwedd 2023 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 13 Medi 2023 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi llwyth gwaith cyfredol Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig wrth symud ymlaen. Derbyniodd aelodau'r Pwyllgor gopïau ar wahân o'r tri adroddiad archwilio mewnol a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf mewn perthynas â gweinyddu Pensiwn Athrawon (Adolygiad Dilyn i Fyny Cyntaf) (Sicrwydd Rhesymol); Gwytnwch Sefydliadol (Risg Strategol YM7) (Sicrwydd Rhesymol) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Sicrwydd Rhesymol). Cwblhawyd dau ddarn arall o waith yn y cyfnod yn ymwneud ag ymchwiliad i ordaliad contract ac ymchwiliad i dwyll mewnol nad oedd barn sicrwydd yn berthnasol iddo.

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg drosolwg o'r adolygiadau a gwblhawyd a'u casgliadau gan gynnwys y risgiau/materion a nodwyd a chamau gweithredu a argymhellwyd. Cyfeiriodd at y darnau o waith a oedd ar y gweill yn unol â pharagraff 24 o'r adroddiad a

chadarnhaodd mewn perthynas â'r camau gweithredu sy'n weddill, ar 30 Tachwedd, fod dau fater / risg cymedrol yn hwyr a bod y ddau yn y gwasanaeth Adnoddau. Ar hyn o bryd mae dwy swydd wag yn y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar ôl i Uwch Archwilydd adael a chael swydd o fewn Adnoddau a gan fod secondiad hirdymor yn parhau. Serch hynny, gwnaed cynnydd da o ran gweithredu'r Strategaeth Archwilio Mewnol Flynyddol ar gyfer 2023/24 a'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-25. Mae gwaith hefyd ar y gweill gyda Zurich Risk Engineering UK i gynnal asesiad annibynnol o Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor. Disgwylir adroddiad ym mis Chwefror 2024. Mae Archwilio Mewnol hefyd yn gweithio gyda Thîm Hyfforddi a Datblygu'r Cyngor ar hyn o bryd i ddarparu hyfforddiant atal twyll ar draws y Cyngor.

Wrth ymateb i gwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg –

- Fod y gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio arbedion cyllidebol o ganlyniad i swyddi gwag i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol.
- Eglurwyd bod y Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru ddwywaith y flwyddyn ar berfformiad o ran mynd i'r afael â chamau archwilio gan gynnwys camau gweithredu sy'n weddill / hwyr.
- Eglurwyd bod y darn o waith sydd ar y gweill mewn perthynas â chwyn am waredu gwastraff (Gwasanaethau Tai) yn ymwneud ag archwilio'r broses gaffael o ran gwerth am arian a gweithdrefnau dyfarnu contractau a bod yr adolygiad o Brosesau Incwm Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol hefyd ar y gweill yn ymwneud ag edrych ar y prosesau hynny o safbwynt effeithlonrwydd a diogelwch.

**Penderfynwyd nodi darpariaeth sicrwydd a blaenoriaethau Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.**

## 8. DIWEDDARIAD AR Y GOFRESTR RISG STRATEGOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn nodi'r gwelliannau i'r Gofrestr Risg Strategol ers ei chyflwyno ddiwethaf i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2023 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant gan fod Cynllun y Cyngor newydd 2023-28 yn ei le, fod y Tîm Arweinyddiaeth wedi cynnal adolygiad o'r gofrestr risg strategol yn ei chyfanrwydd ym mis Gorffennaf 2023, er mwyn sicrhau bod y gofrestr risg strategol yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r risgiau i amcanion strategol y Cyngor. Yn yr un cyfnod uwchraddiwyd y system sy'n dal y cofrestrau risg (4risk) ac mae'r dull y caiff risgiau eu sgorio hefyd wedi'i newid i adlewyrchu gwerth rhifol yn unig gyda'r risg mwyaf bellach yn 25 yn hytrach nag A1. Bu rhai heriau ar y cychwyn gyda'r broses uwchraddio oedd yn golygu nad oes gan y gofrestr, fel y'i cyflwynir yr un lefel o fanylion sicrwydd ag o'r blaen er bod gwaith i ddatrys y problemau gyda'r darparwr meddalwedd yn parhau. Cyfeiriodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant at y newidiadau i'r risgiau strategol fel a ganlyn -

- Ailddiffinio risgiau YM1, YM5, YM7, YM8, YM3 ac YM14 yn unol â'r tabl ym mharagraff 8 o'r adroddiad a'r rhesymau dros y newid.
- Cau risg YM4 mewn perthynas ag effaith ymosodiad seiber ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen a chymorth a'i gynnwys o fewn risg YM3 mewn perthynas â methiant TG a fyddai'n amharu ar ddarparu gwasanaethau.
- Ychwanegu dau risg newydd i'r gofrestr sef YM15 mewn perthynas â threfniadau cydweithio a phartneriaethau craidd ac YM16 mewn perthynas â diffyg adnoddau i ddiweddaru prosesau busnes sy'n effeithio ar allu'r Cyngor i foderneiddio.
- Y cynnydd ar lefel gynhenid a gweddilliol o risg YM1 – y risg y byddai gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol - o 4

(Tebygol) i 5 (Bron yn Sicr) oherwydd y sefyllfa economaidd a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a thrafodwyd y materion canlynol –

- Annog gwasanaethau i symud systemau i'r Cwmwl i gryfhau gwytnwch a dileu'r angen am ail ganolfan ddata fel cam gweithredu i liniaru’r risg mewn perthynas â risg YM3 (Y risg bod methiant TG yn amharu’n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau). Holodd y Pwyllgor a oedd risg posibl trwy orddibynnu ar y Cwmwl ac a oedd anfanteision yn gysylltiedig â gwasanaethau Cwmwl o ran cost, diogelwch a mynediad at ddata. Awgrymodd y Pwyllgor y gallai adolygiad o wasanaethau Cwmwl fod yn fuddiol i roi sicrwydd am y modd y gweithredir gwasanaethau’r Cwmwl.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y gellid gofyn i archwilwyr TG y Cyngor gynnal adolygiad o wasanaethau’r Cwmwl.

- Gwahanu rolau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Sgriwtini mewn perthynas â rheoli risg a gwerthuso risgiau'n fanwl.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai cyfrifoldeb y Pwyllgor hwn yw sicrhau bod gan y rheolwyr drefniadau ar waith i reoli risg a bod y trefniadau rheoli risg hynny'n effeithiol. Pe bai'r Pwyllgor wrth fonitro'r gofrestr risg strategol yn pryderu am unrhyw risg sy'n dod i'r amlwg neu’n canfod patrwm o risg sy’n cynyddu dros gyfnod o amser, yna gall gyfeirio'r pryderon hynny at y Perchennog Risg perthnasol i gymryd camau gweithredu neu i roi sicrwydd. Atgoffwyd y Pwyllgor hefyd y bydd Zurich Risk Engineering yn cynnal asesiad o Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor a bydd yn adrodd i'r Pwyllgor hwn ar ganlyniad yr asesiad ddechrau'r flwyddyn nesaf.

- Nifer y risgiau lle mae'r lefel risg gweddilliol ar ôl lliniaru yn parhau i fod yn Goch neu'n Gritigol a dull y Cyngor o ymdrin â'r lefel hon o risg.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, er y bydd yr holl risgiau’n cael eu hadolygu'n fanwl yn ystod y misoedd nesaf, bod risgiau penodol gyda YM1 yn enghraifft lle mae'r sgôp ar gyfer cyflwyno rheolaethau ychwanegol a'r effaith y maent yn debygol o'i chael wrth leihau'r risg gweddilliol yn gyfyngedig oherwydd ffactorau allanol fel y sefyllfa economaidd ehangach a'r rhagolygon sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

- Wrth nodi mai un o'r prif reolaethau o ran YM1 (y risg y bydd gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol) yw sicrhau bod y Cyngor yn cadw balansau o dros 5% o'r gyllideb flynyddol wrth gefn, gofynnodd y Pwyllgor beth yw cyfradd waredu’r cronfeydd wrth gefn ac ar ba bwynt y bydd y Cyngor yn cyrraedd sefyllfa y mae nifer o gynghorau eisoes ynddi heb unrhyw arian ar ôl.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod gan y Cyngor oddeutu £11m mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar hyn o bryd a bod £18m mewn cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi at ddibenion penodol (yn ogystal â bod balansau ysgol sy'n cael eu rheoli gan ysgolion). Er mwyn cydbwyso cyllideb 2023/24, defnyddiodd y Cyngor £3.78m o'i gronfeydd wrth gefn ac yn seiliedig ar y setliad disgwyliedig, disgwylir y bydd angen swm tebyg i wneud iawn am ddiffyg cyllidebol yn 2024/25 er y bydd yr union swm yn dibynnu ar lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor a/neu doriadau yn y gyllideb y mae'r Cyngor Llawn yn penderfynu eu gweithredu. Byddai hynny'n dangos cyfradd waredu o £3m i £4m y flwyddyn a fyddai'n lleihau’r Balansau Cyffredinol o fewn 3 blynedd ac os byddai'r Cyngor yn peidio â newid y defnydd o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer defnydd cyffredinol, byddai'n cynnal y Cyngor am gyfnod hirach. Rhagwelir hefyd y bydd blwyddyn

ariannol 2025/26 yr un mor heriol ac wrth i'r sgôp i sicrhau arbedion leihau mae'r gyfradd waredu'n debygol o gynyddu. Mae'r rhagolygon y tu hwnt i'r pwynt hwnnw yn ansicr gan y gallai newidiadau gwleidyddol hefyd arwain at newidiadau yn y sefyllfa ariannol. Yn y tymor byr i'r tymor canolig nid yw'r Cyngor mewn perygl o fynd i drafferthion ariannol mor ddifrifol nes bydd yn gorfod cyflwyno hysbysiad Adran 114. Fodd bynnag, wrth i gronfeydd wrth gefn y Cyngor leihau, felly hefyd effaith mesurau lliniaru gan arwain at fwy o risg.

**Penderfynwyd nodi'r gwelliannau a wnaed i'r Gofrestr Risg Strategol a chadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd sicrwydd bod y Tîm Arweinyddiaeth wedi cydnabod ac yn rheoli'r risgiau i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.**

**Gweithredu Ychwanegol – Bod Pennaeth Archwilio a Risg yn gofyn i archwilwyr TG y Cyngor gynnal adolygiad o wasanaethau'r Cwmwl.**

## 9. ARCHWILIO ALLANOL: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU A'R DIWEDDARIAD CHWARTEROL

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru ar ei Raglen Waith a'i Amserlen ar 30 Medi, 2023 er gwybodaeth y Pwyllgor. Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a statws gwaith archwilio ariannol a pherfformiad Archwilio Cymru sy'n cynnwys astudiaethau wedi'u cynllunio a'u cyhoeddi ac roedd yn cynnwys gwaith Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Cadarnhaodd Yvonne Thomas, Rheolwr Archwilio Cyllid Archwilio Cymru mewn perthynas â'r gwaith archwilio ariannol fod y gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi'i gwblhau i raddau helaeth fel yr adroddwyd yn flaenorol, ac mae ardystio ffurflenni grant mewn perthynas â chyfraniadau Pensiwn Athrawon ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 bron â chael ei gwblhau yn ogystal ag ardystiad y ffurflenni grantiau ar gyfer ardrethi annomestig 2022/23 gan anelu at ardystio'r ddwy ffurflen y mis hwn.

Adroddodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad ar gynnydd y rhaglen Archwilio Perfformiad a chadarnhaodd fod disgwyl i'r adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg gael ei gwblhau ym mis Ionawr 2024 gyda'r adolygiad o'r Defnydd o Wybodaeth am Berfformiad bellach wedi'i gwblhau gyda'r nod o roi adroddiad arno yn y Flwyddyn Newydd. Mae'r gwaith maes ar gyfer Gosod Amcanion Llesiant wedi'i gwblhau gyda'r adroddiad drafft i'w gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd, yn yr un modd yr Adolygiad Thematig - Gofal Heb ei Drefnu. Hefyd yn y Flwyddyn Newydd ceir adroddiad ar yr adolygiad thematig o ddull strategol y Cyngor o ran Digidol. Felly, mae Rhaglen Archwilio Perfformiad 2022/23 ar y trywydd iawn i gael ei chwblhau.

Wrth ystyried yr adroddiad cododd y Pwyllgor y cwestiynau canlynol –

- P'un a fydd yr adolygiad - Rheoli'r Rhaglen Gyfalaf yn cynnwys sylwadau ynghylch sut mae prosiectau cyfalaf yn cael eu rheoli a'u rhedeg.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr adolygiad ar hyn o bryd yn y cyfnod cwmpasu ond y gallai unrhyw themâu penodol y mae'r Pwyllgor/aelodau unigol yn awyddus i'r adolygiad edrych arnynt gael eu cyfleu i'r Pwyllgor a'u hadrodd yn ôl i'r rheolwyr.

- Canlyniadau arfaethedig yr adolygiad  o ddull strategol y Cyngor o ran Digidol.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod yr adolygiad yn edrych i ba raddau y datblygwyd dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum

ffordd o weithio sydd eu hangen i gyflawni'r nodau llesiant sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel adolygiad thematig, bydd adroddiad lleol byr yn ogystal ag adroddiad canlyniadau cenedlaethol yn cael eu paratoi.

**Penderfynwyd nodi Diweddariad Chwarter 2 2023/24 Archwilio Cymru ar ei Raglen Waith a'i Amserlen.**

**10. ADOLYGIAD O FLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith a Rhaglen Hyfforddiant y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Arweiniodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr aelodau drwy'r newidiadau yn y Rhaglen Waith a nodwyd y rheini gan y Pwyllgor. Cadarnhaodd fod y Rhaglen Waith yn cyd-fynd â swyddogaethau craidd y Pwyllgor gan fod y rheini wedi'u nodi yn ei gylch gorchwyl ac eglurodd nad oedd unrhyw beth wedi'i drefnu ar gyfer rhan Asesu'r Panel Perfformiad gan mai dim ond unwaith mewn cylch etholiadol y mae'n ofynnol cynnal yr asesiad hwnnw ac yna caiff yr adroddiad asesu ei ystyried gan y Pwyllgor hwn.

Codwyd y posibilrwydd o gyflwyno hunanasesiad unigol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor drwy gyfrwng sgyrsiau un i un gyda'r Cadeirydd fel modd nodi pa gymorth y gallai fod ei angen ar aelodau unigol i ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd, ac yn eu dymuno.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod aelodau'r Pwyllgor eisoes wedi cwblhau holiadur asesu anghenion hyfforddi sy'n sail i raglen hyfforddi'r Pwyllgor (sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad). Awgrymodd, a chytunwyd bod yr holiadur yn cael ei ail-ddosbarthu fel y gall aelodau roi diweddariad am yr hyn y maent yn ei weld fel eu hanghenion hyfforddi parhaus.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ystyried y cynnig ynghylch cael sgwrs un-i-un gydag aelodau unigol a pha mor ymarferol fyddai'r broses o'i weithredu.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach am hunanasesiad y Pwyllgor a gynhaliwyd gyda chefnogaeth CIPFA, rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ddiweddariad ar gynnydd hyd yma a threfniadau a'r amserlen adrodd ddisgwyliedig.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn Blaenraglen Waith 2023/24 fel un sy'n cyflawni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl a**
- **Nodi'r newidiadau i'r dyddiadau ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau.**

**Gweithredu Ychwanegol – Bod Pennaeth Archwilio a Risg yn ail-ddosbarthu Holiadur Asesu Anghenion Hyfforddiant y Pwyllgor.**

**Mr Dilwyn Evans**
**Cadeirydd**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 8 Chwefror 2024 |
| **Teitl yr Adroddiad:** | Llywodraethu Gwybodaeth – Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Hysbysu Aelodau am Lefel y Gydymffurfiaeth a'r Risg |
| **Adroddiad gan:** | SIRO/Swyddog Monitro Est. 2586 lynnball@ynysmon.llyw.cymru |
| **Swyddog Cyswllt:** | SIRO/Swyddog Monitro Est. 2586 lynnball@ynysmon.llyw.cymru |

**Pwrpas yr adroddiad hwn**

Rhannu'r materion Llywodraethu Gwybodaeth (LIG) allweddol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 hyd at 31 Mawrth 2023 a chrynhoi'r risgiau Llywodraethu Gwybodaeth cyfredol.

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu datganiad a throsolwg yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth o sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ar gyfer trin gwybodaeth gorfforaethol, gan gynnwys cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (GDPR y DU); Deddf Diogelu Data 2018; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (Gwyliadwriaeth) a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am gyswllt y Cyngor â rheoleiddwyr allanol ac mae'n darparu gwybodaeth hefyd am ddigwyddiadau diogelwch, achosion o dorri cyfrinachedd, neu "ddigwyddiadau ond y dim" yn ystod y cyfnod.

Rhoddir data allweddol am weithdrefnau llywodraethu gwybodaeth yn y Cyngor yn Atodiadau 1 - 7 isod.

## 2.0 Datganiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth

Fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth rwyf yn gwneud yr argymhellion canlynol:

i. bod adroddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn cael ei dderbyn fel adlewyrchiad cywir o faterion Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor ar gyfer y cyfnod perthnasol;

ii. bod y Pwyllgor yn caniatáu i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ofyn i'r Tîm Arweinyddiaeth i:-

   (i) asesu defnydd y Cyngor o TCC a'i ddefnydd, os o gwbl, o dechnoleg dronau;

(ii) asesu’r risgiau diogelu data yn gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth, ynghyd â’r bygythiadau seiber yn gysylltiedig â rheoli contractau / caffael o fewn y Cyngor;

(iii) rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y Tîm Arweinyddiaeth yn derbyn gwybodaeth ddigonol fel eu bod yn ymwybodol o’r bygythiadau seiber sy’n wynebu’r Cyngor a’r mesurau lliniaru.

## Atodiad 1. Nifer y digwyddiadau diogelwch data a gofnodwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

**Digwyddiadau diogelwch data (22/23): 22 digwyddiad**

Digwyddiadau Lefel 0 – Lefel 1 (digwyddiadau "ond y dim" neu ddigwyddiadau a gadarnhawyd fel digwyddiadau diogelwch data ond **nad oes** angen rhoi gwybod amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a rheoleiddwyr eraill) = 21

Digwyddiadau Lefel 2 (digwyddiadau diogelwch data y mae'n **rhaid** rhoi gwybod amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth oherwydd y risg sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau) = 1

| Categori Lefel 0 -1 | Nifer |
|---|---|
| Datgelu trwy gamgymeriad | 19 |
| Colli data / caledwedd | 2 |
| Datgelu heb awdurdod | 0 |
| Colli wrth gael eu cludo | 0 |
| Arall | 0 |
| **Categori 2** | **Nifer** |
| Datgelu trwy gamgymeriad | 0 |
| Datgelu heb awdurdod | 1 |
| Methiant technegol | 0 |
| Arall | 0 |

## Atodiad 2. Camau a gytunwyd yn dilyn digwyddiadau diogelwch data.

| Camau Gweithredu |
|---|
| Yn dilyn achos o ddatgelu heb awdurdod pan gafodd llun o lythyr cyfrinachol gan yr ysbyty at ddefnyddiwr gwasanaeth ei atodi i neges e-bost ar gyfer Grŵp defnyddwyr mewnol nodwyd a chytunwyd ar dri cham gweithredu er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o ddigwyddiad tebyg. |

## Atodiad 3. Digwyddiadau diogelwch data y rhoddwyd gwybod i'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn eu cylch.

1.0 Rhoddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am ddigwyddiad diogelwch data ym mis Medi 2022 wedi i lythyr cyfrinachol gan yr ysbyty at ddefnyddiwr gwasanaeth ei ddatgelu heb ganiatâd. Ni ofynnwyd i'r Cyngor gymryd unrhyw gamau pellach gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

2.0 Yn dilyn proses ymchwilio a gymerodd dros 20 mis i'w chwblhau, rhoddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth adborth ar ddigwyddiad diogelwch data a adroddwyd yn ôl ym mis Mehefin 2021, ac a oedd yn ymwneud â diogelwch gweinyddion 5 ysgol uwchradd. Daeth y Cyngor i wybod am y digwyddiad wedi iddo sylwi ar lif traffig amheus drwy'r SMTP (protocol trosglwyddo post syml h.y. gweithgaredd e-bost amheus) ar rwydwaith yr ysgolion uwchradd. Roedd y gweinyddion a'r seilwaith TG wedi cael eu datblygu gan drydydd parti ar ran yr ysgolion a oedd hefyd yn gyfrifol am eu cynnal a'u cadw.

Ar ôl methu â dod o hyd i'r rheswm dros y gweithgarwch amheus, penderfynwyd rhoi peiriannau rhithiol ac unrhyw ddyfeisiadau rhwydwaith a chyfrifon defnyddwyr y 5 ysgol uwchradd a allai fod dan fygythiad mewn cwarantin. Cyflwynwyd adroddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gan Swyddog Diogelu Data'r Cyngor, ac yna gan yr ysgolion fel rheolyddion y data. Cynhaliwyd ymchwiliad gan *NCC Group*, sef y prif sefydliad ymgynghorol ar fygythiadau seiber yn y DU a sefydlwyd Tîm Rheoli Digwyddiad gan y Cyngor.

Yn ystod yr ymchwiliad canfuwyd bod y systemau'n cynnwys nifer o wendidau hysbys, ac felly roeddent yn agored i ymosodiadau. Daeth *NCC Group* o hyd i nifer o faterion yn gysylltiedig â chyflwr gwael yr ystâd yn gyffredinol o ran diogelwch. Canfuwyd bod systemau allweddol yn dal i gael eu defnyddio heb eu cefnogi wedi iddynt gyrraedd diwedd eu hoes, Systemau Gweithredu etifeddol. Bu i *NCC Group* hefyd nodi bod diffyg cofnodi ar draws yr ystâd wedi effeithio'n sylweddol ar eu hymchwiliad.

Er bod yr ymchwiliad wedi dod i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o ymosodiad, roedd nifer o elfennau cydymffurfiaeth allweddol ar goll ac roedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gefnogol o'r cynllun gweithredu a gafodd ei ddatblygu a'i weithredu gan y Cyngor i sicrhau bod modd i ysgolion brosesu data personol yn ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data'r DU.


Yn sgil y camau adferol a gymerwyd gan y Cyngor er mwyn diogelu systemau digidol a phrosesau llywodraethu gwybodaeth yr ysgolion llwyddwyd i wella diogelwch a chydymffurfiaeth yn sylweddol ac ar unwaith ac o ganlyniad i hyn, yn fwy na dim byd arall, ni chymerodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw gamau pellach yn erbyn y Cyngor a'r ysgolion. Mae'r elfennau diogelu data o'r gwaith hwn yn parhau i fod ar y gweill gan y Gwasanaeth Dysgu.

## Atodiad 4. Gwybodaeth am geisiadau a chwynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000


### Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac Adolygiadau Mewnol

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 derbyniodd y Cyngor 854 o geisiadau am wybodaeth yn cynnwys 4967 o gwestiynau unigol.

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd** | 854 |
| **Cyfanswm Nifer y Cwestiynau a Dderbyniwyd** | 4967 |




Tudalen 19




O'r 854 o geisiadau, arweiniodd 2 at Adolygiad Mewnol o ymatebion y Cyngor. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- Cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol yn y naill achos;

**Atodiad 5. Gwybodaeth am nifer y cwynion diogelu data a wnaed i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn gan unigolion ynghylch y modd y proseswyd eu gwybodaeth bersonol.**

Mae deddfwriaeth diogelu data yn atgyfnerthu hawliau gwrthrych y data i gwyno am y modd y mae sefydliadau wedi defnyddio eu data personol, neu'n bwriadu ei ddefnyddio, neu sut y maent fel arall wedi amharu ar hawliau gwrthrych y data.

| **Cwynion a gyflwynwyd i'r Cyngor o dan y Ddeddf Diogelu Data** |
| --- |
| Derbyniwyd 3 o gwynion o dan y Ddeddf Diogelu Data,<br><br>1 yn ymwneud â chais i **gywiro data**<br>2 yn ymwneud â **gwrthwynebu** prosesu data personol gan y Cyngor<br><br>Ar ôl archwiliad gan y Swyddog Diogelu Data, **ni chafodd y cwynion eu cadarnhau**. Ystyriwyd bod gweithgareddau prosesu'r Cyngor yn gyfreithlon ac na chafodd hawliau gwrthrychau'r data eu cyfaddawdu. |

**Atodiad 6. Gwybodaeth am nifer y Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth a chydymffurfiaeth y Cyngor.**

| **Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth a chydymffurfiaeth** |
| --- |
| Derbyniwyd 24 cais o'r fath a derbyniodd 50% (12) ymateb o fewn y terfyn amser statudol, h.y. o fewn mis.<br><br>Mae 10 wedi'u gohirio.<br><br>Roedd 2 gais yn gymhleth ac felly cafodd y terfyn amser statudol ei ymestyn i dri mis. Derbyniodd 1 o'r rhain ymateb o fewn y terfyn amser newydd ac mae'r llall yn dal i fod gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. |

## Atodiad 7.  Gwybodaeth am Drosolwg gan Reoleiddwyr

### 7.1. Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) yn goruchwylio'r modd y mae awdurdodau cyhoeddus yn cynnal gwyliadwriaeth gudd a ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol yn unol â Deddf yr Heddlu 1997, Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA). Nod y gyfundrefn RIPA yw sicrhau bod gweithgareddau gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n cydymffurfio â hawliau dynol. Cyflawnir hyn trwy system o hunanawdurdodi gan uwch swyddogion sy'n gorfod bod yn fodlon bod y wyliadwriaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur; yna mae'n rhaid derbyn cymeradwyaeth gan farnwr i'r hunanawdurdodiad.

Mae Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor hefyd yn Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer cydymffurfiaeth y Cyngor â gweithdrefnau RIPA.

Archwiliwyd a diweddarwyd Polisi'r Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw awdurdodiadau eu gwneud yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

### 7.2 Y Comisiynydd Gwybodaeth

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gyfrifol am orfodi a hyrwyddo cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig; y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; y Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus; y Rheoliadau INSPIRE. Mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth y pŵer i asesu'r ffordd y mae unrhyw sefydliad wedi prosesu data personol yn erbyn safonau cyfredol 'arfer dda'.

**Gwybodaeth am nifer y cwynion diogelu data a wnaed gan unigolion ynghylch y modd y bu i'r Cyngor brosesu eu gwybodaeth bersonol ac yr ymchwiliwyd iddynt gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.**

| **Gwybodaeth am nifer y cwynion diogelu data a wnaed gan unigolion ynghylch y modd y bu i'r Cyngor brosesu eu gwybodaeth bersonol ac yr ymchwiliwyd iddynt gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.** |
|---|
| Dim. |

| **Apeliadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** |
|---|

| |
|---|
| Dim. |

### 7.3. Y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Biometreg a Chamerâu Gwyliadwriaeth yn goruchwylio cydymffurfiaeth â'r Côd Ymarfer ar gyfer Camerâu Gwyliadwriaeth. Crëwyd swyddfa'r Comisiynydd o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 i reoleiddio systemau teledu cylch cyfyng (CCTV) ymhellach. Mae'r Comisiynydd Biometreg a Chamerâu Gwyliadwriaeth wedi ymgymryd â chyfrifoldebau'r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth, rôl sydd bellach wedi dod i ben. Yn 2019 ysgrifennodd y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth at Brif Weithredwyr awdurdodau lleol yn y DU yn gofyn iddynt benodi eu Swyddogion Diogelu Data i'r rôl Uwch Swyddog Cyfrifol CCTV.

Bu'r Cyngor yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth mewn perthynas â theledu cylch cyfyng ers 2019-20 ac mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio yn awr pryd bynnag y cynigir system teledu cylch cyfyng newydd. Er bod gwasanaethau'n derbyn cyngor ynglŷn â chydymffurfiaeth a llywodraethiant gan y Swyddog Diogelu Data ar gais ac er bod hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer rheolwyr, nid oes rheidrwydd ar wasanaethau i fod yn rhagweithiol wrth rannu gwybodaeth â'r Swyddog Diogelu Data neu'r Un Pwynt Cyswllt CCTV ynglŷn â'u systemau CCTV. Mae'r gwaith a fu'n mynd rhagddo ers 2019 i geisio adolygu systemau CCTV y Cyngor wedi ennyn ymatebion amrywiol ac ansicr. Cydnabyddir bod defnydd y Cyngor o systemau CCTV yn llai ymwthiol na chynghorau eraill, sy'n gweithredu systemau mewn canol trefi, ond mae risg, yn enwedig oherwydd y cydweithio â'r Heddlu, y gallai prosesau llywodraethu gael eu herio.

Rwyf o'r fan bod gwybodaeth gorfforaethol ynglŷn â'r defnydd y mae gwasanaethau yn ei wneud o systemau CCTV yn dameidiog ac anghynhwysfawr. O ganlyniad, mae'n debyg nad oes gan y Cyngor oruchwyliaeth ddigonol o'i systemau ac na all nodi cydymffurfiaeth a bylchau o ran hyfforddiant. Rhaid i Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor gymryd perchnogaeth dros y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio systemau CCTV.

Rwyf yn ymwybodol bod gwasanaethau'n ystyried defnyddio technoleg Drôn a chamerâu corff ac er y gallai'r math yma o dechnoleg ddarparu gwasanaeth effeithiol, mae'r materion llywodraethiant a'r risgiau ychwanegol o ran cydymffurfiaeth yn gysylltiedig â'r math yma o dechnoleg yn golygu bod angen goruchwylio cydymffurfiaeth a llywodraethiant ar lefel uwch drwy ddirprwyo'r dasg i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth i gefnogi rôl weithredol y Swyddog Un Pwynt Cyswllt CCTV.

Fel yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth nodaf fod angen adolygu'r defnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud o systemau teledu cylch cyfyng fesul gwasanaeth.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 8 Chwefror 2024 |
| **Teitl yr Adroddiad:** | Adroddiad gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar Ganlyniad Ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r Digwyddiad Seiber ym Mehefin 2021 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Hysbysu aelodau o ganlyniad yr ymchwiliad a gwblhawyd gan yr ICO yn dilyn adrodd ar ddigwyddiad seiber a effeithiodd ar yr ysgolion uwchradd. |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Berw Hughes<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>MarcHughes@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Elin Williams<br>Swyddog Diogelu Data Ysgolion<br>dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru |

**Pwrpas yr adroddiad hwn**

Darparu trosolwg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ganlyniad i ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i ddigwyddiad seiber yn yr ysgolion uwchradd yn 2021.

Mae'r adroddiad hefyd yn darparu trosolwg o ba weithredoedd sydd wedi eu cymryd gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a Gwasanaeth TGCh y Cyngor parthed llunio rhaglen waith fewnol er mwyn cyfarch elfennau technegol a llywodraethu gwybodaeth amrywiol oedd yn ddiffygiol.

**Argymhellion**

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Pwyllgor, bod:

i. adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion, sy'n darparu trosolwg o ganlyniad ymchwiliad yr ICO i'r digwyddiad, yn cael ei dderbyn.
ii. gweithredoedd sydd wedi eu hadnabod a'u cwblhau drwy'r rhaglen waith fewnol yn cael eu derbyn.

**Adroddiad gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar Ganlyniad Ymchwiliad y Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r Digwyddiad Seiber ym Mehefin 2021**

## 1. Cefndir

Darganfuwyd ar y 23ain o Fehefin 2021 bod achos posib o seiber-ddigwyddiad wedi bod, yn effeithio ar bob un o'r pum ysgol uwchradd sydd ar Ynys Môn - Ysgol Syr Thomas Jones; Ysgol Uwchradd Bodedern; Ysgol Gyfun Llangefni; Ysgol David Hughes ac Ysgol Uwchradd Caergybi.

Nid oedd yn hysbys ar y pryd a allai data personol a gedwir ar systemau'r ysgolion fod wedi'i beryglu yn ystod y digwyddiad. Codwyd y larwm ar ôl darganfod traffig amheus ar weinyddion e-bost ysgolion uwchradd.

Roedd systemau technoleg gwybodaeth - gan gynnwys cyfrifon e-bost - wedi cael eu hanalluogi dros dro i gyfyngu'r digwyddiad ar y pryd. Roedd tarfu ar yr ysgolion tra bod y digwyddiad yn cael ei gyfyngu.

Daeth y Cyngor â thîm o ymgynghorwyr seiber-dechnoleg arbenigol i mewn ar unwaith i ymchwilio i'r digwyddiad. Roedd y National Cyber Security Centre (NCSC) hefyd yn rhoi cymorth i ddatrys materion. Ni chanfu dadansoddiad fforensig o'r digwyddiad seiber unrhyw dystiolaeth bod systemau TGCh wedi'u hymdreiddio neu eu peryglu.

Adroddwyd ar y digwyddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) oherwydd y risg posibl i'r cofnodion sensitif iawn a gadwir gan yr ysgolion.

## 2. Gweithredoedd wedi eu Cwblhau fel Rhan o'r Rhaglen Waith Fewnol yn dilyn Digwyddiad Seiber Ysgolion Uwchradd

### 2.1. Trosolwg

Yn dilyn y digwyddiad ym Mehefin 2021, ffurfiwyd rhaglen waith fewnol a oedd yn cynnwys nifer o gamau adfer pwysig pellgyrhaeddol er mwyn cyfarch elfennau technegol a llywodraethu gwybodaeth amrywiol oedd yn ddiffygiol.

Mae gwelliannau technegol a llywodraethu gwybodaeth wedi eu harwain gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a swyddogion Gwasanaeth TGCh y Cyngor.

Mae nifer o weithredoedd pwysig wedi eu cyflawni ers i'r rhaglen gael ei gweithredu, gan gynnwys derbyn prif bolisïau diogelu data ac uwchraddio systemau ac isadeiledd technoleg gwybodaeth ysgolion.

Ysgogodd y digwyddiad y Cyngor i gyflwyno gwaith a oedd wedi'i gynllunio, fel rhan o raglen HWB Llywodraeth Cymru, i uwchraddio systemau technoleg gwybodaeth yr

ysgolion uwchradd, arbennig a chynradd. Dechreuodd y gwaith o uwchraddio'r systemau a'r seilwaith TGCh dros wyliau'r haf 2021.

Mae systemau data yr oedd yr ysgolion yn eu defnyddio wedi'u trosglwyddo i wasanaethau cwmwl HWB. Mae bod ar HWB yn helpu i wneud y systemau yn yr ysgolion mor gadarn â phosibl ac yn lleihau'r risg o unrhyw ymosodiad neu ddigwyddiad posibl yn y dyfodol.

Mae gwaith wedi'i wneud i alluogi Dilysu Aml-ffactor (MFA) ar gyfrifon HWB staff a llywodraethwyr ysgol i wella diogelwch wrth gyrchu HWB o gartref.

Fel rhan o'r ymateb i'r digwyddiad, penderfynwyd symud offer a ddefnyddiwyd gan ysgolion i Microsoft InTune, unwaith eto i wella diogelwch mynediad. Mae'r mudiad eisoes wedi ei gwblhau ar gyfer yr ysgolion cynradd a Canolfan Addysg y Bont, a gwaith wedi cychwyn i fudo ysgolion uwchradd.

2.2. <u>Gwelliannau Llywodraethiant Diogelu Data</u>

| **Rhif** | **Gweithredoedd a Gwelliannau** | **Cynnydd ers Gorffennaf 2021** |
|---|---|---|
| 1 | Diweddaru polisïau diogelu data cyfredol a chreu polisïau newydd. | Mae cyfanswm o **14** polisi diogelu data ar gyfer ysgolion wedi naill ai cael eu diweddaru'n dilyn mabwysiadu *UK GDPR* neu eu creu fel polisïau newydd:<br><br>• Polisi Diogelu Data Ysgolion<br>• Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion<br>• Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion<br>• Gweithdrefn Rhannu Gwybodaeth gydag Awdurdodau Heddlu'r Deyrnas Unedig (Gwynedd a Môn)<br>• Polisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion<br>• Polisi Prosesu Data Ysgolion<br>• Polisi Trosglwyddo Cofnodion Ysgol i Archifdy Ynys Môn<br>• Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion<br>• Polisi CCTV Ysgolion<br>• Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion<br>• Polisi E-Ddiogelwch Ysgolion<br>• Polisi E-bost Staff Ysgolion<br>• Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion<br>• Polisi Tynnu Lluniau at Bwrpas Cyhoeddusrwydd Ysgolion. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae dogfen Rhestr Wirio Polisïau Diogelu Data wedi ei ddatblygu er mwyn cefnogi ysgolion i gadarnhau eu bod wedi gweithredu ar y prif ofynion oddi fewn i'r holl bolisïau diogelu data. |
| 2 | Sicrhau bod staff a llywodraethwyr ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu data a'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cydymffurfiaeth diogelu data. | Mae sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnal gyda phenaethiaid, staff ysgolion a llywodraethwyr. Mae cyfanswm o **51** sesiwn hyfforddiant wedi eu cynnal rhwng Gorffennaf 2021 a Thachwedd 2023 ac mae **25** corff llywodraethol wedi bod yn gynulleidfa i gyflwyniad diogelu data. |
| 3 | Defnyddio'r Adolygiad Rheolaeth Ysgol (ARhY) i fonitro cydymffurfiaeth ac i gadarnhau pa bolisïau sydd wedi eu mabwysiadu gan ysgolion. | Defnyddir yr Adolygiad Rheolaeth Ysgol i gael gwybodaeth gwaelodlin parthed cydymffurfiaeth ac ar gyfer monitro pa ysgolion sydd wedi mabwysiadu pa bolisïau diogelu data. |
| 4 | Creu Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng ysgolion a'r Cyngor ar gyfer gwasanaeth y Swyddog Diogelu Data Ysgolion. | Cafodd Cytundeb Lefel Gwasanaeth ei greu a'i rannu gydag ysgolion i'w arwyddo ym mis Tachwedd 2021 yn dilyn cyfnod o ymgynghori. Mae'r CLG cyfredol yn cael ei adolygu ym mis Mawrth 2024. |
| 5 | Mapio'r llifiau data rhwng yr ysgolion a'r Cyngor. | Sefydlwyd grŵp i edrych ar gytundebau a phrosesau sydd yn eu lle rhwng ysgolion a'r Cyngor er mwyn adnabod ble mae angen cytundeb. Mae gwaith yn parhau gyda'r ffrwd gwaith hwn. |
| 6 | Adolygu trefniadau gyda phroseswyr data a chreu/adolygu Cytundebau Prosesu Data lle bo angen. | Mae gwaith mapio o gwmpas pa systemau, rhaglenni ac apiau mae pob ysgol unigol yn eu defnyddio wedi ei gwblhau. Mae hyn wedi dangos a oes gan ysgolion Gytundebau Prosesu Data addas eisoes ar waith ac mae gwaith pellach wedi ei gwblhau er mwyn creu Cytundebau Prosesu Data newydd lle bo angen a phan fo apiau a rhaglenni newydd yn cael eu defnyddio. Mae gwaith yn parhau gyda'r ffrwd gwaith hwn. |
| 7 | Creu Pecyn Cofnodion Gweithgareddau Prosesu (ROPA) a Phecyn Cofrestr Asedau Gwybodaeth. | Datblygwyd canllaw ar sut i greu ROPA. Yn lle darparu templed i ysgolion ei gwblhau eu hunain, mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi bod yn datblygu templed ROPA sydd wedi ei boblogi'n barod i ysgolion ei addasu (fersiwn ar gyfer y cynradd a'r uwchradd). Mae hyn hefyd yn cynnwys Cofrestr Asedau Gwybodaeth. Mae'r rhain wedi eu datblygu'n defnyddio gwybodaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | wedi ei chasglu o'r gwaith mapio ynglŷn â pha systemau, rhaglenni ac apiau sy'n cael eu defnyddio. Mae'r templedi yn barod i'w cymeradwyo a bydd sesiynau'n cael eu cynnal er mwyn cefnogi ysgolion gydag addasu'r templedi. |
| 8 | Creu Pecyn Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion (DPIA). | Mae templed Rhestr Risg a Matrics Risg wedi eu datblygu ac wedi eu rhannu gydag ysgolion er mwyn cefnogi ysgolion unigol i adnabod a monitro risgiau diogelu data. |
| 9 | Cwblhau Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA). | Mae templed DPIA cyffredinol wedi ei greu i ysgolion perthnasol ei addasu ar gyfer eu system CCTV. Mae gwaith yn parhau gyda'r ffrwd gwaith hwn. |
| 10 | Creu pecyn ffurflen ganiatâd. | Mae'r ffurflen ganiatâd gyfredol ar gyfer cyhoeddi lluniau ar amrywiaeth o lwyfannau wedi ei hadolygu a'i diweddaru ac mae taflen wedi ei chynhyrchu er mwyn egluro i ddisgyblion a rhieni sut mae caniatâd *UK GDPR* yn gweithio. |
| 11 | Cynnal archwiliad diogelu data. | Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi ymweld â phob ysgol unigol er mwyn adolygu cydymffurfiaeth a threfniadau diogelu data yn 2022 a 2023. |
| 12 | Trafod materion diogelu data ysgolion gyda'r Fforwm Cynradd a'r Fforwm Uwchradd a rhannu'r newyddlen diweddariad diogelu data ysgolion. | Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn paratoi diweddariadau rheolaidd i ysgolion, sy'n cynnwys rhannu newyddlen dymhorol. Mae rhan diogelu data ysgolion yn y bwletin llywodraethwyr ysgol hefyd ac mae diweddariadau a gwybodaeth ynglŷn â diogelu data yn cael eu darparu'n rheolaidd drwy fwletin wythnosol y Gwasanaeth Dysgu. Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cael gwahoddiad yn rheolaidd i fynychu cyfarfodydd Fforwm Strategol Cynradd a Fforwm Strategol Uwchradd a hefyd yn aelod o'r Fforwm TGCh Ysgolion a'r Gweithgor Gwella Systemau a Phrosesau. Mae tudalen diogelu data ar feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu ble mae holl bolisïau, canllawiau a thempledi cyfredol ar gael i ysgolion eu defnyddio, ac mae Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion wedi ei sefydlu. |

2.3. <u>Gwelliannau TGCh</u>

Mae'r canlynol yn welliannau sydd wedi eu hargymell gan y cwmni a gefnogodd Cyngor Sir Ynys Môn yn dilyn y digwyddiad seiber ysgolion uwchradd (Grŵp NCC).

| Rhif | Gwelliannau yr Argymhellir | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|
| 1 | **Uwchraddio systemau gweithredu etifeddiaeth** | Drwy fudo i InTune, mae fersiynau cyfredol o Windows wedi eu gosod neu mae'r cyfrifiadur wedi ei ddad-gomisiynu os nad oedd diweddaru yn bosib. |
| 2 | **Gweithredu Dilysu Aml-Ffactor (MFA)** | Mae MFA yn ei le drwy InTune. Mae unrhyw geisiadau i fewngofnodi o du allan i rwydwaith yr ysgol angen MFA. |
| 3 | **Analluogi protocolau etifeddiaeth e-bost (IMAP & POP3)** | Hyn wedi ei gyfarch drwy'r defnydd o system e-bost HWB. |
| 4 | **Diweddaru sgan gwrthfirysau** | Mae'r holl offer sydd wedi mudo i InTune yn derbyn diweddariadau Defender. |
| 5 | **Datrysiad cyfrinair gweinyddwr lleol Microsoft** | Mae offer yn cael cyfrifon gweinyddol sy'n unigryw ac yn gymhleth. Mae manylion yn cael eu cadw'n ddiogel gan y tîm TGCh. |
| 6 | ***Remote desktop hardening*** | Mae *remote desktop* wedi ei analluogi. |
| 7 | **Cyfyngu mynediad i'r we** | Mae mynediad i'r we wedi ei analluogi o *servers*. |
| 8 | **Galluogi *Endpoint Detection and Response (EDR)*** | Angen paratoi achos busnes pan mae mudiad ysgolion uwchradd wedi ei gwblhau. |
| 9 | ***SIEM solution*** | Mae SIEM wedi ei osod yn gorfforaethol, ac mae gwaith wedi ei gychwyn i edrych ar fewnforio data ysgolion. |
| 10 | **Breintiau cyfrifon** | Nid yw cyfrifon ar offer yn gyfrifon gweinyddwyr. |
| 11 | **Adolygu rheolaeth *patch*** | Mae diweddariadau'n cael eu rheoli drwy osodiadau InTune ac mae'r tîm isadeiledd yn trefnu diweddariadau ar gyfer pecynnau eraill fel bo angen. |
| 12 | **Adolygu rhaglenni sydd o bosibl yn ddiangen** | Mae pob cyfrifiadur wedi ei ail-ffurfweddu a dim ond meddalwedd sydd wedi ei gymeradwyo sy'n cael ei osod. |

### 3. Canlyniad i Ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Mae'r ICO wedi rhannu eu canlyniad i'w hymchwiliad drwy lythyr yn Ebrill 2023, yn dilyn y Cyngor yn adrodd am y digwyddiad iddynt ym Mehefin 2021. Bu i'r ICO gadarnhau bod y digwyddiad wedi ei ystyried o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (RhDDC y DU) oherwydd natur y prosesu yn ymwneud â hyn ac nad oes angen ymyrraeth bellach ganddynt.

Yn ystod ymchwiliadau i'r digwyddiad, bu i'r ICO ddarganfod bod amryw o elfennau technegol a llywodraethu gwybodaeth sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol yn ddiffygiol**.** Amlygwyd y diffygion technegol mewn adroddiad

gan yr NCSC (National Cyber Security Centre), arbenigwyr pennaf y DU ar ddiogelwch seiber.

Yn ogystal â hyn, mae'r ICO yn cynnig anogaeth i barhau gyda'r gwelliannau technegol a llywodraethiant diogelu data yn yr ysgolion.

**4. Casgliadau**

Mae'n amlwg bod gallu'r Cyngor i adnabod a nodi beth oedd angen ei fabwysiadu â'i wella yn dderbyniol i'r ICO, a bod hyn wedi atal ymyrraeth bellach

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion a swyddogion Gwasanaeth TGCh y Cyngor wedi parhau gyda'r gwelliannau technegol a llywodraethu diogelu data yn yr ysgolion, fel yr argymhellir gan yr ICO.

Mae parhau gyda'r rhaglen waith yn hanfodol bwysig er mwyn creu isadeiledd digidol diogel a diwylliant cryf o amddiffyn data yn ein hysgolion. Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a Gwasanaeth TGCh y Cyngor yn parhau i gefnogi ysgolion er mwyn cwblhau'r rhaglen waith a sicrhau bod gan bob ysgol y polisïau, y dogfennau allweddol, yr ymarferion gorau a'r dechnoleg briodol er mwyn cydymffurfio'n llawn â gofynion diogelu data.

Mae ymosodiadau seiber yn dal i fod yn fygythiad gwirioneddol i ysgolion, ond mae'r gwaith o uwchraddio'r systemau a'r seilwaith, ynghyd ag ymarferion cydymffurfio diogelu data da, yn rhoi ysgolion mewn sefyllfa fwy diogel wrth fynd ymlaen.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | Chwefror 2024 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2021/22 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth / Head of Service<br>Rheoleiddio a Economaidd / Regulation and Economic<br>ChristianBranch@ynysmon.llyw.uk<br>01248 752491 |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Stephen Nicol<br>Prif Ymgynghordydd Iechyd a Diogelwch Corf./Principal Corporate Health & Safety Advisor<br>Rheoleiddio a Economaidd / Regulation and Economic<br>StephenNicoll@ynysmon.llyw.cymru<br>01248 751884 / 07747 118 402 |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am berfformiad yr Awdurdod mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch yn ystod y cyfnod Ebrill 1af 2022 i 31 Mawrth 2023 | |

## Cyflwyniad

1. Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn nodi y bydd adroddiad blynyddol yn cael ei ysgrifennu mewn perthynas a pherfformiad Iechyd a Diogelwch. Cyflwynir yr adroddiad mewn fformat a nowdwyd gan WLGA i alluogi cynnwys gwybodaeth allweddol. Mae'r adroddiad yn bresennol yn Atodiad A

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:

   - ystyried yr adroddiad a'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys

# Adroddiad Iechyd a Diogelwch 2022 / 23

# Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 2 |
| 2 | Rheolaeth Gorfforaethol | 2 |
| 3 | Gwybodaeth Ystadegol | 2 |
| 4 | Partneriaethau | 9 |
| 5 | Ymgynghori ar y Cyd | 9 |
| 6 | Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol | 9 |
| 7 | Cyflawniadau Allweddol | 10 |
| 8 | Perfformiad Diogelwch | 10 |
| 9 | Cynllun Gweithredu Strategol | 13 |
| 10 | Casgliad | 14 |
| 11 | Argymhelliad | 14 |


## 1 Cyflwyniad

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys ymrwymiad i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi datblygu fframwaith a chanllawiau ar gyfer cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad ym maes Iechyd a Diogelwch. Mae'r fframwaith a'r canllawiau yn darparu cyfres o benawdau fel cymorth ar gyfer adrodd ar berfformiad ym maes iechyd a diogelwch. Nid yw'n fwriad i'r fframwaith fod yn ddadansoddiad cynhwysfawr o iechyd a diogelwch ond fe ddylai gynorthwyo i nodi ymrwymiad, gallu a chyfeiriad o ran rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn y fformat a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## 2 Rheolaeth Gorfforaethol

Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn parhau i ddarparu parhad a llywodraethiant i'r cyngor mewn perthynas â'i reolaeth a'i gamau gweithredu cyffredinol, ac mae penderfyniadau'n dal i gael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith. Cefnogwyd hyn drwy gyfarfodydd o'r Tîm Rheoli Corfforaethol er mwyn galluogi i unrhyw faterion gael eu dwyn gerbron y Tîm Arweinyddiaeth i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i'w datrys, boed y rheiny'n faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch neu faterion eraill.

Lluniwyd y Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2021/22 i fynd i'r afael â risgiau a galwadau'n gysylltiedig â byw, gweithio a darparu gwasanaethau ym mhresenoldeb parhaus Covid19. Roedd y Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2022/23 yn cynnwys nifer o themâu o'r cynllun blaenorol gyda'r bwriad o gynorthwyo i adfer "busnes fel arfer".

## 3 Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r data a gyflwynir isod yn ymwneud â'r holl ddamweiniau a digwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt yn 2022/23. Mae damweiniau a digwyddiadau wedi eu categoreiddio mewn tri phrif grŵp – Mân, Difrifol a RIDDOR.

Mân ddamweiniau a digwyddiadau fyddai damweiniau/digwyddiadau lle nad oedd yr anaf neu’r golled yn sylweddol. Mae hynny’n cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle nad oedd neb wedi cael anaf neu golled, a phe bai anaf neu golled wedi digwydd ni fyddai’r canlyniadau wedi bod yn sylweddol.

Mae damweiniau/digwyddiadau difrifol yn cynnwys y rheini a arweiniodd at anaf neu golled sylweddol neu lle'r oedd posibilrwydd o anaf neu golled o’r fath. Mae hynny’n cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle na chafodd neb anaf neu golled, ond lle gallai’r canlyniad fod wedi bod yn sylweddol pe bai anaf neu golled wedi digwydd.

Mae damweiniau a digwyddiadau RIDDOR yn ddamweiniau a digwyddiadau sydd yn cwrdd â meini prawf penodol ac mae’n rhaid rhoi gwybod amdanynt i’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae'r meini prawf ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau o’r fath i’w gweld yn y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y damweiniau a’r digwyddiadau yn yr awdurdod cyfan. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau yn ymwneud â’r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion ysgol, contractwyr, cyfleusterau a staff.

**Yr holl ddigwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt**

**Tabl 1 – Yr holl ddigwyddiadau 2022/23**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2022/23</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm 1237</td></tr>
<tr><td>Mân 884</td></tr>
<tr><td>Difrifol 240</td></tr>
<tr><td>RIDDOR 11</td></tr>
</table>

**Tabl 2 – Yr holl ddigwyddiadau 2021/22**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2021/22</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm<br>966</td></tr>
<tr><td>Mân<br>815</td></tr>
<tr><td>Difrifol<br>147</td></tr>
<tr><td>RIDDOR<br>4</td></tr>
</table>

**Tabl 3 – Yr holl ddigwyddiadau 2020/21**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2020/21</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm<br>655</td></tr>
<tr><td>Mân<br>546</td></tr>
<tr><td>Difrifol<br>108</td></tr>
<tr><td>RIDDOR<br>1</td></tr>
</table>

Wrth ddadansoddi Tabl 1, 2 a 3 gwelir cynnydd yn nifer y damweiniau a digwyddiadau yn 2022/23 o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Credir mai cynnydd mewn gweithgarwch ers codi'r cyfyngiadau'n gysylltiedig â'r argyfwng COVID19 sydd i gyfrif am hyn.

Oherwydd dyletswydd gofal y Cyngor tuag at y cyhoedd fel rhan o'r ymrwymiad, mae digwyddiadau a gofnodwyd ar gyfer aelodau o'r cyhoedd wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau cyffredinol. Mae'r cyhoedd yn cynnwys disgyblion ysgol, disgyblion cyn ysgol, aelodau Clybiau Ieuenctid, Cleientiaid mewn cartrefi gofal a defnyddwyr cyfleusterau Hamdden.

Gall digwyddiadau yn y grŵp hwn gynnwys damweiniau ar feysydd chwarae, cleientiaid yn llithro, baglu a chwympo oherwydd symudedd, digwyddiadau'n ymwneud â chwaraeon a chyflyrau meddygol. Maent yn cael eu cofnodi am reswm cyfreithiol, rhag ofn y bydd angen camau pellach.

Mae niferoedd ar gyfer y digwyddiadau hyn yn cael eu dangos isod yn Nhabl 4

**Tabl 4 – gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau gwaith**

| Math o leoliad | Cyfanswm |
|---|---|
| Ysgol (Disgyblion) | 425 |
| Digwyddiadau Dechrau'n Deg a Chylch Meithrin a chlybiau ieuenctid (Disgyblion ac Aelodau) | 188 |
| Canolfannau Hamdden (Defnyddwyr) | 60 |
| Cartrefi Gofal (Cleientiaid) | 173 |

Dengys yr uchod y cafwyd gwybod am 846 o ddigwyddiadau'n ymwneud â'r Cyhoedd mewn cyfleusterau sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor.

**Digwyddiadau'n ymwneud â gweithwyr yn unig**


Mae'r tablau isod yn dangos nifer y damweiniau a digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr yn unig.

**Tabl 5 – Digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr yn unig 2022/23**




| | |
|---|---|
| **Cyfanswm nifer y digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)** | |
| **Cyfanswm** | **326** |
| **Mân** | **263** |
| **Difrifol** | **57** |
| **RIDDOR** | **6** |

**Tabl 6 – Digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr yn unig 2021/22**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Cyfanswm nifer y digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm 188</td></tr>
<tr><td>Mân 161</td></tr>
<tr><td>Difrifol 23</td></tr>
<tr><td>RIDDOR 4</td></tr>
</table>

**Tabl 7 – Digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr yn unig 2020/21**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Cyfanswm nifer y digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm 180</td></tr>
<tr><td>Mân 159</td></tr>
<tr><td>Difrifol 20</td></tr>
<tr><td>RIDDOR 1</td></tr>
</table>

Wrth ddadansoddi Tabl 4, 5 a 6 gwelir bod cynnydd yn nifer y digwyddiadau yn ystod 2022/23 (Tabl 4) o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

Mae'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol yn cael eu dangos isod yn Nhabl 8

**Tabl 8**

| Math o ddigwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|
| **Ymosodiad Corfforol Anableddau Dysgu** | 84 |
| Mae digwyddiad o'r math hwn yn gysylltiedig ag ymosodiad gan gleientiaid neu ddisgyblion, yn anfwriadol o bosib. Gallu i adnabod y posibilrwydd o achosi niwed. | |
| **Ymosodiad Corfforol** | 11 |
| Mae digwyddiad o'r math hwn yn ystyried y gallai'r person fod yn bwriadu achosi niwed. Mae'r math hwn o ddigwyddiad yn amrywio o wthio i daro person. Cafwyd cysylltiad corfforol. | |
| **Digwyddiad Treisgar / Difrïo** | 45 |
| Mae digwyddiad o'r math hwn yn ymwneud â sylwadau difrïol neu fygythiol i staff sy'n cael eu gwneud gan y cyhoedd. Gallai gynnwys aelodau o'r cyhoedd sy'n cwyno am broblemau mewn ffordd ymfflamychol. | |
| **Ymddygiad Heriol** | 6 |
| Mae hyn yn gysylltiedig ag ymddygiad ymosodol gan gleientiaid / disgyblion, ond, oherwydd problem alluedd meddyliol, efallai nad oedd yn fwriad achosi gofid. | |
| **Codi a Chario** | 17 |
| Mae digwyddiadau Codi a Chario yn deillio o godi gwrthrychau neu gynorthwyo cleientiaid | |
| **Llithro, Baglu a Chwympo** | 27 |
| Digwyddiadau a gofnodwyd lle mae gweithwyr wedi disgyn ac wedi cael anaf. Gallai hyn gynnwys arwynebau llithrig neu ormod o rwystrau. | |

Mae 'Math arall o ddigwyddiad' yn cael ei restru fel math o ddigwyddiad ar y system gofnodi. Mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiad sy'n anodd ei gategoreiddio fel digwyddiad. Efallai fod aelod o staff wedi adrodd am rywbeth fel pryder. Cofnodwyd cyfanswm o 58 digwyddiad o dan y pennawd hwn.

Roedd niferoedd bychan wedi'u cofnodi ar gyfer mathau eraill o ddigwyddiadau, er enghraifft, cofnodwyd 5 digwyddiad o dan Gyflyrau Meddygol, 6 o dan gyswllt gyda Gwydr/Offer Miniog. Barnwyd bod nifer y digwyddiadau hyn yn isel ac mae'n bosib nad oedd patrwm amlwg a fyddai'n codi pryderon sylweddol. Aseswyd y digwyddiadau i nodi camau adfer posib.

Cofnodwyd 36 digwyddiad lle cafodd eiddo staff ei ddifrodi neu ei golli.

Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR)

RIDDOR yw'r gyfraith sy'n nodi bod rhaid i gyflogwyr, a phobl eraill sydd â rheolaeth dros safleoedd gwaith, adrodd a chadw cofnodion am ddamweiniau cysylltiedig â gwaith sy'n achosi marwolaeth; damweiniau cysylltiedig â gwaith sy'n achosi rhai mathau o anafiadau difrifol (anafiadau y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt), achosion lle cafwyd diagnosis o rai mathau o glefydau diwydiannol; a rhai 'digwyddiadau peryglus' (digwyddiadau a allai achosi niwed).

Mae'n rhaid rhoi gwybod am ddamweiniau yn gysylltiedig â gwaith sy'n ymwneud â'r cyhoedd neu bobl nad ydynt yn y gwaith os caiff person ei anafu ac os ydynt yn cael eu cludo o safle'r ddamwain i'r ysbyty i dderbyn triniaeth ar gyfer yr anaf hwnnw. Nid yw'n ofynnol sefydlu pa driniaeth a ddarparwyd yn yr ysbyty, ac nid oes angen rhoi gwybod am ddigwyddiadau lle cludwyd pobl i'r ysbyty dim ond fel rhagofal pan nad oedd unrhyw arwydd o anaf.

Cyflwynir dadansoddiad o'r adroddiadau RIDDOR isod yn Nhabl 9

**Tabl 9 Adroddiadau RIDDOR**

| Dyddiad | Digwyddiad | Rheswm am yr adroddiad |
|---|---|---|
| 5/5/22 | Disgynnodd disgybl ar sgwter a chrafu ei wyneb. Problem bosib gyda'r sgwter ac aethpwyd â'r disgybl yn syth i'r ysbyty. | Aelod o'r cyhoedd wedi mynd yn syth i'r ysbyty |
| 15/12/22 | Disgynnodd disgybl dros rwystr yn y ciw am ginio. Posibilrwydd fod asgwrn wedi cael ei dorri ac aethpwyd â'r disgybl yn syth i'r ysbyty. | Aelod o'r cyhoedd wedi mynd yn syth i'r ysbyty |
| 6/1/23 | Gofalwr cartref wedi disgyn yng nghartref cleient a thorri asennau. | Anaf penodedig |
| 16/1/23 | Athro wedi disgyn yn y gwaith gan anafu gewyn | Anaf sy'n achosi absenoldeb o'r gwaith am fwy na 7 diwrnod |
| 9/2/23 | Aelod o'r cyhoedd a oedd yn nôl disgybl o'r ysgol wedi disgyn ar iard yr ysgol. Torri arddwrn. | Aelod o'r cyhoedd wedi mynd yn syth i'r ysbyty |
| 10/2/23 | Aelod o staff mewn ysgol wedi disgyn ac yn anymwybodol. Galw 999 am gymorth. | Anaf penodedig |
| 1/3/23 | Disgybl wedi disgyn yn y dosbarth a thorri ei ben-glin | Aelod o'r cyhoedd wedi mynd yn syth i'r ysbyty |
| 3/3/23 | Disgybl wedi torri bys gyda llif mewn gwers | Aelod o'r cyhoedd wedi mynd yn syth i'r ysbyty |

| | | |
|---|---|---|
| 6/3/23 | Piano bychan wedi disgyn ar ddisgybl. Crafiad i'r pen. | Aelod o'r cyhoedd wedi mynd yn syth i'r ysbyty |
| 14/3/23 | Warden Traffig wedi disgyn dros ffens ac anafu ei gefn.<br><br>Noder – Cyflwynwyd adroddiad RIDDOR fel rhagofal oherwydd difrifoldeb yr anaf. | Anaf Penodedig |
| 28/3/23 | Gweithiwr wedi llithro wrth gamu oddi ar stand. | Anaf sy'n achosi absenoldeb o'r gwaith am fwy na 7 diwrnod |

Cyflwynwyd adroddiad RIDDOR ychwanegol mewn perthynas ag aelod o staff a dderbyniodd ddiagnosis o Ddirgryniad Llaw a Braich. Cyflwynwyd yr adroddiad wedi i'r Meddyg Galwedigaethol argymell hynny. Cyflwynwyd adroddiad llawn i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ac nid oedd angen camau pellach.

Nid oedd yr achos hwn wedi'i gynnwys fel adroddiad am ddigwyddiad.

## 4 Partneriaethau

### Timau Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru

Prin fu'r gwaith rhwng y Timau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yng Ngogledd Cymru ers yr argyfwng COVID19. Bu rhywfaint o ymgynghori rhwng y Timau ynglŷn â phynciau penodol er mwyn caniatáu iddynt roi rheolaethau iechyd a diogelwch tebyg ar waith.

### Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Mae'r HSE wedi cychwyn cynnal archwiliadau rhagweithiol yn dilyn codi'r cyfyngiadau COVID. Mae'r HSE wedi targedu rheoli asbestos mewn ysgolion yn benodol fel archwiliad rhagweithiol. Archwiliwyd dwy ysgol yn Ynys Môn. Ni arweiniodd yr archwiliadau at osod unrhyw gamau pellach ar gyfer rheoli asbestos. Roedd argymhelliad i ddarparu strwythur reoli fwy eglur yn y Ffeiliau Asbestos ar y safleoedd.

Roedd adborth yr HSE yn nodi fod cysylltiadau da rhwng yr ysgolion a'r Cyngor / Gwasanaethau Eiddo.

## 5 Ymgynghori ar y Cyd

### Grŵp Iechyd a Diogelwch

Cynhaliwyd cyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn rhithiol yn ystod 2022/23. Roedd y cyfarfodydd yn caniatáu i Gydlynwyr Iechyd a Diogelwch o holl wasanaethau'r Cyngor rannu gwybodaeth.

## 6 Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol

Darperir Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol dwyieithog gan Gyngor Gwynedd, sy'n cael ei reoli gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Mae ychydig dros 450 o apwyntiadau ar gael i staff

bob blwyddyn. Caiff y rhain eu dyrannu drwy atgyfeiriad gan reolwr llinell neu drwy hunan-atgyfeiriad gan yr aelod staff. Mae tua 200 o apwyntiadau ar gael i staff sy'n credu y gallant elwa o ffisiotherapi. Mae'r apwyntiadau hyn ar gael drwy atgyfeiriad gan y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn dilyn ymgynghoriad.

## 7 Prif Gyflawniadau

### Cyflwyno pecyn Gofal Llygaid

Eleni, rhoddwyd pecyn gofal llygaid gyda darparwr newydd ar waith. Mae'r pecyn yn darparu profion llygaid a sbectol os oes angen un ar gyfer gwaith DSE. Mae'r gwasanaeth newydd yn costio llai i'r Cyngor a dylai ei gynorthwyo i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol.

### Larymau

Mae rhaglen dreigl yn mynd rhagddi i ddosbarthu larymau personol i staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain. Mae'r larwm yn cysylltu â chanolfan alwadau ac mae'n gweithio 24 awr y dydd. Mae'r ganolfan alwadau'n cwrdd â Safon Brydeinig a dylai ddarparu ymateb ar unwaith trwy naill ai ffonio Rheolwr Llinell yr aelod staff neu'r gwasanaethau brys.

### Cronfa Ddysgu

Dylai parhau i ddarparu'r Gronfa Ddysgu fel dull o ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant gael ei ystyried yn gyflawniad allweddol. Mae hyn wedi caniatáu i staff a phartneriaid allanol gael mynediad at wybodaeth a dylai gynorthwyo o ran eu hiechyd a'u diogelwch.

### Staff

Dylid ystyried hyblygrwydd ac ymrwymiad staff o bob gwasanaeth i barhau i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd ddiogel trwy gydol yr argyfwng fel cyflawniad allweddol. Mae staff rheng flaen wedi parhau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i bobl a chymunedau Ynys Môn, er gwaetha'r risgiau personol i'w diogelwch eu hunain.

Dylai hyn gynnwys parodrwydd i addasu wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.

## 8 Perfformiad Diogelwch

### Cefnogaeth Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn nodi strwythur o gefnogaeth ar gyfer y Cyngor. Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi'i leoli yn yr adran gwarchod y cyhoedd, sydd yn rhan o'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael ei reoli gan y Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol. Mae'r Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol yn adrodd i'r Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd sydd, yn ei dro, yn adrodd i'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cynnwys tri aelod craidd, sef Prif Ymgynghorydd, Ymgynghorydd Cynorthwyol ac Ymgynghorydd dan Hyfforddiant. Mae'r Ymgynghorydd Cynorthwyol a'r Ymgynghorydd dan Hyfforddiant wedi bod yn dilyn cwrs Diploma Cyffredinol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch ac maent bron â chwblhau'r

hyfforddiant. Mae’r cymhwyster yn cael ei gydnabod fel cymhwyster angenrheidiol er mwyn darparu cyngor iechyd a diogelwch cymwys.

Mae cynllun gwaith y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn rhan o’r Cynllun Gwasanaeth Trwyddedu ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Mae’n rhan o’r Cynllun Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd a Chynllun Gwasanaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. Cyflwynir gweithredoedd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol isod.

**Tabl 10 Gweithredoedd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

| **Gweithredoedd Allweddol** | **Meini Prawf Llwyddiant** (Sut gwyddom ein bod wedi cyflawni’r weithred allweddol?) | **Targedau Chwarterol 2022/23** | | | | **Adnoddau** Ac eithrio eich adnoddau eich hun |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sicrhau fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau a’i gyfrifoldebau iechyd a diogelwch (mewnol ac allanol) yn effeithiol | Datblygu cynllun gweithredu Corfforaethol ar gyfer Iechyd a Diogelwch | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | |
| | | 1 | | | 1 drafft | |
| | Adolygu Polisïau – diweddaru’r Porth Polisi. Polisïau ar-lein ar y fewnrwyd wedi’u diweddaru. | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | System 4Policy. Cymorth gan TGCh i ddarparu dolenni o Monitor |
| | | Targed | | | | |
| | | 7 | 8 | 8 | 7 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |
| | | 8 | 8 | 8 | 9 | |
| | Cofrestr risg ar gyfer Pobl a allai fod yn Dreisgar/Damweiniau. Monitro system marciwr Pobl Dreisgar Posib. Adolygu bob chwarter. | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | TGCh – gweithio gyda’r system CRM |
| | | Targed | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| | Canran ymateb i ddamweiniau RIDDOR ar safleoedd yr Awdurdod Lleol o fewn 5 diwrnod. | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | |
| | | 100% | 100% | 100% | 100% | |
| | | Nifer adroddiadau RIDDOR | | | | |
| | | 1 | 0 | 1 | 9 | |
| | Cyfarfodydd rheoli gwasanaeth. Mynychu cyfarfodydd i adrodd ar faterion Iechyd a Diogelwch pryd a phan fydd angen / neu ar ôl derbyn cais. | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | Gwasanaethau i drefnu’r cyfarfod a’r lleoliad |
| | | 100% pan fydd angen / ar ôl derbyn cais | | | | |
| | | 6 | 8 | 6 | 4 | |
| | Cyfarfodydd Grŵp Iechyd a Diogelwch. Cyfarfodydd | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | |
| | | Targed | | | | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Chwarterol. Rhaglen yn seiliedig ar bynciau. | Cwblhawyd | | | | |
| | | 0 | 2 | 1 | 1 | |
| | Bwletinau Iechyd a Diogelwch Chwarterol ar bynciau byw. Y nod yw creu diwylliant Iechyd a Diogelwch. | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | |
| | | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| | Cyflwyno eitem ar Iechyd a Diogelwch fel rhan o'r hyfforddiant Cynefino Corfforaethol | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | AD i drefnu dyddiadau a darparu lleoliad |
| | | 100% ar gais | | | | |
| | | 0 | 1 | 1 | 0 | |
| | Gwaith adweithiol yn unol â tharged lefel gwasanaeth o ddarparu ymateb cychwynnol o fewn un diwrnod gwaith. | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | |
| | | Ceisiadau fesul chwarter | | | | |
| | | 273 | 203 | 163 | 200 | |
| | | Cyfanswm o 839 | | | | |
| | Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch i gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio. | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | |
| | | | 1 | | | |
| | Nifer o ymyriadau iechyd a diogelwch a gynlluniwyd ar safleoedd y Cyngor. Targed cyffredinol yw hwn ar gyfer ystod o weithgareddau sy'n cael eu cynnal ar draws yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn cynnwys gwaith monitro rhagweithiol, archwiliadau a gweithgareddau archwilio ymatebol megis ymchwilio i ddamweiniau. | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | |
| | | Targed | | | | |
| | | 10 | 10 | 10 | 10 | |
| | | Cwblhawyd | | | | |
| | | 4 | 8 | 13 | 20 | |
| | Rhoi rhaglen Gofal Llygaid DSE ar waith gyda darparwr newydd a monitro'r gwasanaeth. | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | |
| | | Y weithred oedd rhoi system newydd ar waith gyda darparwr gofal llygaid newydd er mwyn cynnal profion llygaid a darparu sbectol i ddefnyddwyr DSE, yn unol â'r gofynion o dan y Rheoliadau DSE. | | | | |
| | | CH1 | CH2 | CH3 | CH4 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystadegau Damweiniau | Adroddiadau Chwarterol | 1 | 1 | 1 | 1 | |

## 9 Cynllun Gweithredu Strategol

| Cynllun Gweithredu Strategol | |
|---|---|
| **CYNLLUNIO** | Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.<br>Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r meysydd gwella hysbys.<br><br>Caiff ei gytuno gan y Tîm Arweinyddiaeth a'i ddosbarthu i'r Tîm Rheoli.<br><br>Dylai pob Gwasanaeth ddatblygu Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch i fynd i'r afael ag anghenion y Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.<br><br>Dylai gwasanaethau gynllunio Cynlluniau Gweithredu Iechyd a Diogelwch i fynd i'r afael â'r meysydd gwella penodol a nodwyd ac sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth. Dylai'r Cynlluniau hyn ystyried sut y caiff "busnes fel arfer" y Gwasanaethau eu rheoli'n barhaus. Caiff y Cynlluniau eu cytuno gan y Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.<br><br>Caiff Cynlluniau ac Asesiadau Risg eu datblygu gan y Gwasanaeth perthnasol a fydd ynghlwm â'r gwaith. |
| **GWEITHREDU** | Rhaid i'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gael ei weithredu gan bob Gwasanaeth – dylid cyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun yn ôl y galw.<br><br>Bydd y Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth yn cael ei weithredu gan Wasanaethau perthnasol – dylid cyflawni'r camau gweithredu yn y Cynlluniau hyn yn ôl y galw.<br><br>Bydd y Gwasanaethau'n monitro eu cynnydd eu hunain yn erbyn cynllun gweithredu penodol o'r Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ac yn monitro Cynlluniau Gweithredu Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth unigol.<br><br>Bydd Gwasanaethau'n adrodd ar gynnydd naill ai yng nghyfarfodydd Tîm Rheoli'r Gwasanaeth neu yng nghyfarfodydd Grŵp Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth. Os cyflwynir adroddiad yng nghyfarfod Grŵp Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth rhaid darparu copi o'r adroddiad i'r Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr perthnasol hefyd.<br><br>Bydd Penaethiaid Gwasanaeth / Cyfarwyddwyr yn adrodd ar gynnydd i'r Tîm Rheoli bob chwarter.<br><br>Bydd y Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch yn cyflwyno adroddiadau cynnydd i'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd y Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. |

| | |
|---|---|
| **ADOLYGU** | Bydd y Tîm Rheoli a'r Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cynnal adolygiadau chwarterol i fesur cynnydd y Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.<br>Bydd yr adolygiadau'n cynnwys cynnydd y camau gweithredu, effeithiolrwydd y camau a roddwyd ar waith a chamau gweithredu pellach.<br><br>Cynhelir adolygiadau chwarterol ar gynnydd y Cynlluniau Gweithredu Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth gan y Tîm Rheoli Gwasanaeth perthnasol neu'r Grwpiau Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth.<br>Bydd yr adolygiadau'n ystyried cynnydd y camau gweithredu, effeithiolrwydd y camau a roddwyd ar waith a chamau gweithredu pellach. |

## 10 Casgliad

Gwelwyd cynnydd mewn gweithgareddau yn ystod 2022/23 ac mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y digwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt. Mae'n anodd mesur blwyddyn 2022/23 yn erbyn y flwyddyn flaenorol gan fod y cyfyngiadau wedi cael eu codi yn ystod y cyfnodau hynny.

Efallai y bydd 2023/24 yn cynnig gwell cymhariaeth oherwydd mae'n bosib na welir unrhyw gyfyngiadau yn ystod y flwyddyn honno ac efallai y bydd mwy o drefniadau gweithio arferol yn dychwelyd. Gallai'r flwyddyn hon roi gwell arwydd o'r bylchau posib o gymharu â'r sefyllfa cyn cyflwyno'r cyfyngiadau Covid19.

## 11 Argymhelliad

Dylai'r Cyngor ddilyn y cynllun strategol ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch a rhoi'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar waith.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| **Dyddiad:** | **8 CHWEFROR 2024** |
| **Pwnc:** | **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2023/24** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS, DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **R MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>**01248 752133**<br>**claire.klimaszewski@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:-

**1**. Ystyried a nodi'r adroddiad, y gweithgareddau trysorlys a'r dangosyddion darbodus fel ag yr oeddent ar 30 Medi 2023.

**2.** Cyflwyno unrhyw sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Adroddiad craffu ac er gwybodaeth yw hwn ac nid yw ystyried opsiynau'n berthnasol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Darbodus CIPFA 2021.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa rheoli trysorlys lle mae penderfyniadau ynglŷn â benthyca a buddsoddi wedi cael eu gwneud yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2023.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Nid oes angen penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn a fydd yn effeithio ar gyllideb y Cyngor.

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Dim sylwadau ychwanegol. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Dim sylwadau ychwanegol. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n craffu ar yr adroddiad hwn ar 8 Chwefror 2024. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Arall** | Dim |

| **E – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Mae rheoli trysorlys yn allweddol o ran hwyluso cynaliadwyedd ar gyfer anghenion yr Ynys yn yr hir dymor gan fod cynlluniau benthyca'n cynorthwyo i gyllido gwariant cyfalaf i sicrhau fod asedau ar gael heddiw ac yn y dyfodol. Mae'n rhaid hefyd i gynlluniau trysorlys fod yn fforddiadwy i sicrhau nad yw penderfyniadau Rheoli Trysorlys a wneir yn y tymor byr a'r tymor canol yn creu anfantais i genedlaethau'r dyfodol. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Mae'n rhaid i'r strategaeth Rheoli Trysorlys a'r gweithgareddau fod yn fforddiadwy er mwyn lliniaru'r effaith yn y dyfodol. Gallai rhywfaint o wariant cyfalaf a gyllidir gan fenthyca, megis o dan y cynllun Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill gynorthwyo i leihau costau yn y dyfodol. |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Yn aml, mae gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru. Roedd / mae ysgolion newydd / estyniadau o dan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael eu cyllido gyda chyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru. |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ymgynghorir â dinasyddion Môn bob blwyddyn ynglŷn â'r rhaglen gyfalaf flynyddol, ac mae cyfran o'r rhaglen honno'n ddibynnol ar weithgareddau Rheoli Trysorlys. Mae ymgynghori mwy manwl yn digwydd mewn perthynas â rhai prosiectau cyfalaf, megis adeiladu ysgolion newydd / ad-drefnu ysgolion. |
| 5 | **Nodwch effeithiau posib y penderfyniad hwn ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | Bydd asedau newydd sy'n cael eu hadeiladu a'u cyllido trwy fenthyca yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni adnewyddu ac amnewid blynyddol hefyd yn helpu i wella hygyrchedd a chaniatáu amrywiaeth. |
| 6 | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.** | Gwaith monitro statudol ar weithgareddau Rheoli Trysorlys yw hwn, nid penderfyniad strategol. |
| 7 | **Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.** | Mae rhai o'r prosiectau sy'n cael eu cyllido trwy fenthyca'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu a thyfu'r iaith Gymraeg, megis ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu hadeiladu fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. |

**F – Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 2 2023/24
Atodiad B – Dadansoddiad o Fenthyciadau Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) Cyngor Sir Ynys Môn fesul blwyddyn Aeddfedu
Atodiad C – Dadansoddiad Economaidd – Link Group
Atodiad CH – Dadansoddiad BBGC – Link Group

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):**

- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 – Cyngor Sir Ynys Môn 9 Mawrth 2023
  https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=127&MId=4049&Ver=4&LLL=1
- Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 1 2023/24 – Pwyllgor Gwaith 24 Hydref 2023
  https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=4211&Ver=4&LLL=1

## 1. Cefndir

**1.1** Mae’r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) 2023/24 yn darparu’r fframwaith ar gyfer gweithgareddau rheoli trysorlys o ddydd i ddydd ac yn y tymor canol. Mae’r DSRhT yn rhan allweddol o brosesau cynllunio strategol y Cyngor i gynorthwyo i nodi beth yw blaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn y dyfodol.

**1.2** Mae gweithgareddau rheoli trysorlys yn unol â’r DSRhT, yn allweddol ar gyfer gweithredu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023/28 a’r Strategaeth Gyfalaf 2023/24 yn ogystal â sawl cynllun strategol a gweithredol cysylltiedig. Mae gwariant cyfalaf yn hanfodol i sicrhau fod y Cyngor yn meddu ar yr asedau tymor hir, megis swyddfeydd y cyngor, ysgolion, cyfleusterau gofal cymdeithasol, tai Cyngor, isadeiledd TGCh, meddalwedd a chyfarpar, cerbydau ac offer, sy’n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau’r Cyngor, ac i gynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023/28. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod asedau cyfredol y Cyngor yn cael eu hadnewyddu, eu hymestyn neu eu hamnewid yn ôl yr angen a bod asedau newydd, megis ysgolion newydd, yn cael eu hadeiladu er mwyn cyflawni blaenoriaethau’r Cyngor.

**1.3** Mae cyllid cyfalaf yn brin, felly mae’r Cyngor yn cyllido rhai prosiectau cyfalaf trwy fenthyca â chefnogaeth, lle mae’r Cyngor yn derbyn cyllid ar gyfer hynny yn y grant cynnal refeniw blynyddol gan Lywodraeth Cymru, neu fenthyca digefnogaeth, sy’n cael ei gyllido’n llawn gan y Cyngor. Fel arfer bydd benthyca’n cael ei wneud trwy fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC). Mae hyn yn rhan allweddol o’r gwaith rheoli trysorlys, a dyna sydd i gyfrif am y cyswllt pwysig â’r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24 a rhoi’r rhaglen gyfalaf ar waith.

**1.4** Mae’r Côd Ymarfer Rheoli Trysorlys 2021, sydd yn ganllaw statudol, yn diffinio rheoli trysorlys fel:

"*Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r gweithgareddau hynny; a cheisio’r perfformiad gorau posib sy’n gyson â’r risgiau hynny.”*

## 2. Cyflwyniad

**2.1** Mae rheoli trysorlys yn cynnwys tasgau sy’n sicrhau fod digon o arian parod yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor i dalu biliau o ddydd i ddydd, a buddsoddi arian dros ben, yn ychwanegol i’r hyn sydd ei angen yn y cyfrif cyffredinol. Mae’n rhaid i’r buddsoddiadau hyn fod mewn cyfrifon hynod ddiogel, megis banciau yn y DU sydd â statws credyd uchel, fel y diffinnir yn y DSRhT. Mae’r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch ei arian, yn unol â’r Côd, ac mae’n sicrhau fod digon o arian parod ar gael ar unwaith fel y gall y Cyngor dalu cyflenwyr, staff a budd-daliadau ar y dyddiadau talu gofynnol. Yr ystyriaeth olaf yw elw ar fuddsoddiadau, ac mae’r Cyngor yn buddsoddi i dderbyn y gyfradd log uchaf posib o fewn y grŵp o sefydliadau sydd yn ddiogel ac yn cwrdd â’r meini prawf yn y DSRhT 2023/24. Elfen olaf Rheoli Trysorlys yw rheoli portffolio benthyciadau’r Cyngor, i sicrhau nad yw lefel benthyca’r Cyngor yn rhy uchel a bod costau refeniw benthyca yn fforddiadwy.

**2.2** Un o swyddogaethau allweddol y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn rhoi syniad o faint y bydd angen i'r Cyngor ei fenthyca, sef, yn ei hanfod, cynllunio llif arian yn y tymor hwy i sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gall rheoli arian yn y tymor hwy gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio llif arian dros ben yn y tymor hwy ac, ar adegau, gellir ailstrwythuro unrhyw ddyledion i gwrdd ag amcanion y Cyngor yn gysylltiedig â risg a chostau. Mae cyswllt agos rhwng Strategaeth Gyfalaf 2023/24, Rhaglen Gyfalaf 2023/24 ac adroddiadau monitro chwarterol y gyllideb gyfalaf a gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor. Yn unol â deddfwriaeth, gall y Cyngor ond benthyca ar gyfer gwariant cyfalaf, nid costau refeniw, ac eithrio pan fydd Llywodraeth Cymru'n darparu cyfarwyddeb cyfalafu ar gyfer gwariant refeniw eithriadol penodol, megis cyfalafu ôl-daliadau tâl cyfartal. Mae'r strategaeth gyfalaf, y rhaglen gyfalaf flynyddol a'r DSRhT i gyd yn cefnogi blaenoriaethau allweddol y Cyngor sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2023/28. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r gwaith o fonitro gweithgareddau rheoli trysorlys yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023 i sicrhau cydymffurfiaeth â'r DSRhT.

## 3. Diweddariad Economaidd

**3.1** Mae ymgynghorwyr rheoli trysorlys allanol y Cyngor, Link Group, yn anfon nifer o ddiweddariadau bob wythnos, megis adroddiadau economaidd ac adroddiadau credyd, er mwyn cynorthwyo swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i wneud y penderfyniadau gorau ynglŷn â gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae Link Group wedi darparu diweddariad economaidd ar gyfer yr ail chwarter, ac mae copi ohono yn Atodiad C. Mae Link Group wedi darparu'r rhagolwg o gyfraddau llog canlynol yn ddiweddar hefyd:-

**Tabl 1 – Rhagolwg o Gyfradd Sylfaen Banc Lloegr, chwyddiant a Chyfraddau BBGC, rhwng Ionawr 2024 a Medi 2025.**

| | 15 Ion 2024 | Mawrth 2024 | Mehefin 2024 | Medi 2024 | Rhagfyr 2024 | Mawrth 2025 | Mehefin 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Banc (%) | 5.25% | 5.25% | 5.25% | 4.75% | 4.25% | 3.75% | 3.25% | 3.00% |
| Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr – *Capital Economics* | Rhagfyr - 3.7% | 3.8% | 2.9% | 0.80% | 0.70% | 0.90% | 0.6% | 1.2% |
| Cyfradd blwydd-dal 5 mlynedd BBGC (%) | 4.63% | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% | 3.80% |
| Cyfradd blwydd-dal 10 mlynedd BBGC (%) | 4.86% | 4.70% | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% |
| Cyfradd blwydd-dal 25 mlynedd BBGC (%) | 5.43% | 5.20% | 5.10% | 4.90% | 4.80% | 4.60% | 4.40% | 4.30% |
| Cyfradd blwydd-dal 50 mlynedd BBGC (%) | 5.24% | 5.00% | 4.90% | 4.70% | 4.60% | 4.40% | 4.20% | 4.10% |

**3.2** Targed chwyddiant Banc Lloegr, a osodwyd gan y Llywodraeth, yw 2%. Dechreuodd chwyddiant godi'n uwch na'r ffigwr hwn ym mis Awst 2021, ac roedd cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) wedi cyrraedd ei lefel uchaf, sef 11.1%, erbyn mis Hydref 2022 o ganlyniad i effaith ymosodiad Rwsia ar Wcráin, a arweiniodd at gynnydd sylweddol ym mhrisiau ynni a bwyd. Arhosodd chwyddiant yn uchel am fwy o amser na'r disgwyl, ond dechreuodd ostwng ym mis Ebrill 2023, i 8.7%, ac roedd yr MPD wedi gostwng i 7.9% erbyn diwedd y chwarter cyntaf. Parhau i ostwng wnaeth cyfraddau chwyddiant yn ystod yr ail chwarter ac roedd yr MPD yn 6.7% ar 30 Medi 2023.

**3.3** Ar ddechrau'r pandemig, cafodd y gyfradd sylfaen ei gostwng i'w lefel isaf, sef 0.1%, er mwyn cefnogi'r economi. Ym mis Rhagfyr 2021, cododd Banc Lloegr y gyfradd i 0.25%, ac yna gwelwyd cynnydd o rhwng 0.25% a 0.75% (sef y cynnydd uchaf) yn y gyfradd sylfaen ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC). Ym mis Awst 2023, cododd y MPC y gyfradd sylfaen i 5.25%, ac ni newidiwyd y gyfradd o 5.25% yng nghyfarfod yr MPC ym mis Medi 2023, sef y tro cyntaf i hynny ddigwydd ers Rhagfyr 2021. Pleidleisiodd yr MPC o blaid peidio â newid y gyfradd o 5.25% yn ei gyfarfodydd ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2023 hefyd.

**3.4** Ym mis Mawrth 2023, roedd DSRhT 2023/24 yn adrodd bod disgwyl i gyfradd sylfaen Banc Lloegr gyrraedd uchafbwynt o 4.5% yn yr haf ac y byddai cyfraddau'n gostwng yn araf yn ystod 2024 a 2025. Yn yr adolygiad rheoli trysorlys ar gyfer chwarter 1, nodwyd nad oedd disgwyl i gyfradd sylfaen Banc Lloegr godi'n uwch na 5.25%. Dengys y dadansoddiad uchod bod y gyfradd o 5.25% wedi aros yr un fath yn ystod pedwar cyfarfod olynol o'r MPC. Er hynny, mae risg y bydd chwyddiant yn codi yn sgil problemau cyflenwi sy'n deillio o'r rhyfel yn Gaza a phroblemau gyda llongau ar y Môr Coch sydd wedi arwain at wrthdaro ehangach. Erbyn hyn, mae mwy o risg y gallai'r gyfradd sylfaen godi eto, mewn ymdrech i reoli chwyddiant.

**3.5** Mae'r Cyngor yn elwa ar gyfradd sylfaen uwch ar gyfer buddsoddi arian parod sydd dros ben, ac mae hynny wedi cynorthwyo'r Cyngor i ennill dros £1m mewn taliadau llog. Er hynny, mae benthyciadau'n costio mwy i'r Cyngor ers i Fanc Lloegr ddechrau codi cyfraddau llog i geisio rheoli chwyddiant. Mae benthyca allanol yn cael ei ohirio, felly, hyd nes na fydd y balansau arian parod yn ddigonol i barhau i ddefnyddio balansau'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf (benthyca mewnol).

## 4. Sefyllfa Fenthyca'r Cyngor 30 Medi 2023.

**4.1** Benthyciadau BBGC – Mae benthyciadau allanol y Cyngor gyda'r BBGC yr un fath ag a nodwyd yn y DSRhT ym mis Mawrth 2023, ac eithrio bod £8k o'r prif swm gwreiddiol wedi cael eu had-dalu. Yr angen i osgoi benthyca tra bod cyfraddau llog yn codi sydd i gyfrif am hyn. Yn hytrach, defnyddiwyd balansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn yn unol â chyngor Link Group ar fenthyca yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Y gost yn gysylltiedig â hyn yw bod llai o falansau i'w buddsoddi, ond, serch hynny, mae costau benthyca'n uwch na'r enillion ar fuddsoddiadau. I sicrhau fod gan y Cyngor ddigon o arian i dalu ei gredydwyr a chyflogau, mae'n rhaid cadw digon o arian parod mewn cyfrifon galw ar unwaith. Fel arfer, mae'r cyfraddau llog ar y cyfrifon hyn yn llawer is, felly, mae'r Cyngor yn parhau i wneud arbedion rhesymol ar log taladwy wrth ddefnyddio balansau arian parod.

**4.2** Mae Atodiad B yn cynnwys rhestr lawn o fenthyciadau BBGC sy'n parhau i fod yn ddyledus. Mae'r benthyciad hynaf yn dyddio o 1969, ac mae cyfraddau llog y mwyafrif o'r benthyciadau'n uwch na chyfraddau presennol, er gwaethaf y cynnydd diweddar yn y gyfradd log. Maent wedi cael eu trefnu yn ôl y flwyddyn ariannol pryd mae'n rhaid ad-dalu'r benthyciad. Yn ogystal, mae gwerth presennol y benthyciadau wedi'i gynnwys yn y golofn olaf gan fod gwerth arian yn gostwng dros amser. Mae hyn yn adlewyrchiad mwy realistig o effaith y benthyciadau yn y dyfodol. Cyfanswm y benthyciadau yw £119.564m, ond gwerth y benthyciadau hyn, ar ôl eu gostwng i'w gwerth presennol, yw £47.666m. Amcangyfrifir bod y benthyciad o £15m, sydd i'w ad-dalu yn 2068/2069, yn cyfateb i £3.190m ar brisiau heddiw, gan ddefnyddio'r gyfradd disgownt o 3.5% ar gyfer y sector cyhoeddus.

**Tabl 2a- Benthyciadau BBGC sy'n Ddyledus - 30 Medi 2023**

| Benthyciadau BBGC ar 30 Medi 2023 | | | |
|---|---|---|---|
| | BBGC / BBGC Aeddfedu £'000 | BBGC EIP / Blwydd-dal £ '000 | Cyfanswm Benthyciadau BBGC ar 30 Medi 2023 £'000 |
| Benthyciad Dyledus | 119,400 | 164 | 119,564 |
| Hyd cyfartalog (blynyddoedd) | 30.82 | 4.06 | 35 |
| Cyfradd cyfartalog (%) | 4.53 | 9.42 | 14 |

**Tabl 2b – Proffil Aeddfedrwydd Benthyciadau BBGC sy'n ddyledus 30 Medi 2023**

| Nifer o flynyddoedd nes i'r benthyciad aeddfedu | Prifswm £'m | Gwerth Presennol o'r Prifswm £'m |
|---|---|---|
| <1 | 2 | 2 |
| 1 i 3 | 1 | 1 |
| 4 i 6 | 4 | 3 |
| 7 i 10 | 3 | 3 |
| 11 i 14 | 2 | 2 |
| 15 i 22 | 23 | 12 |
| 23 i 33 | 42 | 15 |
| 34 i 50 | 41 | 10 |
| | **120** | **48** |

**4.3** Benthyciadau Salix – Sefydliad Llywodraeth Cymru yw Salix ac mae'n darparu benthyciadau di-log, ac yn fwy diweddar, grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r amgylchedd ac er mwyn cynorthwyo cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag at gyflawni eu targed sero net erbyn 2030. Roedd y DSRhT 2023 yn dangos fod gan y Cyngor, yn Chwefror 2023, £3.099m o fenthyciadau di-log yn ddyledus i Salix. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi derbyn mwy o fenthyciadau a gymeradwywyd gan Salix gan fod prosiectau sy'n cael eu cyllido gan fenthyciadau Salix wedi datblygu ymhellach. Roedd gan y Cyngor £4.035m o fenthyciadau Salix ar 30 Medi 2023. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu dros gyfnod o 8 neu 10 mlynedd, yn ddibynnol ar y cytundeb, ac mae 2 ad-daliad y flwyddyn yn cael eu gwneud fesul benthyciad. Mae'r benthyciadau hyn wedi cyllido goleuadau stryd LED, goleuadau LED mewn ysgolion a chanolfannau hamdden, yn ogystal â sawl prosiect cynaliadwy arall.

**Tabl 3 – Benthyciadau Eraill sy'n Ddyledus ar 30 Medi 2023.**

| Benthyciadau Eraill ar 30 Medi 2023 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Benthyciad Salix 1 £'000 | Benthyciad Salix 2 £'000 | Benthyciad Salix 3 £'000 | Benthyciad Salix 4 £'000 | Benthyciad Salix 5 £'000 | Benthyciad Salix 6 £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Balans Dyledus | 16.5 | 114.0 | 349.8 | 158.4 | 1,873.7 | 1,522.9 | **4,035.3** |
| Dyddiad Ad-dalu | 2024/25 | 2025/26 | 2027/28 | 2029/30 | 2031/32 | 2035/36 | |
| Cyfradd Llog (%) | - | - | - | - | - | - | **-** |

## 5. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

**5.1** Cymeradwywyd y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2023/24, sydd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, gan y Cyngor ar 9 Mawrth 2023.

**5.2** Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau'r elw (enillion) uchaf posibl ar ei fuddsoddiadau sy'n gymesur â lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd, sy'n cyd-fynd â lefel y risg y mae'r Cyngor am ei gymryd.

**5.3** Parhaodd cyfraddau buddsoddi i gynyddu yn ystod chwarter cyntaf 2023/24, ac mae'r Cyngor wedi elwa trwy fuddsoddi mewn buddsoddiadau diogel cyfnod penodol. Ym mis Awst 2023, cynyddodd Banc Lloegr y gyfradd sylfaenol i 5.25% ac mae wedi aros ar 5.25%. Mae mwy o risg y gallai'r gyfradd sylfaenol gyrraedd ei lefel uchaf y tu hwnt i 5.25% oherwydd y gwrthdaro presennol yn y Dwyrain Canol ac effaith cyflenwadau oherwydd bod llongau'n cael eu targedu yn y Môr Coch.

**5.4** **Teilyngdod i gael Credyd –** Ychydig o newidiadau sydd wedi bod i gyfraddau credyd yn ystod y chwarter dan sylw. Fodd bynnag, mae swyddogion yn parhau i fonitro'r rhain yn ofalus, a mesurau teilyngdod credyd eraill, i sicrhau mai dim ond gwrthbartïon priodol sy'n cael eu hystyried at ddibenion buddsoddi.

**5.5** **Meini Prawf ar gyfer Gwrthbartíon Buddsoddi –** Mae'r meini prawf presennol ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a gymeradwywyd yn y DSRhT yn bodloni ofynion swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

**5.6** **Balans y Buddsoddiadau –** Cyfanswm y buddsoddiadau ar 30 Medi 2023 oedd £45.345m, fel y dangosir yn Nhabl 4 isod. Roedd yr elw ar y buddsoddiadau hyn rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023 yn £1.088m, a disgwylir i gyfanswm y llog y gellir ei dderbyn ar y buddsoddiadau a restrir isod fod yn £1.752m ar gyfer 2023/24. Mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn uwch wrth i fuddsoddiadau newydd gael eu gwneud pan fydd y rhain yn aeddfedu. Fodd bynnag, mae'r balansau arian parod yn lleihau wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, felly, ni fydd yn ymarferol adnewyddu pob un o'r buddsoddiadau hyn pan fyddant wedi aeddfedu.

**Tabl 4 - Buddsoddiadau a ddelir rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023**

| Gwrthbarti | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Gorffen | Cyfradd Llog<br>% | Symiau Buddsoddi 1 Ebrill i 30 Medi 2023 | Prifswm Buddsoddi ar 30 Medi 2023 | Amcangyfrif o'r llog a enillir am y cyfnod<br>£ | Amcangyfrif o Gyfanswm y Llog ar y buddsoddiadau hyn 2023/24<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NatWest - Cyfrif Galw - amcangyfrif am y cyfnod | 01/04/2023 | 31/03/2024 | 1.70% | 2,844,585 | 2,844,585 | 93,176 | 174,649 |
| Banc yr Alban - Cyfrif Galw | 18/04/2023 | 31/03/2024 | 5.14% | 7,500,000 | 7,500,000 | 156,591 | 349,341 |
| National Westminster Bank – Cyfnod Penodol | 11/01/2023 | 11/07/2023 | 4.10% | 10,000,000 | - | 113,452 | 113,452 |
| National Westminster Bank – Cyfnod Penodol | 11/07/2023 | 11/01/2024 | 5.88% | 10,000,000 | 10,000,000 | 130,488 | 296,416 |
| Santander | 10/02/2023 | 10/05/2023 | 4.00% | 7,500,000 | - | 32,055 | 32,055 |
| Santander | 10/05/2023 | 10/11/2023 | 4.76% | 7,500,000 | 7,500,000 | 139,866 | 179,967 |
| Cymdeithas Adeiladu Nationwide | 06/04/2023 | 06/07/2023 | 4.17% | 5,000,000 | | 51,982 | 51,982 |
| Cymdeithas Adeiladu Nationwide | 06/07/2023 | 08/01/2024 | 5.47% | 5,000,000 | 5,000,000 | 64,441 | 139,373 |
| Goldman Sachs | 22/12/2022 | 22/06/2023 | 3.83% | 7,500,000 | - | 64,533 | 64,533 |
| Goldman Sachs | 22/06/2023 | 22/12/2023 | 5.52% | 7,500,000 | 7,500,000 | 113,425 | 207,567 |
| Cyngor Wakefield | 22/08/2023 | 22/09/2023 | 5.23% | 5,000,000 | - | 22,210 | 22,210 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 25/10/2022 | 25/04/2023 | 3.80% | 5,000,000 | - | 12,493 | 12,493 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 25/04/2023 | 25/10/2023 | 4.30% | 5,000,000 | 5,000,000 | 93,068 | 107,795 |
| **Cyfanswm** | | | | | **45,344,585** | **1,087,779** | **1,751,832** |

**5.7** Gosododd y Cyngor gyllideb o £1.036m ac, ar ôl trosglwyddo llog sy'n ddyledus ar falensau ysgolion a'r CRT, fe barheir i amcangyfrifo y rhagorir ar y targed cyllidebol yma yn 2023/24

**5.8** **Terfynau Awdurdodedig –** Gall swyddogion gadarnhau na aethpwyd yn uwch na'r terfynau awdurdedig o fewn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Medi 2023.

## 6. Dangosydd Darbodus ar gyfer Gwariant Cyfalaf

### 6.1 Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor

Mae Tabl 5 isod yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf yn chwarter 2:-

**Tabl 5 – Gwariant Cyfalaf**

| | Amcangyfrif Gwreiddiol 2023/24 £'000 | Cyllideb Ddiwygiedig a Gymeradwywyd 2023/24 £'000 | Cyllideb hyd at 30 Medi 2023 £'000 | Gwariant hyd at fis Medi 2023 £'000 | Chwarter 2 Amcangyfrif ar gyfer Cyfanswm Gwariant 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor | 24,405 | 40,030 | 11,997 | 10,760 | 36,431 |
| CRT | 13,557 | 19,988 | 7,003 | 7,943 | 21,878 |
| **Cyfanswm** | **37,962** | **60,018** | **19,000** | **18,703** | **58,309** |

**6.1.1** Paratowyd y gyllideb wreiddiol ym mis Ionawr 2023 cyn gwybod beth oedd y llithriad o 2022/23. Mae'r gyllideb ddiwygiedig a gymeradwywyd yn cynnwys £13.477m o lithriad o 2022/23, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 27 Mehefin 2023. Cafodd cyllideb gyfalaf ychwanegol o £8.579m ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae £7.044m o'r cynlluniau ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyllido gan grantiau. Mae'r newidiadau yn ystod y flwyddyn yn dangos bod disgwyl i swm benthyca digefnogaeth ostwng £2.797m, er bod disgwyl i fenthyca â chefnogaeth gynyddu £1.661m. Mae benthyca â chefnogaeth yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru yn y Grant Cynnal Refeniw blynyddol.

**6.1.2** Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 yw £60.018m, ac roedd disgwyl i £58.309m o'r swm hwn gael ei wario erbyn 31 Mawrth 2024, fel yr adroddwyd yn yr adroddiad monitro cyfalaf chwarter 2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd 2023. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023, roedd £18.7m o wariant gwirioneddol wedi'i wneud yn erbyn cyllideb a broffiliwyd o £19m, a ddangosodd fod gwariant yn agos iawn at y gyllideb ar 30 Medi 2023.

### 6.2 Newidiadau o ran Cyllido'r Rhaglen Gyfalaf

**6.2.1** Mae rhai newidiadau i'r modd y cyllidir y rhaglen gyfalaf, fel y gwelir yn Tabl 6 isod, oherwydd y newidiadau i'r gyllideb gyfalaf a nodwyd yn 6.1.1 a 6.1.2 uchod.

**6.2.2** Mae Tabl 6 isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategol y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan dynnu sylw at ddull cyllido gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau cyllido disgwyliedig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthyca'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei ostwng yn rhannol gan daliadau refeniw ar gyfer ad-dalu dyledion (Darpariaeth Refeniw Isaf). Efallai y bydd dyledion sy'n aeddfedu a gofynion trysorlys eraill yn ychwanegu at yr angen benthyca uniongyrchol hwn hefyd. Gallai ffynhonnell y cyllid ar gyfer prosiectau hefyd newid ar ddiwedd y flwyddyn gan fod cyllid yn cael ei ddyrannu yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol i liniaru pwysau cyllido cyfalaf. Mae hyn hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i ymateb i gynigion diweddarach o gyllid grant allanol lle gofynnir i'r Cyngor ddisodli'r cyllid yn y flwyddyn ond i sicrhau bod cyllid yn y flwyddyn nesaf i gyflawni amodau'r grant sy'n cael ei gynnig.

**Tabl 6 – Amcangyfrif o Gyllid Gwariant Cyfalaf**

| **Cyllid Cyfalaf** | **2023/24 Amcangyfrif gwreiddiol £'000** | **2023/24 Amcangyfrif Diwygiedig £'000** |
|---|---:|---:|
| Grantiau Cyfalaf | 22,367 | 35,229 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 500 | 443 |
| Cronfeydd wrth gefn | 0 | 4,096 |
| Cyfraniad Refeniw | 9,221 | 11,635 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,077 | 8,500 |
| Benthyca Digefnogaeth | 2,797 | 38 |
| Benthyciad | 0 | 77 |
| **Cyfanswm** | **37,962** | **60,018** |

## 6.3 Newidiadau i'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), Dyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol

### 6.3.1 Dangosydd Darbodus - Terfynau Dyled Allanol

Mae'r tabl isod yn dangos, ar 30 Medi 2023, fod y Cyngor ymhell o fewn y terfynau dyled a osodwyd gan Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2023/24 a rhagwelir y bydd £50k o fewn yr uchafswm ar fenthyca (terfyn awdurdodedig) a £45k o fewn y terfyn gweithredol ar 31 Mawrth 2024.

Y terfyn awdurdodedig yw'r swm uchaf posibl y caniateir i'r Cyngor ei fenthyca. Gellir newid hyn dim ond os yw'n fforddiadwy a gyda chaniatâd y Cyngor llawn. Dylid ystyried opsiynau eraill yn gyntaf, megis adolygu'r prosiectau a gyllidir drwy fenthyca neu ystyried ffynonellau cyllido eraill. Y terfyn gweithredol yw'r lefel o fenthyca lle mae'n rhaid iddo sbarduno'r adolygiad o opsiynau ar gyfer cyllido prosiectau neu gamau eraill i sicrhau nad eir y tu hwnt i'r terfyn awdurdodedig.

**Tabl 7 – Dyled Allanol o'i gymharu â Therfynau Benthyca**

| Dangosydd Darbodus - Terfynau Dyled Allanol | DSRhT 2023/24 £'000 | Swm o fewn Terfynau Dyled DSRhT ar 30 Medi 2023 £'000 | Amcangyfrif o'r Sefyllfa Fenthyca 31 Mawrth 2023 £'000 | Amcangyfrif Swm o fewn Terfynau Dyled y DSRhT ar 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Terfyn Awdurdodedig - benthyca cyffredinol | 175,000 | 51,400 | 175,000 | 49,851 |
| Terfyn Gweithredol - benthyca cyffredinol | 170,000 | 46,400 | 170,000 | 44,851 |
| Benthyca cyffredinol gwirioneddol 30 Medi 2023 | 123,600 | AMH | 125,149 | AMH |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 5,000 | 5,000 | - | - |

**6.4. Dangosydd Darbodus - Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)**

**6.4.1** Mae Tabl 8 isod yn dangos y GCC, sef yr angen sylfaenol i fenthyca er mwyn cyllido gwariant cyfalaf. Mae disgwyl i'r GCC fod £1.451m yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol. Mae hyn yn ymwneud a GCC cronfa'r Cyngor, ac yn ymwneud a llithriad o raglen gyfalaf 2022/23. Mae hyn yn cuddio'r ffaith fod cynnydd o £4.133m yn ymwneud a benthyca digefnogaeth sydd wedi'i ddyrannu i brosiectau sydd wedi llithro i 2023/24 a bod gostyngiad ym menthyca digefnogaeth o £2.759m yn ymwneud a'r rhaglen ysgolion Band B. Yn ogystal, mae llithriad o £0.077m ar brosiect a gyllidir gan fenthyciad Salix. Disgwylir newidiadau wrth i'r DSRhT gael ei baratoi cyn i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn gael ei chwblhau. Gall prosiectau cyfalaf hefyd lithro am amryw o resymau neu deuir o hyd i gyllid arall i leihau'r swm benthyca sydd ei angen.

**Tabl 8 – Newid yn y Gofynion Cyllido Cyfalaf 2023/24 ar 30 Medi 2023**

| Dangosydd Darbodus - Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) | 2023/24 Amcangyfrif Gwreiddiol £'000 | 2023/24 Amcangyfrif Diwygiedig £'000 |
|---|---|---|
| GCC – Cronfa'r Cyngor | 111,697 | 113,148 |
| GCC – CRT | 38,286 | 38,286 |
| Cyfanswm GCC | 149,983 | 151,434 |
| **Symudiad net yn GCC** | - | 1,451 |

**6.4.2 Dadansoddiad o fenthyca**

Mae'r tabl uchod yn dangos mai'r GCC diwygiedig a ragwelir ar gyfer 2023/24 yw £151.434m. Mae hyn yn cynnwys £123.600m o fenthyca allanol, yn bennaf gan y BBGC gyda benthyciadau di-log Salix ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni a charbon isel. Y gwahaniaeth rhwng y GCC, sef faint o wariant cyfalaf a gyllidir drwy fenthyca, a'r benthyca allanol / gwirioneddol a wneir, yw'r benthyca mewnol. Dyma lle mae'r Cyngor wedi defnyddio balansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf er mwyn gohirio'r benthyca gwirioneddol cyhyd ag y bo modd, i arbed taliadau llog sy'n daladwy. Mae hyn yn unol â DSRhT 2023/24 a dyma'r dull a argymhellir gan Link Group, ymgynghorwyr rheoli trysorlys y Cyngor, oherwydd effaith yr economi ar gyfraddau llog a giltiau y mae cyfraddau llog BBGC yn seiliedig arnynt. Pan fydd balansau arian parod yn mynd yn rhy isel, bydd y benthyciad hwn yn cael ei allanoli trwy gymryd benthyciadau newydd gan y BBGC. Er mwyn lleihau'r taliadau cyllido cyfalaf, mae'n debygol y byddai benthyciadau tymor byrrach hyd at bum mlynedd yn cael eu trefnu.

**Tabl 9 – Proffil benthyca rhwng benthyca allanol a benthyca mewnol (defnyddio balansau arian parod)**

| | Y sefyllfa bresennol ar 30 Medi 2023 £'000 | Amcangyfrif o'r GCC Diwygiedig 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| Benthyca allanol | 123,600 | 125,154 |
| Benthyca mewnol | 27,834 | 26,280 |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | - | - |
| **(blwyddyn diwedd y flwyddyn)** | **151,434** | **151,434** |

## 7. Aildrefnu Dyledion

**7.1** Mae'r cyfleoedd i aildrefnu dyledion wedi cynyddu'n sylweddol yn y cyfnod presennol, gan fod enillion gilt, sy'n tanategu cyfraddau BBGC a benthyciadau'r farchnad, wedi codi'n sylweddol. Cwblhawyd ymarfer ym mis Mehefin 2023, a oedd yn dangos y byddai newid benthyciadau presennol am fenthyciadau newydd yn denu disgowntiau ond, oherwydd y cyfraddau llog uwch, byddai'r llog a fyddai'n daladwy hyd nes y byddai'r benthyciadau hynny'n aeddfedu yn llawer iawn uwch ac, felly'n anfforddiadwy gan y byddai'r costau refeniw cyllido cyfalaf yn cynyddu.

## 8. Cydymffurfio â Therfynau Trysorlys a Darbodus

**8.1** Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i bennu a pharhau i adolygu'r terfynau benthyca fforddiadwy. Yn ystod yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2023, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn y dangosyddion trysorlys a darbodus a nodir yn Natganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2023/24. Dywed y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ni ragwelir unrhyw anawsterau ar gyfer y flwyddyn gyfredol na'r blynyddoedd i ddod o ran cydymffurfio â'r dangosyddion hyn.

**8.2** Mae'r holl weithrediadau rheoli trysorlys hefyd wedi'u cynnal yn unol ag Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor.

## 9. Casgliad

**9.1** Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023, mae'r Cyngor wedi mynd ati'n rhagweithiol i adneuo balansau arian dros ben mewn banciau diogel yn y DU ac awdurdodau lleol. Mae'r Cyngor wedi elwa ar y cynnydd yn y gyfradd llog yn ystod y cyfnod gyda £1.088m mewn llog i'w dderbyn ar yr adneuon hyn. Rhagwelir y bydd y llog a amcangyfrifir y gellir ei dderbyn ar gyfer y flwyddyn gyfan ar y buddsoddiadau sy'n weithredol yn ystod y cyfnod yn £1.752m. Mae tri o adneuon wedi'u trefnu ers 30 Medi 2023, a bydd adroddiad arnynt maes o law. Dylid nodi y bydd y CRT, yr ysgolion a'r symiau mae'r Cyngor yn ei ddal ar ran eraill yn derbyn cyfran o'r llog y gellir ei dderbyn yn seiliedig ar eu balansau ar 31 Mawrth 2024 a'r gyfradd llog gyfartalog o'r holl adneuon. Dylid nodi hefyd, bod balansau arian y Cyngor yn lleihau, felly, efallai na fydd y llog a geir yn y dyfodol yn cyrraedd y lefelau yn 2023/24.

**9.2** Nid yw'r Cyngor wedi gwneud cais am unrhyw fenthyciadau BBGC yn ystod y cyfnod i leihau llog sy'n daladwy a gohirio'r benthyca a nodwyd ar gyfer cyllido prosiectau cyfalaf penodol hyd nes y bydd angen. Mae'r Cyngor wedi benthyg benthyciadau di-log gan Salix ar gyfer prosiectau cyfalaf effeithlonrwydd ynni / carbon isel.

**9.3** I grynhoi, mae safbwynt Rheoli Trysorlys y Cyngor yn parhau'n sefydlog gyda gwell adenillion ar fuddsoddiadau na ragwelwyd a'r holl ddangosyddion darbodus yn parhau o fewn y ffiniau a'r targedau a osodwyd yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24. Nid oes unrhyw fenthyca allanol newydd wedi digwydd wrth i strategaeth y Cyngor barhau i fod i ddefnyddio benthyca mewnol i gyllido gwariant cyfalaf ond wrth i arian wrth gefn gael ei ddefnyddio (cydbwyso'r gyllideb, lleihau balansau ysgolion, defnydd o arian wrth gefn y CRT er mwyn cyllido gwariant cyfalaf) mae lefel yr arian parod sydd ar gael yn lleihau sydd o ganlyniad wedi lleihau'r symiau sydd ar gael i fuddsoddi a'r lefel o fenthyca mewnol y gellir ei gefnogi. Bydd hyn yn gofyn am newid strategaeth yn y dyfodol gan y bydd angen ymgymryd â benthyca allanol ychwanegol.

**MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU)**
**A SWYDDOG ADRAN 151**

| Aeddfedrwydd - Blwyddyn Ariannol | Cyfeirnod Benthyciad BBGC | Prifswm £ | Cyfradd Llog % | Gwerth Presennol Prifswm Benthyciad ar 3.5% £ |
|---|---|---|---|---|
| 2023/2024 | 475890 | 1,000,000 | 8.5 | |
| | 473692 | 569,200 | 7.875 | |
| | 475927 | 284,600 | 8.5 | |
| Cyfanswm 2023/2024 | | 1,853,800 | | 1,853,800 |
| 2026/2027 | 474962 | 853,800 | 8.625 | |
| | 503948 | 527,601 | 3.67 | |
| Cyfanswm 2026/2027 | | 1,381,401 | | 1,245,945 |
| 2027/2028 | 473954 | 674,502 | 7 | |
| | 493424 | 1,000,000 | 5.2 | |
| | 503949 | 490,601 | 3.73 | |
| Cyfanswm 2027/2028 | | 2,165,103 | | 1,886,762 |
| 2028/2029 | 400773 | 20,064 | 9.5 | |
| | 503950 | 262,440 | 3.8 | |
| Cyfanswm 2028/2029 | | 282,504 | | 237,861 |
| 2029/2030 | 401356 | 5,903 | 9.25 | |
| | 401772 | 3,934 | 9.25 | |
| | 402384 | 5,962 | 9.375 | |
| | 402971 | 1,156 | 9.125 | |
| | 403625 | 7,149 | 9.25 | |
| | 406721 | 12,590 | 9.25 | |
| | 474795 | 853,800 | 8.625 | |
| | 503951 | 684,697 | 3.85 | |
| Cyfanswm 2029/2030 | | 1,575,192 | | 1,281,419 |
| 2030/2031 | 407327 | 8,981 | 9.375 | |
| | 408828 | 5,651 | 9.25 | |
| | 409994 | 7,992 | 9.75 | |
| | 410218 | 4,879 | 9.75 | |
| | 410734 | 2,153 | 9.625 | |
| | 410915 | 8,782 | 9.75 | |
| | 411471 | 7,912 | 9.25 | |
| | 503952 | 450,706 | 3.91 | |
| Cyfanswm 2030/2031 | | 497,055 | | 390,681 |
| 2031/2032 | 475733 | 1,280,700 | 8.625 | |
| | 503953 | 660,449 | 3.96 | |
| Cyfanswm 2031/2032 | | 1,941,149 | | 1,474,131 |
| 2032/2033 | 422775 | 26,935 | 9.25 | |
| | 423932 | 33,446 | 9.5 | |
| | 426595 | 1,252 | 9.875 | |
| | 503954 | 314,886 | 4.01 | |
| Cyfanswm 2032/2033 | | 376,518 | | 276,263 |
| 2033/2034 | 503955 | 636,565 | 4.05 | |
| Cyfanswm 2033/2034 | | 636,565 | | 451,273 |
| 2034/2025 | 503956 | 623,834 | 4.09 | |
| Cyfanswm 2034/2025 | | 623,834 | | 427,292 |
| 2035/2036 | 503957 | 611,357 | 4.13 | |
| Cyfanswm 2035/2036 | | 611,357 | | 404,586 |

| Aeddfedrwydd - Blwyddyn Ariannol | Cyfeirnod Benthyciad BBGC | Prifswm<br>£ | Cyfradd Llog<br>% | Gwerth Presennol Prifswm Benthyciad ar 3.5%<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| 2036/2037 | 503958 | 599,130 | 4.16 | |
| Cyfanswm 2036/2037 | | 599,130 | | 383,086 |
| 2037/2038 | 503959 | 587,147 | 4.18 | |
| Cyfanswm 2037/2038 | | 587,147 | | 362,729 |
| 2038/2039 | 503960 | 225,467 | 4.2 | |
| Cyfanswm 2038/2039 | | 225,467 | | 134,579 |
| 2039/2040 | 493437 | 5,000,000 | 4.95 | |
| Cyfanswm 2039/2040 | | 5,000,000 | | 2,883,530 |
| 2040/2041 | 493438 | 3,500,000 | 4.95 | |
| Cyfanswm 2040/2041 | | 3,500,000 | | 1,950,213 |
| 2042/2043 | 503961 | 999,781 | 4.25 | |
| Cyfanswm 2042/2043 | | 999,781 | | 520,042 |
| 2043/2044 | 503962 | 1,020,120 | 4.25 | |
| Cyfanswm 2043 / 2044 | | 1,020,120 | | 512,678 |
| 2044/2045 | 503963 | 1,009,718 | 4.25 | |
| Cyfanswm 2044 / 2045 | | 1,009,718 | | 490,290 |
| 2045/2046 | 503964 | 11,464,215 | 4.25 | |
| Cyfanswm 2045 / 2046 | | 11,464,215 | | 5,378,444 |
| 2050/2051 | 490892 | 2,000,000 | 4.15 | |
| Cyfanswm 2050/2051 | | 2,000,000 | 4.15 | 790,024 |
| 2052/2053 | 491677 | 6,800,000 | 4.2 | |
| | 492220 | 5,000,000 | 4.05 | |
| | 492698 | 6,000,000 | 4.25 | |
| | 493722 | 5,000,000 | 4.55 | |
| | 493723 | 1,138,400 | 4.55 | |
| | 493906 | 4,300,000 | 4.55 | |
| Cyfanswm 2052 / 2053 | | 28,238,400 | | 10,412,858 |
| 2054/2055 | 474612 | 3,000,000 | 8.375 | |
| Cyfanswm 2054 / 2055 | | 3,000,000 | | 1,032,691 |
| 2055/2056 | 476679 | 1,500,000 | 8 | |
| | 476783 | 2,000,000 | 7.875 | |
| Cyfanswm 2055 / 2056 | | 3,500,000 | | 1,164,064 |
| 2056/2057 | 478340 | 2,000,000 | 7.875 | |
| | 479464 | 3,000,000 | 7.125 | |
| Cyfanswm 2056 / 2057 | | 5,000,000 | | 1,606,714 |
| 2057/2058 | 479465 | 3,000,000 | 7.125 | |
| | 479802 | 3,000,000 | 6.875 | |
| | 480214 | 2,000,000 | 6.5 | |
| | 480215 | 512,854 | 6.5 | |
| Cyfanswm 2057/2058 | | 8,512,854 | | 2,643,037 |
| 2059/2060 | 483423 | 1,763,308 | 4.25 | |
| Cyfanswm 2059/2060 | | 1,763,308 | | 511,064 |
| 2064/2065 | 508920 | 10,000,000 | 2.24 | |
| Cyfanswm 2064 / 2065 | | 10,000,000 | | 2,357,791 |
| 2066/2067 | 505939 | 6,200,000 | 2.2 | |
| Cyfanswm 2066 / 2067 | | 6,200,000 | | 1,412,397 |
| 2068/2069 | 508376 | 15,000,000 | 2.49 | |
| Cyfanswm 2068/2069 | | 15,000,000 | | 3,189,889 |
| **Cyfanswm** | | **119,564,619** | | **47,666,132** |

## Diweddariad ar yr Economi hyd yma a'r Rhagolygon

- Yn ystod hanner cyntaf 2023/24:-
  - Bu cynnydd pellach o 100bps mewn cyfraddau llog, gan fynd â'r Gyfradd Banc o 4.25% i 5.25% ac, o bosibl, roedd y tynhau ar ei lefel uchaf.
  - Mae giltiau tymor byr, canolig a hir yn parhau'n uchel wrth i chwyddiant godi, er mawr syndod.
  - Gostyngiad o 0.5% m/m mewn CMC gwirioneddol ym mis Gorffennaf, yn bennaf oherwydd mwy o streiciau.
  - Bu gostyngiad o ran chwyddiant CPI o 8.7% ym mis Ebrill i 6.7% ym mis Awst, ei gyfradd isaf ers mis Chwefror 2022, ond yr uchaf o hyd yn y G7.
  - Bu gostyngiad o ran chwyddiant craidd CPI i 6.2% ym mis Awst o 7.1% ym mis Ebrill a mis Mai - ar ei uchaf ers 31 mlynedd ar y pryd.
  - Mae amodau'r farchnad lafur wedi arafu, ond does dim tystiolaeth eto ei fod wedi arwain at ostwng twf mewn cyflogau (wrth i dwf 3 mis fesul blwyddyn o enillion cyfartalog godi i 7.8% ym mis Awst, ac eithrio taliadau bonws).
- Mae'r cwymp 0.5% m/m mewn CMC ym mis Gorffennaf yn awgrymu bod twf sylfaenol wedi colli momentwm ers yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd rhywfaint o'r cwymp ym mis Gorffennaf oherwydd bod bron i ddwywaith cymaint o ddiwrnodau gwaith wedi'u colli oherwydd streiciau ym mis Gorffennaf (281,000) nag ym mis Mehefin (160,000). Ond gydag allbwn yn gostwng mewn 10 allan o'r 17 sector, mae'n ymddangos bod awgrym o wendid sylfaenol.
- Yn sgil y gostyngiad yn y Mynegeion Rheolwr Prynu cyfansawdd o 48.6 ym mis Awst i 46.8 ym mis Medi roedd ar ei lefel isaf ers i gyfnodau clo COVID-19 leihau gweithgaredd ym mis Ionawr 2021. O edrych ar y ffigyrau moel, mae'n gyson â'r cynnydd o 0.2% ch/ch mewn CMC gwirioneddol yn y cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin, gyda gostyngiad o hyd at 1% yn dilyn yn ail hanner 2023.
- Nid yw'r cynnydd o 0.4% m/m o ran lefelau gwerthiant manwerthu ym mis Awst cystal ag y mae'n edrych gan ei fod yn adlewyrchu'n rhannol y cynnydd mewn gwerthiant ar ôl y tywydd anarferol o wlyb ym mis Gorffennaf. Roedd lefel gwerthiant ym mis Awst 0.2% yn is na'r lefel ym mis Mai, gan awgrymu bod llawer o'r gwytnwch o ran gweithgarwch manwerthu yn hanner cyntaf y flwyddyn wedi lleihau.
- Wrth i effaith gynyddol cyfraddau llog uwch ddwysáu dros y chwe mis nesaf, credwn y bydd yr economi yn parhau i golli momentwm ac y bydd yn wynebu rhywfaint o ddirwasgiad yn fuan. Mae'r galw mawr am lafur, twf cyflym mewn cyflogau a chymorth ariannol gan y llywodraeth i gyd wedi cefnogi incwm aelwydydd dros y flwyddyn ddiwethaf. A gyda chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) heibio ei lefel uchaf a'r ffaith bod disgwyl iddo ostwng ymhellach, mae'r economi wedi mynd trwy'r argyfwng costau byw heb fynd i ddirwasgiad. Ond er bod y gwaethaf a'r cwympo mwyaf mewn incwm gwario gwirioneddol aelwydydd y tu cefn i ni, mae'r ffaith bod y llywodraeth yn mynd i roi'r gorau'n raddol i'r pecynnau cymorth ariannol a ddarparwyd yn ystod yr argyfwng ynni yn golygu bod incwm gwirioneddol yn annhebygol o wella'n sylweddol. Bydd cyfraddau llog uwch yn taro'n galed yn fuan hefyd. Rydym yn disgwyl i Fanc Lloegr gadw cyfraddau llog, yn fwy na thebyg, ar y lefel uchaf o 5.25% tan ail hanner 2024. Mae cyfraddau morgais yn debygol o aros yn uwch na 5.0% am tua blwyddyn.
- Er bod y farchnad lafur yn dynn parhaodd i lacio, gyda chyflogaeth yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf yn gostwng o 207,000. Mae'r gostyngiad pellach yn nifer y swyddi gwag o 1.017m ym mis Gorffennaf i 0.989m ym mis Awst yn awgrymu bod y farchnad lafur wedi llacio ychydig ymhellach ers mis Gorffennaf. Dyma'r tro cyntaf iddi ostwng o dan 1m ers Gorffennaf 2021. Ar 3.0% ym mis Gorffennaf, ac yn debygol o fod wedi gostwng i 2.9% ym mis Awst, mae'r gyfradd swyddi gwag yn agosáu at 2.5%, a fyddai'n gyson â thwf cyflog arafach. Yn y cyfamser, mae'r gostyngiad o 48,000 yn y cyflenwad o weithwyr yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf yn gwrthbwyso rhywfaint o'r llacio yn y farchnad lafur. Roedd hynny oherwydd cynnydd o 63,000 mewn anweithgarwch yn y tri mis hyd at fis Gorffennaf wrth i fwy o bobl adael y farchnad lafur oherwydd salwch tymor hir neu i fynd i mewn i addysg. Mae'r cyflenwad llafur yn dal i fod 0.3% yn is na'i lefel cyn y pandemig ym mis Chwefror 2020.

- Ond nid yw'r arafu yn amodau'r farchnad lafur wedi arwain at ostwng twf mewn cyflogau. Er i gyfradd twf enillion cyfartalog lacio'n sydyn o lefel uwch ddiwygiedig +2.2% ym mis Mehefin i -0.9% ym mis Gorffennaf, roedd llawer o hynny oherwydd nad oedd y taliadau bonws untro i staff y GIG ym mis Mehefin yn cael eu hailadrodd ym mis Gorffennaf. Cododd y gyfradd uchaf 3 mis fesul blwyddyn o 8.4% (wedi newid o 8.2%) i 8.5%, a olygai fod y twf yng nghyflogau'r DU yn parhau i fod yn llawer cyflymach nag yn yr UD ac yn ardal yr Ewro. Ar ben hynny, er bod cyfradd cyflogau yn y sector preifat, a fesurir yn agos gan Fanc Lloegr, wedi gostwng ychydig ym mis Gorffennaf, o 8.2% am 3 mis fesul blwyddyn ym mis Mehefin i 8.1% am 3 mis fesul blwyddyn, mae'n dal ymhell uwchlaw'r hyn a ragwelwyd gan Fanc Lloegr, sef gostyngiad i 6.9% ym mis Medi.
- Bu gostyngiad o ran chwyddiant CPI o 6.8% ym mis Gorffennaf i 6.7% ym mis Awst, y gyfradd isaf ers mis Chwefror 2022. Y syndod cadarnhaol mwyaf oedd y gostyngiad mewn chwyddiant CPI craidd, lle bu gostyngiad o 6.9% i 6.2%. Mae hynny'n gwyrdroi'r holl gynnydd ers mis Mawrth ac yn golygu bod y bwlch rhwng y DU a mannau eraill wedi lleihau (chwyddiant craidd yr UD yw 4.4% ac, yn ardal yr Ewro, mae'n 5.3%). Bu gostyngiad mewn chwyddiant nwyddau craidd o 5.9% i 5.2% ac mae'r llacio pellach mewn chwyddiant prisiau cynhyrchwyr nwyddau craidd, o 2.2% ym mis Gorffennaf i'r lefel isaf mewn 29 mis o 1.5% ym mis Awst, yn awgrymu y bydd yn y pen draw yn gostwng yn agos at sero. Ond y datblygiad mwyaf cadarnhaol oedd y gostyngiad mewn chwyddiant gwasanaethau o 7.4% i 6.8%. Mae hynny hefyd yn gwyrdroi'r rhan fwyaf o'r cynnydd ers mis Mawrth ac yn mynd ag ef yn is na'r rhagolwg a gyhoeddwyd gan Fanc Lloegr ddechrau mis Awst, sef 7.2%.
- Yn ei gyfarfod polisi ariannol diweddaraf ar 20 Medi, gadawodd Banc Lloegr gyfraddau llog heb eu newid ar 5.25%. Mae'n ymddangos bod y llacio o ran chwyddiant CPI gwan ym mis Awst, y llacio diweddar yn y farchnad lafur a'r arolygon gweithgarwch pesimistaidd wedi argyhoeddi Banc Lloegr ei fod eisoes wedi codi digon ar y cyfraddau. Mae'r cofnodion yn dangos bod y penderfyniad y bleidlais yn "agos". Pleidleisiodd pum aelod MPC (Bailey, Broadbent, Dhingra, Pill a Ramsden) dros ddim newid a phleidleisiodd y pedwar arall (Cunliffe, Greene, Haskel a Mann) dros godiad o 25bps.
- Fel Fed UDA, mae Banc Lloegr eisiau i'r marchnadoedd gredu yn y naratif uwch am hirach. Nid oedd y datganiad yn dweud bod cyfraddau wedi cyrraedd y lefel uchaf ac unwaith eto dywedodd os oedd tystiolaeth o bwysau chwyddiant mwy parhaus "byddai angen tynhau ymhellach o ran polisi". Dywedodd y Llywodraethwr Bailey, "byddwn yn gwylio'n agos i weld a oes angen rhagor o gynnydd". Fe wnaeth y Banc hefyd gadw'r canllawiau llym y bydd cyfraddau'n parhau i "gyfyngu'n ddigonol am gyfnod digonol".
- Mae'r naratif hwn yn gwneud synnwyr gan nad yw Banc Lloegr am i'r marchnadoedd benderfynu y bydd uchafswm mewn cyfraddau yn cael ei ddilyn yn fuan gan doriadau mewn cyfraddau llog, a fyddai'n llacio amodau ariannol ac yn tanseilio ei ymdrechion i ddileu chwyddiant. Mae'r iaith hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i Fanc Lloegr ymateb i ddatblygiadau newydd. Gallai cynnydd mewn chwyddiant gwasanaethau, cynnydd arall mewn twf cyflogau a / neu naid arall ym mhrisiau olew ei orfodi i godi cyfraddau yn y cyfarfod nesaf ar 2 Tachwedd, neu hyd yn oed oedi ym mis Tachwedd a chodi cyfraddau ym mis Rhagfyr.
- Bu gostyngiad yn enillion Giltiau 10 mlynedd o uchafbwynt o 4.74% ar 17 Awst i 4.44% ar 29 Medi, yn bennaf gan fod buddsoddwyr wedi ailedrych ar eu disgwyliadau o ran cyfraddau llog. Ond hyd yn oed ar ôl y gostyngiad diweddar, mae'r cynnydd mewn enillion Giltiau wedi bod yn uwch na'r cynnydd yn y rhan fwyaf o gynnyrch arall llywodraeth y Farchnad Ddatblygedig ers dechrau'r flwyddyn. Wrth edrych ymlaen, unwaith y bydd chwyddiant yn arafu, bydd enillion Giltiau'n lleihau ymhellach. Bydd dirwasgiad (cymharol) dros y ddau chwarter nesaf yn cefnogi'r safbwynt hwn os yw'n helpu i lacio'r farchnad lafur (diweithdra uwch / llai o gynnydd mewn cyflogau).
- Gwanhaodd y bunt o'i lefel uchel o $1.30 yng nghanol mis Gorffennaf i $1.21 ddiwedd mis Medi. Yn hanner cyntaf y flwyddyn, fe gododd y bunt yn ôl yn gryf ar ôl llanast Truss yr hydref diwethaf. Roedd y codiad hwnnw'n cael ei yrru i raddau helaeth gan y newid sylweddol yn nisgwyliadau cyfraddau llog y DU. Fodd bynnag, dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae disgwyliadau o ran cyfraddau llog wedi gostwng yn sydyn wrth i chwyddiant ddechrau gostwng, wrth i dwf arafu, a galwodd Banc Lloegr ar roi diwedd ar ei gylch o godi cyfraddau.
- Mae'r FTSE 100 wedi codi mwy na 2% ers diwedd mis Awst, o tua 7,440 ar 31 Awst i 7,608 ar 29 Medi. Mae hyn yn wedi cael ei yrru'n bennaf gan brisiau ynni uwch a roddodd hwb i brisiau cwmnïau ynni. Mae nifer cymharol uchel y FTSE 100 o gwmnïau ynni yn helpu i esbonio pam y gwnaeth ecwiti'r DU berfformio'n well nag ecwiti yr UD ac ardal yr Ewro ym mis Medi.  Serch hynny, mor ddiweddar â 21 Ebrill roedd y FTSE 100 yn 7,914.

**Dadansoddiad Cyfraddau BBGC 1 Ebrill 2023 i 30 Medi 2023**


Er nad oedd angen benthyciadau BBGC newydd ar y Cyngor yn ystod y cyfnod, mae'r manylion isod yn darparu'r wybodaeth am newidiadau yng nghyfraddau BBGC yng nghyd-destun cyfraddau llog a giltiau cynyddol.


**Cyfraddau sicrwydd aeddfedrwydd BBGC (giltiau ynghyd â 80bps) am y flwyddyn hyd yma hyd at 29 Medi 2023**

Roedd enillion giltiau a chyfraddau sicrwydd BBGC yn gyffredinol yn cynyddu trwy gydol hanner cyntaf 2023/24. Ddechrau mis Ebrill, y gyfradd 5 mlynedd oedd y rhan rataf o'r gromlin, sef 4.14%, tra bod y gyfradd 25 mlynedd yn gymharol gostus ar 4.58%.

Ym mis Gorffennaf, gwelwyd cyfraddau tymor byr yn cyrraedd uchafbwynt ar eu mwyaf costus. Cynyddodd y gyfradd 1 flwyddyn i 6.36% a'r gyfradd 5 mlynedd i 5.93%. Er, maes o law, bu gostyngiad yn nisgwyliadau cyfraddau tymor byr, symudodd y rhai tymor canolig yn uwch trwy Awst a chododd y gyfradd 10 mlynedd yn uwch i 5.51% a'r gyfradd 25 mlynedd i 5.73%. Roedd y gyfradd 50 mlynedd yn 4.27% ar 5 Ebrill ond cododd i 5.45% ar 28 Medi.

Rydym yn rhagweld y bydd y cyfraddau yn gostwng yn ôl dros y ddwy neu dair blynedd nesaf wrth i chwyddiant ostwng. Disgwylir i'r mesur chwyddiant CPI ostwng yn is na 2% yn ail hanner 2024, ac rydym yn rhagweld y bydd cyfraddau 50 mlynedd yn 3.90% erbyn diwedd mis Medi 2025. Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd a fydd y cyfraddau'n gostwng mor bell â hynny oherwydd lefel y giltiau yn y farchnad dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.






**CYFRADDAU BBGC UCHEL / ISEL / CYFARTALOG AR GYFER 01.04.23 – 29.09.23**

| | Blwyddyn | 5 Mlynedd | 10 Mlynedd | 25 Mlynedd | 50 Mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Isel | 4.65% | 4.14% | 4.20% | 4.58% | 4.27% |
| Dyddiad | 06/04/2023 | 06/04/2023 | 06/04/2023 | 06/04/2023 | 05/04/2023 |
| Uchel | 6.36% | 5.93% | 5.51% | 5.73% | 5.45% |
| Dyddiad | 06/07/2023 | 07/07/2023 | 22/08/2023 | 17/08/2023 | 28/09/2023 |
| Cyfartaledd | 5.62% | 5.16% | 5.01% | 5.29% | 5.00% |
| Wedi ei Daenu | 1.17% | 1.79% | 1.31% | 1.15% | 1.18% |

- Mae'r cyfraddau BBGC cyfredol wedi'u gosod fel elw dros enillion giltiau fel a ganlyn:-
    - Mae **Cyfradd Safonol BBGC** yn gilt ynghyd â 100 pwynt sylfaen (G+100bps)
    - Mae **Cyfradd Sicrwydd BBGC (GF)** yn gilt ynghyd â 80 pwynt sylfaen (G+80bps)
    - Mae **Cyfradd Isadeiledd Lleol BBGC** yn gilt ynghyd â 60 pwynt sylfaen (G+60bps)
    - Mae **Cyfradd Sicrwydd BBGC (CRT)** yn gilt ynghyd â 40 pwynt sylfaen (G+40bps)

- Bydd **Banc Isadeiledd y DU** yn rhoi benthyg i awdurdodau lleol sy'n bodloni meini prawf ei gynllun ar gyfradd a bennir ar hyn o bryd yn gilt ynghyd â 40bps (G+40bps).

Patatowyd yr atodiad hwn gan Link Group – Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| **Dyddiad:** | **8 CHWEFROR 2024** |
| **Pwnc / Testun:** | **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS, DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>**ClaireKlimaszewski@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

- Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) blynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Rheoliadau Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i God Darbodus CIPFA a Chodau Rheoli Trysorlys CIPFA, y cyhoeddwyd y fersiynau diweddaraf ohonynt yn 2021.

- Mae'r DSRhT hwn yn cydymffurfio â'r gofynion yn y ddau god ac yn nodi'r holl ofynion y mae'n rhaid eu dilyn wrth gynnal gweithgareddau rheoli trysorlys Cyngor Sir Ynys Môn. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod buddsoddiadau'r Cyngor yn ddiogel ac yn ddigon hygyrch fel bod digon o arian parod ar gyfer taliadau o ddydd i ddydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae'r DSRhT, fel sy'n ofynnol gan y codau, hefyd yn darparu fframwaith i sicrhau bod lefelau benthyca'r Cyngor yn parhau'n ddarbodus a fforddiadwy.

- Cyflwynodd Cod Darbodus CIPFA, 2021 (A29) adroddiadau monitro yn amlach ar waith rheoli'r trysorlys. Cyn fersiwn 2021 o'r cod, adolygiad canol blwyddyn o reoli'r trysorlys ac adroddiad monitro alldro diwedd blwyddyn rheoli'r trysorlys oedd y safonau gofynnol. Yn unol â'r Cod Darbodus diwygiedig, mae'r Cyngor bellach yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol ar reoli'r trysorlys sy'n arwain at adroddiad alldro rheoli'r trysorlys, ar ddiwedd y flwyddyn.

- Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth fonitro ar y dangosyddion darbodus sy'n edrych i'r dyfodol ac a nodir yn yr atodiadau yn y DSRhT. Mae'r adroddiadau'n amlygu unrhyw amrywiadau sylweddol o'r dangosyddion cymeradwy ac yn cynnwys rhagolygon ar fenthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Nid oes angen i'r adroddiadau ychwanegol fynd i'r Cyngor llawn, felly, cyflwynir y rhain i'r Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo. Bydd adroddiadau ar adolygiad canol blwyddyn ac alldro rheoli'r trysorlys yn parhau i gael eu harchwilio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith a'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Argymhellion**
    - Adolygu Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25 a chyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

| | | |
|---|---|---|
| **C – Pam fo hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| | | |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Amherthnasol | | |
| **DD – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Mae rheoli'r trysorlys yn allweddol i hwyluso cynaliadwyedd ar gyfer anghenion tymor hir yr Ynys gan fod cynlluniau benthyca yn helpu i gyllido'r gwariant cyfalaf i sicrhau bod asedau ar gael rŵan ac yn y dyfodol. Rhaid i gynlluniau'r Trysorlys hefyd fod yn fforddiadwy i sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol dan anfantais oherwydd penderfyniadau Rheoli'r Trysorlys a wneir yn y tymor byr a'r tymor canolig. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Rhaid i strategaeth a gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys fod yn fforddiadwy i liniaru'r effaith ar y dyfodol. Gall rhywfaint o wariant cyfalaf a gyllidir gan fenthyca, megis Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a chynlluniau buddsoddi i arbed eraill a gyllidir gan fenthyca, helpu i leihau costau yn y dyfodol. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-** | Mae gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn aml yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru. Mae ysgolion / estyniadau newydd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi'u cyllido / yn cael eu cyllido gyda chyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Ymgynghorir â Dinasyddion Môn bob blwyddyn am y rhaglen gyfalaf flynyddol, y mae rhywfaint ohoni'n dibynnu ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys. Ymgynghorir yn fanylach ar rai prosiectau cyfalaf, megis adeiladu ysgolion newydd / ad-drefnu ysgolion. |
| **5** | **Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | Bydd asedau newydd a gyllidir drwy fenthyca yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni ailwampio ac adnewyddu blynyddol hefyd yn helpu i gynyddu hygyrchedd a galluogi amrywiaeth. |
| **6** | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.** | Mae'r DSRhT yn ofynnol bob blwyddyn. |
| **7** | **Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Mae rhai o'r prosiectau a gyllidir trwy fenthyca yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr Iaith Gymraeg a chynnydd ynddi, megis yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a adeiladwyd yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)** | |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151(gorfodol)** | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 ydi hwn |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

**F - Atodiadau:**

1. Egwyddorion Allweddol Rheoli'r Trysorlys
2. Cefndir economaidd
3. Rhagolygon graddfeudd llog
4. Proffil benthyciadau'n aeddfedu
5. Datganiad Polisi DRI
6. Buddsoddiadau penodol ac amhenodol
7. Meini prawf gwrthbartïon
8. Gwledydd cymeradwy ar gyfer buddsoddiadau
9. Cynllun dirprwyo ar gyfer materion Rheoli Trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151
10. Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
11. Eglurhad o Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys
12. Geirfa o ddangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys, a gwybodaeth amdanynt

**FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda):**

- Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023;
- Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2022/23, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 26 Hydref 2023;
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2022/23, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 27 Mehefin 2023;
- Monitro Cyllideb Gyfalaf Chwarter 2 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd 2023;
- Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2023/24, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 8 Chwefror 2024;
- Strategaeth Gyfalaf 2024/28 – Pwyllgor Gwaith, 29 Chwefror 2024

**ATODIAD A**


**DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS**

**STRATEGAETH FUDDSODDI BLYNYDDOL, DATGANIAD POLISI DARPARIAETH REFENIW ISAF A DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS 2024/25**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2023/24 yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli'r trysorlys o ddydd i ddydd ac yn y tymor canolig. Mae wedi'i gwblhau mewn perthynas â Chod Darbodus CIPFA 2021 a Chod Trysorlys CIPFA 2021.

**1.2** Mae'r DSRhT yn rhan allweddol o brosesau cynllunio strategol y Cyngor i helpu i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei amcanion a'i weledigaeth strategol. Mae cylch strategol y Cyngor isod yn dangos bod Cynllun y Cyngor yn ganolog i waith y Cyngor. Rhaid i holl gynlluniau strategol a gweithredol y Cyngor fod yn gyson â Chynllun y Cyngor i ddarparu'r gwasanaethau a'r blaenoriaethau sydd eu hangen i gyflawni amcanion strategol y Cynllun. Mae'r cylch yn dangos mai Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, ochr yn ochr â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yw'r strategaethau ariannol allweddol i sicrhau bod adnoddau ariannol y Cyngor yn cael eu rheoli yn unol â deddfwriaeth allweddol a gofynion CIPFA a'u bod yn canolbwyntio ar fodloni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyllid y Cyngor yn targedu'r swyddogaethau a'r gwasanaethau cywir i gyflawni nodau'r Cyngor.




## 2. CEFNDIR

**2.1** Mae CIPFA yn diffinio rheoli trysorlys fel:-

"Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny."

**2.2** Mae rheoli'r trysorlys yn ymwneud â thasgau sy'n sicrhau bod digon o arian parod yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor i dalu biliau o ddydd i ddydd a buddsoddi arian dros ben, dros yr hyn sydd ei angen yn y cyfrif cyffredinol. Rhaid i'r buddsoddiadau hyn fod mewn cyfrifon hynod ddiogel, megis banciau'r DU sydd â statws credyd uchel. Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu diogelwch ei gronfeydd yn unol â'r Cod ac yn sicrhau bod digon o arian parod ar gael ar unwaith fel bod y Cyngor yn gallu talu cyflenwyr, staff a budd-daliadau, ar y dyddiadau talu gofynnol. Yr ystyriaeth olaf yw elw, mae'r Cyngor yn buddsoddi i gael y gyfradd llog uchaf posib o fewn y gronfa o sefydliadau sy'n ddiogel ac yn cwrdd â meini prawf y strategaeth hon. Elfen olaf Rheoli'r Trysorlys yw rheoli portffolio benthyciadau'r Cyngor i sicrhau nad yw costau benthyca'r Cyngor yn rhy uchel a bod costau refeniw benthyca yn fforddiadwy.

**2.3** Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys i'r Awdurdod yn hollbwysig, gan bod y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau buddsoddi a'r dyledion yn sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymiadau gwariant pan fo angen, naill ai ar gyfer refeniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd gweithgareddau'r trysorlys yn gweld y cydbwysedd rhwng y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuon ariannol yn cael effaith ar y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau arian parod, fel rheol, yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli'r symiau gwreiddiol a fuddsoddwyd arwain at ostwng cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

## 3. DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS YNYS MÔN

**3.1** Yn ogystal â'r polisïau risg corfforaethol, y gofrestr, y camau gweithredu a'r monitro, mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldeb am stiwardiaeth dda o arian cyhoeddus o ddifri a bydd holl arferion rheoli'r trysorlys yn diogelu arian cyhoeddus. Mae'n amhosib dileu pob risg, ond bydd holl weithgareddau rheoli'r trysorlys yn cael eu rheoli i leihau'r risg y mae cyllid y Cyngor yn agored iddo, fel a ganlyn:-

**3.1.1** Bydd penderfyniadau buddsoddi bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y buddsoddiad yn gyntaf. Hylifedd yw'r ail ystyriaeth, gan fod angen i'r Cyngor gael mynediad ar unwaith at ddigon o arian i dalu taliadau o ddydd i ddydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Yn olaf, ni fydd y Cyngor yn ceisio uchafu'r incwm a enillir ar fuddsoddiadau oni bai fod y buddsoddiadau'n hynod ddiogel a bod digon o fynediad ar unwaith i gronfeydd.

**3.1.2** Dim ond mewn banciau a chymdeithasau adeiladu hynod ddiogel sydd â statws credyd uchel y bydd adneuon banc, neu fuddsoddiadau mewn banciau neu gymdeithasau adeiladu, yn cael eu rhoi, a hynny'n unol â'r meini prawf yn Atodiad 7.

**3.1.3** Bydd benthyciadau i awdurdodau lleol yn cael eu hystyried ar ôl cwblhau gwiriadau diwydrwydd dyladwy.

**3.1.4** Caniateir buddsoddiadau mewn cronfeydd marchnad arian cyfradd AAA.

**3.1.5** Bydd y Cyngor yn anelu at gadw isafswm o £10m mewn cyfrifon mynediad ar unwaith, os oes digon ym malansau'r Cyngor.

**3.1.6** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, yng nghyd-destun gwarchod arian cyhoeddus.

**3.1.7** Bydd y Cyngor yn benthyca'n fewnol os oes digon o falansau arian parod, er mwyn leihau neu ohirio llog sy'n daladwy, yn enwedig pan fo cyfraddau llog yn codi.

**3.1.8** Os oes angen benthyca at ddibenion cymwys, dylai unrhyw fenthyciadau ystyried a yw cyfraddau'n debygol o godi neu ostwng yn y tymor canolig. Dylai benthyciadau tymor byr liniaru'r llog sy'n daladwy os yw cyfraddau'n debygol o ostwng yn y tymor byr neu'r tymor canolig, a dylid ystyried benthyciadau tymor hwy os rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn cynyddu yn y tymor canolig i'r tymor hir.

**3.1.9** Mae gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau allweddol y Cyngor a bydd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i sicrhau bod buddsoddiadau'n ddiogel, yn hygyrch ac y gwneir y gorau o'r llog derbyniadwy o fewn buddsoddiadau diogel. Bydd benthyca yn seiliedig ar ofynion Strategaeth Gyfalaf 2024/28 a rhaglenni blynyddol, ond dim ond os yw'n fforddiadwy, gan gymryd i ystyriaeth y sefyllfa ariannol ar y pryd a gwybodaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

**3.1.10** Ni ellir gosod y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar ei ben ei hun, a rhaid ystyried y sefyllfa economaidd gan fod hyn yn effeithio ar gyfraddau llog buddsoddi, cost benthyca a chryfder ariannol gwrthbartïon.

## 4. CYD-DESTUN ALLANOL

**4.1** Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn Atodiad 2. Mae Tabl 1 isod yn dangos rhagolygon cyfradd sylfaenol diweddar Banc Lloegr, chwyddiant a chyfraddau Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (BBGC) a ddarparwyd gan Link Group.

**Tabl 1 – Rhagolwg o Gyfradd Sylfaenol y Banc, Chwyddiant a Chyfraddau BBGC Ionawr 2024 i Medi 2025**

| | 15 Ion 2024 | Maw 2024 | Meh 2024 | Medi 2024 | Rhag 2024 | Maw 2025 | Meh 2025 | Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Banc (%) | 5.25% | 5.25% | 5.25% | 4.75% | 4.25% | 3.75% | 3.25% | 3.00% |
| Chwyddiant CPI – Economeg Cyfalaf | Rhag - 3.7% | 3.8% | 2.9% | 0.80% | 0.70% | 0.90% | 0.6% | 1.2% |
| Cyfradd Blwydd-daliadau BBGC 5 ml (%) | 4.63% | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% | 3.80% |
| Cyfradd Blwydd-daliadau BBGC 10 ml (%) | 4.86% | 4.70% | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% |
| Cyfradd Blwydd-daliadau BBGC 25 ml (%) | 5.43% | 5.20% | 5.10% | 4.90% | 4.80% | 4.60% | 4.40% | 4.30% |
| Cyfradd Blwydd-daliadau BBGC 50 ml (%) | 5.24% | 5.00% | 4.90% | 4.70% | 4.60% | 4.40% | 4.20% | 4.10% |

**4.2** Targed chwyddiant Banc Lloegr, a osodwyd gan y Llywodraeth, yw 2%. Dechreuodd chwyddiant gynyddu y tu hwnt i hyn o fis Awst 2021, gyda'r gyfradd CPI yn cyrraedd uchafbwynt o 11.1% ym mis Hydref 2022 oherwydd effaith goresgyniad yr Wcráin, a achosodd gynnydd sylweddol mewn prisiau ynni a bwyd. Arhosodd chwyddiant yn uchel am gyfnod hwy na'r disgwyl, ond dechreuodd ostwng ym mis Ebrill 2023 i 8.7%, gyda CPI yn gostwng i 7.9% ar ddiwedd y chwarter cyntaf. Parhaodd cyfraddau chwyddiant i ostwng yn yr ail chwarter, gyda CPI yn 6.7% ar 30 Medi 2023 a 4% ar 31 Rhagfyr 2023.

**4.3** Ar ddechrau'r pandemig, gostyngwyd y gyfradd sylfaenol i'w phwynt isaf ar 0.1% i gefnogi'r economi. Ym mis Rhagfyr 2021, cynyddodd Banc Lloegr y gyfradd i 0.25% ac yna cynyddodd y gyfradd sylfaenol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Ariannol (yr MPC) rhwng 0.25% i 0.75% ar ei gynnydd uchaf. Ym mis Awst 2023, cynyddodd yr MPC y gyfradd sylfaenol i 5.25%, ym mis Medi 2023 nid oedd y gyfradd o 5.25% wedi newid ar gyfer cyfarfod cyntaf yr MPC er mis Rhagfyr 2021. Pleidleisiodd yr MPC hefyd dros beidio â newid y 5.25% yn ei gyfarfodydd ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2023. Adroddodd DSRhT 2023/24 ym mis Mawrth 2023 bod disgwyl i gyfradd sylfaenol y banc gyrraedd uchafbwynt o 4.5% yn yr haf ac y byddai'r cyfraddau'n gostwng yn araf yn 2024 a 2025. Yn yr adolygiad o waith rheoli'r trysorlys ar gyfer chwarter 1, amlygwyd y rhagwelid y byddai cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn cyrraedd uchafbwynt o 5.25%. Dengys y dadansoddiad uchod nad yw'r gyfradd o 5.25% wedi newid i bedwar Pwyllgor MPC yn olynol. Fodd bynnag, mae risg o gynnydd mewn chwyddiant oherwydd materion cyflenwad sy'n deillio o'r gwrthdaro yn Gaza a materion llongau yn y Môr Coch, sydd wedi arwain at wrthdaro ehangach. Bellach, mae risg uwch y gallai'r gyfradd sylfaenol gyrraedd ei hanterth ar gyfradd uwch mewn ymdrechion i reoli chwyddiant.

**4.4** Mae'r Cyngor yn elwa o gyfradd sylfaenol uwch ar gyfer buddsoddi arian dros ben, sydd wedi helpu'r Cyngor i ennill mwy na £1m mewn llog derbyniadwy. Ond mae benthyciadau i'r Cyngor yn ddrytach ers i Fanc Lloegr ddechrau codi cyfraddau llog i geisio rheoli chwyddiant. Felly, mae benthyca allanol yn cael ei ohirio hyd nes na all balansau arian barhau i gynnal y defnydd o falansau'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf (benthyca mewnol).

## 5. SEFYLLFA FENTHYCA BRESENNOL Y CYNGOR

**5.1** Benthyca gan y BBGC – mae benthyciadau allanol y Cyngor gan y BBGC yn aros yr un fath â'r hyn a gyflwynwyd yn y DSRhT ym mis Mawrth 2023, ac eithrio ad-daliad o £8k o'r prifswm ar fenthyciadau blwydd-dal. Mae hyn oherwydd yr angen i osgoi benthyca tra bod cyfraddau llog yn cynyddu. Yn lle hynny, defnyddiwyd balansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn yn unol â chyngor Link Group ar fenthyca yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Cost cyfle hyn yw bod llai o falansau i'w buddsoddi. Fodd bynnag, mae costau benthyca'n uwch nag enillion buddsoddi. Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i dalu credydwyr a chyflogau, rhaid i ddigon o arian parod aros mewn cyfrifon galwadau ar unwaith. Fel arfer, mae'r cyfraddau llog ar y rhain yn llawer is, felly, mae'r Cyngor yn dal i allu gwneud arbedion rhesymol ar y llog taladwy tra'n defnyddio balansau arian parod.

**5.2** Yn Atodiad 4 ceir y rhestr lawn o fenthyciadau gan y BBGC a gymerwyd allan ac sy'n dal yn daladwy. Mae'r benthyciad hynaf yn dyddio'n ôl i 1969, ac mae gan y mwyafrif o'r benthyciadau gyfraddau llog uwch na'r cyfraddau presennol, er gwaethaf y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog. Trefnir y rhain erbyn y flwyddyn ariannol y disgwylir i'r benthyciadau gael eu had-dalu. Yn ogystal, mae gwerth presennol y benthyciadau wedi'i gynnwys yn y golofn olaf i gymryd i ystyriaeth fod gwerth arian yn lleihau dros amser. Mae hyn yn dangos effaith fwy realistig y bydd y benthyciadau yn ei chael yn y dyfodol. Cyfanswm y benthyciadau yw £119.564m, ond gwerth y benthyciadau hyn wedi'u disgowntio i swm eu gwerth presennol yw £47.666m. Amcangyfrifir y bydd y benthyciad o £15m sydd i'w ad-dalu yn 2068/2069 yn £3.190m yn ôl prisiau heddiw gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt o 3.5% i'r sector cyhoeddus.

**Tabl 2 - Bwrdd Benthyciadau'r Gwaith Cyhoeddus(BBGC)**

| Benthyciadau'r BBGC ar 30 Medi 2023 | | | |
|---|---|---|---|
| | **BBGC / BBGC Adeg Aeddfedu £'000** | **EIP y BBGC/ Blwydd-daliadau £** | **Cyfanswm Benthyciadau'r BBGC ar 31 Rhagfyr 2023 £'000** |
| Benthyciad sy'n weddill (£'000) | 119,400 | 164 | 119,564 |
| Oes gyfartalog (blynyddoedd) | 30.82 | 4.06 | 35.00 |
| Cyfradd gyfartalog (%) | 4.53 | 9.42 | 4.54 |

**5.3** Benthyca gan Salix – sefydliad Llywodraeth Cymru yw Salix sy'n rhoi benthyciadau di-log ac, yn fwy diweddar, grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r amgylchedd ac i helpu cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag at gyflawni eu targed sero net erbyn 2030. Dangosodd DSRhT 2023 fod gan y Cyngor, ym mis Chwefror 2023, £3.099m o fenthyciadau di-log heb eu talu i Salix. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi derbyn mwy o'r benthyciadau a gymeradwywyd gan Salix oherwydd y bu mwy o gynnydd gyda'r prosiectau a gyllidwyd gan fenthyciadau gan Salix.

Roedd gan y Cyngor £4.035m o fenthyciadau Salix ar 30 Medi 2023. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu dros gyfnod o 8 neu 10 mlynedd, yn dibynnu ar y cytundeb, gyda dau ad-daliad y flwyddyn, fesul benthyciad. Mae'r benthyciadau hyn wedi cyllido goleuadau stryd LED, goleuadau LED mewn ysgolion a chanolfannau hamdden ac amrywiol brosiectau cynaliadwy eraill.

**Tabl 3 – Benthyciadau Salix ar 30 Medi 2023**

| Benthyciadau Eraill ar 30 Medi 2023 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Benth. Salix 1<br>£'000 | Benth. Salix 2<br>£'000 | Benth. Salix 3<br>£'000 | Benth. Salix 4<br>£'000 | Benth. Salix 5<br>£'000 | Benth. Salix 6<br>£'000 | CYFANSWM<br>£'000 |
| Swm sy'n weddill | 16.5 | 114.0 | 349.8 | 158.4 | 1,873.7 | 1,522.9 | **4,035.3** |
| Dyddiad Ad-dalu | 2024/25 | 2025/26 | 2027/28 | 2029/30 | 2031/32 | 2035/36 | |
| % y gyfradd llog | - | - | - | - | - | - | **-** |

## 6. BALANSAU BUDDSODDI'R CYNGOR AR 31 RHAGFYR 2023

**6.1** Cyfanswm balans y buddsoddiadau ar 31 Rhagfyr 2023 oedd £33.227M, fel y dangosir yn Nhabl 4 isod. Yr elw o'r buddsoddiadau hyn rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Rhagfyr 2023 oedd £1.603m a'r disgwyl yw y bydd cyfanswm y llog derbyniadwy ar y buddsoddiadau a restrir isod yn £1.909m ar gyfer 2023/24. Mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn uwch wrth i fuddsoddiadau newydd gael eu gwneud pan fydd y rhain yn aeddfedu. Fodd bynnag, mae balansau arian parod yn lleihau wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, felly, ni fydd hi'n hyfyw i adnewyddu'r holl fuddsoddiadau hyn pan fyddant yn aeddfedu.

**Tabl 4 – Buddsoddiadau 1 Ebrill 2023 i 31 Rhagfyr 2023**

| Gwrthbarti | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Gorffen | Cyfradd Llog | Symiau Buddsoddi 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2023 | Prifswm Buddsoddi 31 Rhagfyr 2023 | Amcangyfrif o'r llog enillwyd am y cyfnod | Amcangyfrif Cyfanswm Llog 2023/24 ar y Buddsoddiadau yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nat West CallAccount – cyfartalog am y cyfnod** | **01/04/2023** | **31/03/2024** | **1.46%** | **R** | **7,536,347** | **109,414** | **145,942** |
| **Cyfrif Galw Lloyds** | **18/04/2023** | **31/03/2024** | **5.14%** | **7,500,000** | **5,691,167** | **252,417** | **325,349** |
| **Banc National Westminster – tymor sefydlog** | **11/01/2023** | **11/07/2023** | **4.10%** | **10,000,000** | **-** | **113,452** | **113,452** |
| **Banc National Westminster – tymor sefydlog** | **11/07/2023** | **11/01/2024** | **5.88%** | **10,000,000** | **10,000,000** | **278,696** | **296,416** |
| **Santander** | **10/02/2023** | **10/05/2023** | **4.00%** | **7,500,000** | **-** | **32,055** | **32,055** |
| **Santander** | **10/05/2023** | **10/11/2023** | **4.76%** | **7,500,000** | **-** | **179,967** | **179,967** |
| **Cymdeithas Adeiladu Nationwide** | **06/04/2023** | **06/07/2023** | **4.17%** | **5,000,000** | **-** | **51,982** | **51,982** |
| **Cymdeithas Adeiladu Nationwide** | **06/07/2023** | **08/01/2024** | **5.47%** | **5,000,000** | **5,000,000** | **133,378** | **139,373** |
| **Goldman Sachs** | **22/12/2022** | **22/06/2023** | **3.83%** | **7,500,000** | **-** | **64,533** | **64,533** |
| **Goldman Sachs** | **22/06/2023** | **22/12/2023** | **5.52%** | **7,500,000** | **-** | **207,567** | **207,567** |
| **Cyngor Wakefield** | **22/08/2023** | **22/09/2023** | **5.23%** | **5,000,000** | **-** | **22,210** | **22,210** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | **25/10/2022** | **25/04/2023** | **3.80%** | **5,000,000** | **-** | **12,493** | **12,493** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** | **25/04/2023** | **25/10/2023** | **4.30%** | **5,000,000** | **-** | **107,795** | **107,795** |
| **Banc National Westminster – tymor sefydlog** | **11/01/2024** | **10/03/2024** | **5.25%** | **10,000,000** | **-** | **-** | **84,863** |
| **Santander** | **10/11/2023** | **09/02/2024** | **5.34%** | **5,000,000** | **5,000,000** | **37,307** | **66,567** |
| **Cymdeithas Adeiladu Nationwide** | **08/01/2024** | **08/04/2024** | **5.11%** | **0** | **-** | **-** | **58,100** |
| | | | | | **33,227,514** | **1,603,266** | **1,908,663** |

## 7. EFFAITH CYNLLUNIAU'R DYFODOL AR FENTHYCA

**7.1** Cyllidir gwariant cyfalaf yn rhannol o fenthyciadau, felly, mae cysylltiad agos rhwng y Strategaeth Gyfalaf a'r strategaeth hon. Mae crynodeb gwariant cyfalaf 2024/25 i 2027/28 yn cyflwyno tri opsiwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae pob un o'r tri senario yn ystyried y gwaith sydd ei angen ar asedau'r Cyngor neu a fydd angen asedau amnewid. Cyflwynir y tri opsiwn fel y senarios lleiaf, posibl ac uchaf, a'r gofyniad uchaf yw'r symiau i ddod â holl asedau'r Cyngor i safon uchel neu ased newydd lle mae angen amnewidiadau. Mae'r gwariant cyfalaf yn y strategaeth hon yn defnyddio'r senario cyntaf – lleiafswm, oherwydd y diffyg cyllid sylweddol ar gyfer 2024/25 ac, o bosibl, ar gyfer y blynyddoedd ar ôl hynny.

**7.2** Mae Tabl 5 isod yn dangos gwariant amcangyfrifedig a chyllid ar gyfer y cyfnod 2023 i 2028. O 2025/26 ymlaen, dyma'r buddsoddiad cyfalaf isaf oherwydd materion cyllido sylweddol. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth na fydd unrhyw fenthyca digefnogaeth oherwydd efallai na fydd hyn yn fforddiadwy o ystyried pwysau'r gyllideb refeniw a wynebir gan y Cyngor. Dim ond dyraniad benthyca â chefnogaeth y Cyngor sydd wedi'i gynnwys yn adran cyllido tabl 5.

**Tabl 5 – Cyllid a Gwariant Cyfalaf Amcangyfrifedig 2023/24 i 2027/28**

| | 2023/24<br>£'000 | 2024/25<br>£'000 | 2025/26<br>£'000 | 2026/27<br>£'000 | 2027/28<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor – heb gynnwys Eiddo Buddsoddi | 34,380 | 15,565 | 5,028 | 4,876 | 4,836 |
| CRT | 13,362 | 35,145 | 29,974 | 20,831 | 21,455 |
| Eiddo Buddsoddi | 2,780 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **50,522** | **50,710** | **35,002** | **25,707** | **26,291** |
| Grantiau Cyfalaf | 28,669 | 15,978 | 6,205 | 6,244 | 6,284 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 157 | 25 | 151 | 0 | 0 |
| Arian wrth Gefn a Chyfraniadau | 14,089 | 12,025 | 10,936 | 7,454 | 7,298 |
| Balans a Gyllidwyd gan Fenthyciadau | 7,607 | 22,682 | 17,710 | 12,009 | 12,709 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **50,522** | **50,710** | **35,002** | **25,707** | **26,291** |

**7.3** Ffactor pwysig i'w ystyried yw effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Y GCC yw mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Nid yw benthyca wedi'i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan BBGC gan ei fod, hefyd, yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) sydd wedi cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf. Er bod benthyca mewnol yn arbed costau llog taladwy i'r Cyngor, codir y ddarpariaeth refeniw isaf (DRI) ar sail yr angen sylfaenol i fenthyca (y GCC) nid y benthyciad gwirioneddol.

**7.4** Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r GCC ond dim ond yn ôl y swm nad yw'n cael ei gyllido o grantiau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn neu refeniw. Bydd y GCC hefyd yn gostwng yn flynyddol gan swm y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) sy'n cael ei roi yn erbyn refeniw. Mae lefel y GCC yn fesur pwysig er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn ymrwymo ei hun i fenthyciadau na all eu fforddio.

**7.5** Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i ad-dalu dyledion pan ddaw'n ddyledus, rhaid i'r Cyngor sicrhau tâl i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn, a'r enw ar y tâl hwn yw'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI). Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad DRI cyn pob blwyddyn ariannol. Gwelir y polisi ar gyfer 2024/25 yn **Atodiad 5**. Cafodd polisi DIR y Cyngor ei ddiwygio'n sylweddol yn 2018 ac unwaith eto ar gyfer y flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2022. Drwy wneud y tâl DRI bob blwyddyn, mae balansau ariannol y Cyngor yn cael eu hailgyflenwi ac mae hynny, yn ei dro, yn lleihau'r benthyciadau mewnol.

**7.6** Yn 2018, adolygodd y Cyngor ei bolisi DRI a mabwysiadodd ddull Rhandaliadau Cyfartal Oes Ased i gyfrifo ei dâl DRI ar gyfer benthyca gyda chefnogaeth a benthyca digefnogaeth. Mae'r polisi diwygiedig o 1 Ebrill 2022 yn mabwysiadu dull blwydd-dal, gan ddefnyddio dull tebyg i forgais ad-daliad safonol, lle mae swm yr ad-daliad, sy'n gyfuniad o ad-dalu'r benthyciad gwreiddiol a'r llog, yn aros yn gyson. O ganlyniad, mae swm y benthyciad gwreiddiol a ad-delir yn y blynyddoedd cynnar yn isel ac mae'n cynyddu dros amser. Felly, o dan y dull blwydd-dal, mae'r tâl DRI yn isel yn y blynyddoedd cyntaf cyn cynyddu dros amser.

**7.7** Gall y Cyngor ddewis talu mwy o DRI mewn unrhyw flwyddyn benodol. Gellir hawlio'r gordaliadau DIR hyn yn ôl (sef gordaliadau sydd, yn achos y Cyngor, yn sicrhau digon o arian parod i ad-dalu benthyciadau) yn y blynyddoedd diweddarach os bydd angen. Hyd at 31 Mawrth 2022, cyfanswm y gordaliadau a wnaed oedd £268k, ac roeddent yn ymwneud yn benodol â benthyciadau Salix lle mae'r DRI a godir ar y cyfrif refeniw wedi'i gyfrifo ar sail oes y benthyciad yn hytrach nag ar oes yr ased a gyllidwyd gan y benthyciad. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i ad-dalu'r benthyciadau pan fydd angen gwneud hynny.

**7.8** Dangosir effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r tâl DRI ar y GCC a lefel y benthyca allanol a mewnol yn Nhabl 6 isod:-

**Tabl 6**

**Gofyniad Cyllido Arian Cyfalaf a Benthyca 2022/23 i 2027/28**

| | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2025/26 £'000 | 2026/27 £'000 | 2027/28 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Amcan** | **Amcan** | **Amcan** | **Amcan** | **Amcan** |
| **Balans agoriadol y GCC** | **144,112** | **150,588** | **171,991** | **188,238** | **198,521** |
| Gwariant Cyfalaf | 50,522 | 50,710 | 35,002 | 25,707 | 26,291 |
| Grantiau Cyfalaf Allanol | (28,669) | (15,978) | (6,205) | (6,244) | (6,284) |
| Derbyniadau Cyfalaf | (157) | (25) | (151) | 0 | 0 |
| Cyfraniadau Refeniw ac Arian wrth Gefn | (14,089) | (12,205) | (10,936) | (7,454) | (7,298) |
| Darpariaeth Isafswm Refeniw Isaf | (1,131) | (1,279) | (1,463) | (1,726) | (1,933) |
| **Balans Cau'r GCC** | **150,588** | **171,991** | **188,238** | **198,521** | **209,297** |
| **BENTHYCA ALLANOL** | | | | | |
| **Balans Agoriadol Benthyciadau Allanol** | **123,799** | **121,557** | **158,593** | **175,644** | **185,696** |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 0 | 22,682 | 17,710 | 12,009 | 12,709 |
| Benthyca i Gyllido Ad-dalu Benthyca | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyciadau yn lle Benthyca Mewnol | 0 | 15,000 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu Benthyciadau | (2,242) | (646) | (639) | (1,977) | (2,763) |
| **Balans cau Benthyciadau Allanol** | **121,557** | **158,593** | **175,664** | **185,696** | **195,642** |
| **Balans Agoriadol Benthyciadau Mewnol** | **20,342** | **29,060** | **13,427** | **12,603** | **12,854** |
| Amnewid Benthyciadau Mewnol | 0 | (15,000) | 0 | 0 | 0 |
| Cyllido Ad-daliadau Benthyca o Fenthyciadau Allanol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-daliadau Benthyciadau Allanol | 2,242 | 646 | 639 | 1,977 | 2,763 |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 7,607 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth Refeniw Isaf | | | | | |
| **Balans Cau Benthyciadau Mewnol** | (1,131) | (1,279) | (1,463) | (1,726) | (1,933) |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **150,617** | **172,020** | **188,267** | **198,550** | **209,326** |

## 8. STRATEGAETH FENTHYCA

**8.1** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu nad yw'r angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn gan ddyledion benthyca gan ddefnyddio arian fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae gweithredu yn y fath fodd yn ddarbodus, gan fod disgwyl i gyfraddau benthyca tymor canolig a thymor hir ddisgyn o'u lefelau presennol unwaith y rhoddir sylw i bryder cyffredinol am chwyddiant trwy bolisi ariannol tynn yn y tymor byr.

Yn erbyn y cefndir hwn a’r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2024/25. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig i ymateb i amgylchiadau sy’n newid:-

- os teimlir bod risg sylweddol o GWYMP sydyn mewn cyfraddau benthyca, yna bydd benthyciadau’n cael eu gohirio.
- os teimlir bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer uwch mewn cyfraddau benthyca nag a ragwelir ar hyn o bryd, bydd cyllid ar raddfa sefydlog yn cael ei dynnu i lawr tra bod cyfraddau llog yn is nag y rhagwelir iddynt fod yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Rhagolwg tymor hir Link Group (y tu hwnt i 10 mlynedd) yw 3%. Mae holl gyfraddau sicrwydd y BBGC yn sylweddol uwch na'r gyfradd hon ar hyn o bryd. Felly, gellir cael gwell gwerth o fuddsoddiadau tymor byr nes bod cyfraddau’r banc yn gostwng.

**8.2 Benthyca Mewnol yn erbyn Benthyca Allanol**

**8.2.1** Mae’r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau i allanoli benthyca. Mae angen rhoi ystyriaeth gofalus barhaus i’r gwahaniaeth rhwng cyfraddau benthyca a chyfraddau buddsoddi er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y ceir lefel briodol o reoli risg er mwyn sicrhau diogelwch ei fuddsoddiadau.

**8.2.2** O blaid mewnoli, dros y tymor canol, y disgwyl yw y bydd cyfraddau buddsoddi yn parhau i fod yn is na’r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hynny’n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyciadau allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy’n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthyca mewnol). Byddai hynny’n sicrhau’r arbedion tymor byr mwyaf posib.

**8.2.3** Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyciadau allanol tymor hir yn 2023/24, yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen, gan fod cyfraddau tymor hir y BBGC yn uwch nawr. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu’n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol i lif arian a bydd yn cyfyngu ar lefel bosib y benthyciadau mewnol.

**8.3 Benthyca Ymlaen Llaw i Gwrdd ag Anghenion**

**8.3.1** Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, a hynny er mwyn elwa o fuddsoddi’r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca ymlaen llaw, o fewn amcangyfrifon Gofynion Cyllido Cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o’r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch cyllid o’r fath.

**8.4 Aildrefnu Dyledion**

**8.4.1** Efallai y byddir yn ystyried aildrefnu benthyciadau cyfredol yn ein portffolio dyledion tra bod cyfraddau ad-dalu dyled yn gynnar yn parhau i fod yn uchel, ond dim ond os oes arian dros ben ar gael i hwyluso unrhyw ad-daliad, neu ail-gydbwyso'r portffolio i roi mwy o sicrwydd a ystyrir yn briodol.

**8.4.2** Rhoddir gwybod i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyledion yn y cyfarfod nesaf sy’n ymarferol bosib wedi iddo weithredu.

### 8.5 Benthyca o flaen yr angen

Y BBGC yw prif ffynhonnell benthyca'r Cyngor, gyda rhai benthyciadau gan y sefydliad sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, Salix, ar gyfer cyllido prosiectau effeithlonrwydd ynni a charbon isel. Cyfradd sicrwydd y BBGC yw giltiau ac 80 pwynt sail (0.8%). Gellid ystyried benthyca gan yr isod:-

- Awdurdodau Lleol;
- Asiantaeth UK Municipal Bond – benthyciadau cyfun;
- Cronfeydd Marchnad Arian.

## 9. PROFFIL DYLEDION

**9.1** Yn Atodiad 4, gwelir proffiliau aeddfedu benthyciadau'r Cyngor. Bydd y benthyciadau presennol yn cael eu had-dalu mewn gwahanol flynyddoedd hyd at 2068/69. Mae hyn, hefyd, yn cynnwys gwerth presennol taliadau'r benthyciad i adlewyrchu gwir effaith symiau'r benthyciad yn y dyfodol, drwy ddisgowntio'r prif fenthyciadau gan 3.5%, sef y gyfradd tymor hir a argymhellir i fesur gwerth arian dros amser. Bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dalu'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy pan benderfynir ar y math o fenthyciad (aeddfedrwydd neu flwydd-dal) a chyfnod y benthyciad.

**Tabl 7 – Proffil Aeddfedrwydd Benthyciadau BBGC, Ionawr 2024**

| Nifer o flynyddoedd tan fydd y benthyciad yn Aeddfeduumber of Years until Loan Matures | Prifswm £'m | Gwerth Presennol y Prifswm £'m | Cronnus % |
|---|---|---|---|
| <1 | 1.87 | 1 | 1.6 |
| 1 to 3 | 1.44 | 1 | 2.8 |
| 4 to 6 | 4.04 | 3 | 6.1 |
| 7 to 10 | 3.38 | 3 | 9.0 |
| 11 to 14 | 2.42 | 2 | 11.0 |
| 15 to 22 | 23.22 | 12 | 30.4 |
| 23 to 33 | 41.74 | 15 | 65.3 |
| 34 to 50 | 41.48 | 10 | 100.0 |
| **CYFANSWM** | **119.58** | **47** | |

## 10. STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI TEILYNGDOD CREDYD

**10.1** Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif arian a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd ar gyfer buddsoddi am hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael enillion uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hwy. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu bydd y gyfradd sail yn parhau ar 5.25% ond bydd yn cychwyn lleihau o Medi 2024. Felly byddai strategaeth fuddsoddi hyblyg yn briodol i fanteisio i'r eithaf ar enillion. Yn yr un modd, er bod angen y rhan fwyaf o falansau arian i reoli cynnydd a gostyngiad mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau ariannol y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hir yn cael ei asesu'n ofalus.

### 10.2 Rheoli Risg

Cyngor Sir Ynys Môn yw un o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru. Mae'n cael yr ail setliad isaf gan Lywodraeth Cymru, gyda Merthyr Tudful yn cael yr isaf. Nid oes gan y Cyngor y balansau cyngor mawr sydd gan rai o'r awdurdodau mwy, er bod yna gynghorau mwy gyda balansau tebyg neu lai. Rheoli risg yw'r brif ystyriaeth ar gyfer holl fuddsoddiadau'r Cyngor.

**10.2.1** Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch yn gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r elw (enillion). Nod y Cyngor yw ceisio sicrhau cymaint o elw â phosib ar ei fuddsoddiadau sy'n gyson â'r lefel briodol o ddiogelwch a hylifedd, gydag archwaeth risg y Cyngor am fuddsoddiadau risg isel yn unig.

**10.2.2** Defnyddir **meini prawf** sylfaenol o ran **statws credyd** (Atodiad 7) er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartïon sy'n addas iawn i dderbyn credyd. Mae hyn hefyd yn caniatáu arallgyfeirio ac yn osgoi'r risg sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio ar un gwrthbarti. Y graddfeydd allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartïon yw'r graddfeydd tymor byr a thymor hir.

**10.2.3** **Gwybodaeth arall**: nid statws credyd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad. Mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus, a hynny ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt.

**10.2.4** Gall buddsoddiadau fod yn rhai penodol neu amhenodol (mae Atodiad 7 yn diffinio'r rhain ac yn rhoi rhagor o wybodaeth). Yn unol â'i ofyniad i fuddsoddi mewn buddsoddiadau risg isel, mewn buddsoddiadau penodedig yn unig y bydd y Cyngor yn buddsoddi.

- Mae **buddsoddiadau penodol** yn golygu'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu o fewn blwyddyn, neu fod llai na blwyddyn ar ôl cyn aeddfedu petaent, yn wreiddiol, wedi eu dosbarthu'n fuddsoddiadau amhenodol dim ond oherwydd bod y cyfnod aeddfedu'n fwy na blwyddyn.
- **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd. Gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac / neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r Aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.

**10.2.5** Bydd cyfyngiadau benthyca (symiau ac aeddfedrwydd) i bob gwrthbarti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrics fel y'i nodir yn adran Teilyngdod Credyd y strategaeth hon.

**10.2.6** Bydd y Cyngor hwn yn gosod cyfyngiad ar swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am fwy na 365 diwrnod (gweler Atodiad 10).

**10.2.7** Ni fydd y Cyngor yn buddsoddi mewn gwrthbartïon y tu allan i'r DU oni bai fod y statws credyd yn AAA neu'n uwch ac oni bai bod amgylchiadau eithriadol, megis peryglu teilyngdod credyd buddsoddiadau'r DU. Dim ond gyda gwrthbartïon o wledydd sydd â graddfa **sofraniaeth sylfaenol** penodedig y byddir yn buddsoddi (gweler Atodiad 9).

**10.2.8** Mae'r Cyngor hwn wedi penodi **ymgynghorwyr allanol** i roi cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r cydbwysedd priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd ac elw, o gofio archwaeth risg y Cyngor hwn yng nghyd-destun lefel disgwyliedig y balansau ariannol a bod angen hylifedd trwy gydol y flwyddyn.

**10.2.9.** Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling**.

### 10.3 Polisi Teilyngdod Credyd

**10.3.1** Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau. Wedi rhoi sylw i'r brif egwyddor hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:-

- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddai'n ddoeth ymrwymo arian. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud â'r uchafsymiau y gellir eu buddsoddi.

- Ni fydd yn buddsoddi mewn gwrthbartïon onid oes ganddynt sgôr credyd fel y'i hamlinellir yn Atodiad 7.

**10.3.2** Fel haen ddiogelwch ychwanegol i'r meini prawf statws credyd sylfaenol a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Link Group.

**10.3.3** Mae gwasanaeth teilyngdod credyd Link yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n dibynnu'n ormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.

- Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth drwy ei ddefnydd o wasanaeth teilyngdod credyd *Link*. Os bydd cwymp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrthbarti / cynllun buddsoddi'n cwrdd bellach â meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.

**10.3.4** Ni welwyd lefelau sylweddol o raddfeydd credyd tymor byr a hir yn cael eu hisraddio ers yr argyfwng ym mis Mawrth 2020. Ar y cyfan, lle bu newidiadau, roeddent yn gyfyngedig i Ragolygon. Yn yr un modd, wrth osod isafswm ar gyfer graddfeydd dyled sofran, ni fydd y Cyngor yn gosod isafswm graddfa ar gyfer y DU.

### 10.4 Cyfyngiadau Gwledydd

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd, ac eithrio'r DU, â graddfa credyd sofran sydd o leiaf yn AAA yn ôl Graddfeydd Fitch (neu raddfa gyfatebol arall gan asiantaethau eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn ar ddyddiad yr adroddiad hwn, yn Atodiad 8. Bydd swyddogion yn ychwanegu gwledydd at y rhestr neu'n eu tynnu oddi arni pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn. Yn ymarferol, mae buddsoddiadau'n dueddol o gael eu rhoi ym manciau'r DU am resymau diogelwch. Mae'r rhestr wedi'i chynnwys ar gyfer y digwyddiad annhebygol y bydd angen eithriadol i fuddsoddi mewn gwrthbartïon hynod ddiogel mewn gwledydd eraill. Er enghraifft, os bydd banciau'r DU yn digwydd colli teilyngdod eu credyd ac yn methu meini prawf penodol y Cyngor ar Gwrthbartïon.

## 11. LLYWODRAETHU A RHEOLI

**11.1** Mae'r Cod Darbodus yn adlewyrchu symudiad tuag at awdurdodau lleol yn hunanreoleiddio, ac mae llywodraethu corfforaethol effeithiol yn un o elfennau allweddol gweithrediad llwyddiannus y Cod.

**11.2** Mae Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau isod:-

- Rôl ffurfiol ar gyfer y Swyddog Adran 151;
- Gosod a monitro Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys;
- Cynllun dirprwyo a phroses gymeradwyo ffurfiol;
- Adrodd ar faterion Rheoli'r Trysorlys i Aelodau.

### 11.3 Rôl y Swyddog Adran 151 a'r Aelodau

**11.3.1** Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys a Chyllido Cyfalaf yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn i'w hystyried, a bod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro perfformiad.

**11.3.2** Rhaid i'r Swyddog Adran 151 sicrhau bod dangosyddion darbodus yn cael eu gosod a'u monitro er mwyn dangos y cydymffurfir â'r gofyn deddfwriaethol i sicrhau bod cynlluniau'r Cyngor yn fforddiadwy.

**11.3.3** Mae Aelodau hefyd yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran awdurdodi'r penderfyniadau perthnasol ond hefyd wrth graffu ar brosesau, penderfyniadau a pherfformiad rheoli'r trysorlys. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r swyddog cyfrifol, yn unol â Chod Rheoli Trysorlys CIPFA, sicrhau bod Aelodau sydd â chyfrifoldeb am faterion reoli'r trysorlys yn cael hyfforddiant digonol ar y cyfryw faterion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgriwtini. Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant ar reoli'r trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys ar 14 Medi 2022. Trefnir rhagor o hyfforddiant yn ôl yr angen. Mae anghenion hyfforddiant swyddogion rheoli'r trysorlys yn cael sylw ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**11.3.4** Mae gan swyddogion y Cyngor sy'n ymwneud â gweithgareddau rheoli'r trysorlys wybodaeth a sgiliau cynhwysfawr ar gyfer rheoli swyddogaeth rheoli'r trysorlys. Mae'r Swyddog Adran 151 yn chwarae rhan allweddol mewn Rheoli'r Trysorlys ac mae'n cymeradwyo neu'n gwrthod unrhyw fuddsoddiadau a gynigir gan y tîm. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu hyfforddiant i gynyddu gwybodaeth a sgiliau'r rhai sy'n gyfrifol am reoli, darparu, llywodraethu a gwneud penderfyniadau.

**11.3.5** Bydd Arweinydd y Tîm Perfformiad Adnoddau yn cadw cofnod ffurfiol o'r hyfforddiant a dderbynnir gan swyddogion sy'n ganolog i swyddogaeth y Trysorlys. Yn yr un modd, bydd cofnod ffurfiol o hyfforddiant rheoli'r trysorlys / cyllid cyfalaf a gaiff Aelodau hefyd yn cael ei gadw gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**11.3.6** Mae Cynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys ac esboniad llawnach o rôl y Swyddog Adran 151 i'w gweld yn Atodiad 9.

## 12. CYNGOR AR REOLI'R TRYSORLYS

**12.1** Mae'r Cyngor yn defnyddio Link Group, Link Treasury Services Limited yn ymgynghorwyr allanol iddo ar reoli'r trysorlys. Yn unol â rheoliadau caffael, fe wnaeth y Cyngor ailwahodd tendrau i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn gynnar yn 2021, am y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2024 gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd. Link Group, Treasury Solutions enillodd y tendr hwnnw.

**12.2** Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn aros gyda'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau na fydd yn dibynnu'n afresymol ar ein darparwyr gwasanaeth allanol. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth gan ein hymgynghorwyr trysorlys, ond ni ddibynnir arnyn nhw'n unig. Y Cyngor sy'n parhau i fod â'r cyfrifoldeb terfynol am unrhyw benderfyniadau rheoli'r trysorlys.

## 13. DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS

**13.1** Mae Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys a nodir yn Atodiad 10 yn ymwneud â fforddiadwyedd, bod yn ddarbodus ac maent yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyledion allanol, y meincnod rhwymedigaethau a strwythur aeddfedu dyledion. Mater i'r Cyngor yw gosod y Dangosyddion Darbodus ac mae'n bwysig ystyried y dangosyddion nid yn unig ar gyfer pob blwyddyn unigol ar wahân ond, hefyd, ystyried perfformiad yn y gorffennol a rhagolygon i'r dyfodol. Ceir eglurhad llawnach o bwrpas pob dangosydd yn Atodiad 10.

## 14. ADRODD

**14.1** Mae angen i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf bum prif adroddiad bob blwyddyn, sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol.

- Dangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth y Trysorlys – yr adroddiad cyntaf a'r pwysicaf (sef yr adroddiad hwn) yn edrych at y dyfodol ac yn ymwneud â'r isod:-
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (y modd y bydd buddsoddiadau a benthyciadau'n cael eu trefnu), gan gynnwys dangosyddion rheoli'r trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (y cyfyngiadau o ran rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) (y modd y mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei roi yn erbyn refeniw dros gyfnod o amser);
- Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o bolisïau ac amcanion y swyddogaeth rheoli'r trysorlys); a
- Cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig).

**14.2** Adroddiadau Chwarterol Rheoli'r Trysorlys – bydd rhain yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd y sefyllfa gyfalaf, diwygio dangosyddion darbodus fel y bydd angen ac yn nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i hamcanion ynteu oes angen adolygu unrhyw bolisïau.

**14.3** Adroddiad Blynyddol diwedd blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys – dogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ac yn rhoi manylion detholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol a gweithgareddau gwirioneddol y trysorlys o'u cymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

**14.4** Mae angen craffu digonol ar yr adroddiadau uchod cyn eu hargymell i'r Cyngor. Cyflawnir y rôl hon gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer adroddiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn craffu ar adroddiadau chwarter 1 a chwarter 3 a gyflwynwyd gan Gôd Darbodus 2021.

## 15. CASGLIAD

**15.1** I grynhoi, mae Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25 yn parhau'r strategaeth o ddull ddarbodus o fenthyca, er mwyn cyfyngu'r goblygiadau refeniw, a defnyddio benthyca mewnol pan fo balansau arian parod yn caniatáu. Mae'r strategaeth fuddsoddi'n parhau'r polisi o sicrhau diogelwch ac hylifedd adneuon dros elw.

**15.2** Dros oes y strategaeth, rhagwelir byddai balansau arian parod yn lleihau'n sylweddol pe parheir i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gyfrannu i gyllido'r gyllideb refeniw a pharheir i ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai i gyllido gwariant cyfalaf. Bydd rhaid ymgymryd a lefel uwch o fenthyca er mwyn cyllido rhaglen gyfalaf y Cyngor, tra'n dal i gynnal balansau arian parod digonol i gyllido rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus

**Côd Ymarfer : Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Egwyddorion allweddol CIPFA ***Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus : Côd Ymarfer (Cyfrol 2021)***, fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw yw:-

**Egwyddor Allweddol 1:**
Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus sefydlu amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr i reoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys mewn modd effeithiol.

**Egwyddor Allweddol 2:**
Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir mai rheoli risgiau mewn modd effeithiol yw'r prif amcan yn eu gweithgareddau rheoli trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn disgyn yn ddiamwys ar y sefydliadau eu hunain. Dylai eu harchwaeth risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer rheolaeth ddarbodus o'r risgiau hynny, a dylid sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd y portffolio wrth fuddsoddi arian rheoli trysorlys.

**Egwyddor Allweddol 3:**
Dylent gydnabod bod ceisio gwerth am arian yn y maes rheoli trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn ystyriaethau dilys a phwysig i sefydliadau cyfrifol eu defnyddio i gynorthwyo i gwrdd ag amcanion eu busnes a'u gwasanaethau; ac, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol, dylai eu polisïau a'u harferion rheoli trysorlys adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud bod:-

"Wrth lunio'r argymhellion hyn mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ran ymdrechu i reoli risg yn effeithiol, tra'n anelu at sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn orbenodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo i sectorau penodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes rheoli trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian, fel arwydd o swyddogaeth rheoli trysorlys sy'n perfformio'n gryf".

"Barn CIPFA, trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus, yw mai'r flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosib. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cydbwysedd a chyfrifoldeb llym am arian cyhoeddus."

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog:-

**1.** Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys:-

- datganiad ar y polisi rheoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisïau, yr amcanion a'r dull o reoli risg yn ei weithgareddau rheoli trysorlys; ac

- arferion rheoli trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn nodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi a'r ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig ar newid lle bo angen i adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. Ni fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.

2. Bydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yn cynnwys Strategaeth a Chynllun Blynyddol cyn y flwyddyn, adroddiad adolygu canol blwyddyn a hefyd adroddiad blynyddol ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, mewn ffurf sydd wedi ei ragnodi gan yr ARhT.

3. Y Cyngor Sir/Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am weithredu Polisïau ac Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am weithredu a gweinyddu penderfyniadau Rheoli Trysorlys, a bydd yn gweithredu yn unol â Datganiad Polisi'r Awdurdod ar yr ARhT ac os yw'n aelod o CIPFA, yn unol â Safon Arferion Proffesiynol CIPFA ar faterion Rheoli Trysorlys.

4. Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau y creffir yn effeithiol ar strategaethau a pholisïau rheoli trysorlys.

## ECONOMIC BACKGROUND


- The third quarter of 2023/24 saw:
  - A 0.3% m/m decline in real GDP in October, potentially partly due to unseasonably wet weather, but also due to the ongoing drag from higher interest rates. Growth for the second quarter, ending 30th September, was revised downwards to -0.1% and growth on an annual basis was also revised downwards, to 0.3%;
  - A sharp fall in wage growth, with the headline 3myy rate declining from 8.0% in September to 7.2% in October, although the ONS "experimental" rate of unemployment has remained low at 4.2%;
  - CPI inflation continuing on its downward trajectory, from 8.7% in April to 4.6% in October, then again to 3.9% in November;
  - Core CPI inflation decreasing from April and May's 31 years' high of 7.1% to 5.1% in November, the lowest rate since January 2022;
  - The Bank of England holding Bank Rate at 5.25% in November and December;
  - A steady fall in 10-year gilt yields as investors revised their interest rate expectations lower.
- The revision of GDP data in Q2 to a 0.1% q/q fall may mean the mildest of mild recessions has begun. Indeed, real GDP in October fell 0.3% m/m which does suggest that the economy may stagnate again in Q3. The weakness in October may partly be due to the unseasonably wet weather. That said, as the weakness was broad based it may also be the case that the ongoing drag from higher interest rates is more than offsetting any boost from the rise in real wages.
- However, the rise in the flash composite activity Purchasing Managers Index, from 50.7 in November to 51.7 in December, did increase the chances of the economy avoiding a contraction in Q3. The improvement was entirely driven by the increase in the services activity balance from 50.9 to 52.7. (Scores above 50 point to expansion in the economy, although only tepid in this instance.) The press release noted that this was primarily driven by a revival in consumer demand in the technological and financial services sectors. This chimes with the further improvement in the GfK measure of consumer confidence in December, from -24 to -22. The services PMI is now consistent with non-retail services output growing by 0.5% q/q in Q3, but this is in stark contrast to the manufacturing sector where the output balance slumped from 49.2 to 45.9 and, at face value, the output balance is consistent with a 1.5% q/q fall in manufacturing output in Q3.
- The 0.3% m/m fall in retail sales volumes in October means that after contracting by 1.0% q/q (which was downwardly revised from -0.8% q/q) in Q2, retail activity remained weak at the start of Q3. That suggests higher interest rates are taking a bigger toll on real consumer spending.
- Higher interest rates have filtered through the financial channels and weakened the housing market but, overall, it remains surprisingly resilient with the Halifax house price index recently pointing to a 1.7% year on year increase whilst Nationwide's December data pointed to a -1.8% year on year decrease. However, the full weakness in real consumer spending and real business investment has yet to come as currently it is estimated that around two thirds to a half of the impact of higher interest rates on household interest payments has yet to be felt.
- Overall, we expect real GDP growth to remain subdued throughout 2024 as the drag from higher interest rates is protracted but a fading of the cost-of-living crisis and interest rate cuts in the second half of 2024 will support a recovery in GDP growth in 2025.


- The labour market remains tight by historical standards, but the sharp fall in wage growth seen in October will reinforce the growing belief in markets that interest rates will be cut mid-2024. Wage growth eased in October much faster than the consensus expected. Total earnings fell by 1.6% m/m, which meant the headline 3myy rate eased from 8.0% in September to 7.2% in October. This news will be welcomed by the Bank of England. Indeed, the timelier three-month annualised rate of average earnings growth fell from +2.4% to -1.2%. Excluding bonuses, it fell from 5.3% to 2.0%. Furthermore, one of the Bank's key barometers of inflation persistence, regular private sector pay growth, dropped from 7.9% 3myy to 7.3%, which leaves it comfortably on track to fall to 7.2% by December, as predicted by the Bank in November.
- The fall in wage growth occurred despite labour demand being stronger in October than expected. The three-month change in employment eased only a touch from +52,000 in September to +50,000 in October. But resilient labour demand was offset by a further 63,000 rise in the supply of workers in the three months to October. That meant labour supply exceeded its pre-pandemic level for the first time, and the unemployment rate remained at 4.2% in October. In the three months to November, the number of job vacancies fell for the 17th month in a row, from around 959,000 in October to around 949,000. That has reduced the vacancy to unemployment ratio as demand for labour eases relative to supply, which may support a further easing in wage growth in the coming months.
- CPI inflation fell from 6.7% in September to 4.6% in October, and then again to 3.9% in November. Both these falls were bigger than expected and there are clear signs of easing in domestic inflationary pressures. The fall in core CPI inflation from 5.7% to 5.1% in November was bigger than expected (consensus forecast 5.6%). That's the lowest rate since January 2022. Some of the decline in core inflation was due to the global influence of core goods inflation, which slowed from 4.3% to 3.3%. But some of it was due to services inflation falling from 6.6% to 6.3%. The Bank views the latter as a key barometer of the persistence of inflation and it came in further below the Bank's forecast of 6.9% in its November Monetary Policy Report. This will give the Bank more confidence that services inflation is now on a firmly downward path.
- The Bank of England sprung no surprises with its December monetary policy committee (MPC) meeting, leaving interest rates at 5.25% for the third time in a row and pushing back against the prospect of near-term interest rate cuts. The Bank continued to sound hawkish, with the MPC maintaining its tightening bias saying that "further tightening in monetary policy would be required if there were evidence of more persistent inflationary pressures". And it stuck to the familiar script, saying that policy will be "sufficiently restrictive for sufficiently long" and that "monetary policy is likely to need to be restrictive for an extended period of time". In other words, the message is that the MPC is not yet willing to endorse investors' expectations that rates will be cut as soon as May 2024.
- Looking ahead, our colleagues at Capital Economics forecast that the recent downward trends in CPI and core inflation will stall over the next few months before starting to decline more decisively again in February. That explains why we think the Bank of England won't feel comfortable cutting interest rates until H2 2024.
- The fall in UK market interest rate expectations in December has driven most of the decline in 10-year gilt yields, which have fallen in line with 10-year US Treasury and euro-zone yields. 10-year gilt yields have fallen from 4.68% in October 2023 to around 3.70% in early January, with further declines likely if the falling inflation story is maintained.
- Investors' growing expectations that the Fed will cut interest rates soon has led to an improvement in risk sentiment, which has boosted the pound and other risky assets. In addition, the rise in the pound, from $1.21 in November to $1.27 now, has also been supported by the recent relative decline in UK wholesale gas prices.

- The further fall in 10-year real gilt yields in December has supported the recent rise in the FTSE 100. That said, the index remains 5% below its record high in February 2023. This modest rise in equities appears to have been mostly driven by strong performances in the industrials and rate-sensitive technology sectors. But UK equities have continued to underperform US and euro-zone equities. The FTSE 100 has risen by 2.2% in December, while the S&P 500 has risen by 3.8%. This is partly due to lower energy prices, which have been a relatively bigger drag on the FTSE 100, due to the index's high concentration of energy companies.

In the chart below, the rise in gilt yields across the curve in the first half of 2023/24, and therein PWLB rates, is clear to see, prior to the end of year rally based on a mix of supportive domestic and international factors.

**PWLB RATES 3.4.23 - 29.12.23**






**HIGH/LOW/AVERAGE PWLB RATES FOR 3.4.23 – 29.12.23**

| | 1 Year | 5 Year | 10 Year | 25 Year | 50 Year |
|---|---|---|---|---|---|
| **Low** | 4.65% | 4.13% | 4.20% | 4.58% | 4.27% |
| **Date** | 06/04/2023 | 27/12/2023 | 06/04/2023 | 06/04/2023 | 05/04/2023 |
| **High** | 6.36% | 5.93% | 5.53% | 5.96% | 5.74% |
| **Date** | 06/07/2023 | 07/07/2023 | 23/10/2023 | 23/10/2023 | 23/10/2023 |
| **Average** | 5.60% | 5.09% | 5.03% | 5.35% | 5.08% |
| **Spread** | 1.71% | 1.80% | 1.33% | 1.38% | 1.47% |

**MPC meetings 2nd November and 14th December 2023**

- On 2nd November, the Bank of England's Monetary Policy Committee (MPC) voted to keep Bank Rate on hold at 5.25%, and on 14th December reiterated that view. Both increases reflected a split vote, the latter by 6 votes to 3, with the minority grouping voting for an increase of 0.25% as concerns about "sticky" inflation remained in place.
- Nonetheless, with UK CPI inflation now at 3.9%, and core inflating beginning to moderate (5.1%), markets are voicing a view that rate cuts should begin in Q1 2024/25, some way ahead of the indications from MPC members. Of course, the data will be the ultimate determinant, so upcoming publications of employment, wages and inflation numbers will be of particular importance, and on-going volatility in Bank Rate expectations and the gilt yield curve can be expected.
- In addition, what happens outside of the UK is also critical to movement in gilt yields. The US FOMC has kept short-term rates in the range of 5.25%-5.50%, whilst the ECB has moved its Deposit rate to a probable peak of 4%. Markets currently expect both central banks to start cutting rates in 2024.

| PWLB debt | Current borrowing rate as at 08.01.24 p.m. | Target borrowing rate now (end of Q4 2025) | Target borrowing rate previous (end of Q3 2025) |
|---|---|---|---|
| 5 years | 4.53% | 3.70% | 3.80% |
| 10 years | 4.67% | 3.90% | 3.80% |
| 25 years | 5.19% | 4.20% | 4.20% |
| 50 years | 4.97% | 4.00% | 4.00% |

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Group, Treasury Solutions*

**Rhagolygon Graddfeydd Llog 2024/2025**

**Interest Rate Forecasts 2024/2025**

PWLB rates and forecast shown below have taken into account the 20 basis point certainty rates.

| Interest Rate Forecasts | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bank Rate** | **Mar-24** | **Jun-24** | **Sep-24** | **Dec-24** | **Mar-25** | **Jun-25** | **Sep-25** | **Dec-25** |
| Link | 5.25% | 5.25% | 4.75% | 4.25% | 3.75% | 3.25% | 3.00% | 3.00% |
| Cap Econ | 5.25% | 5.00% | 4.50% | 4.00% | 3.50% | 3.00% | 3.00% | 3.00% |
| **5Y PWLB RATE** | | | | | | | | |
| Link | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% | 3.80% | 3.70% |
| Cap Econ | 4.50% | 4.30% | 4.20% | 4.00% | 3.90% | 3.80% | 3.80% | 3.70% |
| **10Y PWLB RATE** | | | | | | | | |
| Link | 4.70% | 4.50% | 4.40% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 4.00% | 3.90% |
| Cap Econ | 4.50% | 4.40% | 4.20% | 4.10% | 4.10% | 4.10% | 4.10% | 4.10% |
| **25Y PWLB RATE** | | | | | | | | |
| Link | 5.20% | 5.10% | 4.90% | 4.80% | 4.60% | 4.40% | 4.30% | 4.20% |
| Cap Econ | 5.10% | 4.80% | 4.60% | 4.30% | 4.40% | 4.40% | 4.50% | 4.60% |
| **50Y PWLB RATE** | | | | | | | | |
| Link | 5.00% | 4.90% | 4.70% | 4.60% | 4.40% | 4.20% | 4.10% | 4.00% |
| Cap Econ | 4.70% | 4.60% | 4.50% | 4.30% | 4.30% | 4.30% | 4.40% | 4.40% |

*Additional notes by Link on this forecast table: -*

- Our central forecast for interest rates was previously updated on 7 November and reflected a view that the MPC would be keen to further demonstrate its anti-inflation credentials by keeping Bank Rate at 5.25% until at least H2 2024. We expect rate cuts to start when both the CPI inflation and wage/employment data are supportive of such a move, and when there is a likelihood of the overall economy enduring at least a slowdown or mild recession over the coming months (although most recent GDP releases have surprised with their on-going robustness).
- Naturally, timing on this matter will remain one of fine judgment: cut too soon, and inflationary pressures may well build up further; cut too late and any downturn or recession may be prolonged.
- In the upcoming months, our forecasts will be guided not only by economic data releases and clarifications from the MPC over its monetary policies and the Government over its fiscal policies, but also international factors such as policy development in the US and Europe, the provision of fresh support packages to support the faltering recovery in China as well as the on-going conflict between Russia and Ukraine, and Gaza and Israel.

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Group*

| DADANSODDIAD BENTHYCIADAU PWLB YN AEDDFEDU 2024/25 YMLAEN / PWLB LOANS MATURITY ANALYSIS 2024/25 ONWARDS | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Aeddefedu PWLB Maturity £'000** | **Blwydd-dal PWLB EIP/ Annuity £'000** | **Benthyciadau Marchnad/ Market Loans £'000** | **Amrywiol/ PWLB Variable £'000** | **Cyfanswm yn Aeddfedu/ Total Maturing £'000** | **%Yn Aeddfedu o'r Cyfran yn sefyll/ Maturing of Total Outstanding %** |
| 2024/25 | 0 | 18 | 0 | 0 | 18 | 0.0 |
| 2025/26 | 0 | 20 | 0 | 0 | 20 | 0.0 |
| 2026/27 | 1,381 | 22 | 0 | 0 | 1,403 | 1.2 |
| 2027/28 | 2,165 | 24 | 0 | 0 | 2,189 | 1.9 |
| 2028/29 | 262 | 26 | 0 | 0 | 288 | 0.2 |
| 2029/30 | 1,539 | 21 | 0 | 0 | 1,560 | 1.3 |
| 2030/31 | 451 | 15 | 0 | 0 | 466 | 0.4 |
| 2031/32 | 1,941 | 9 | 0 | 0 | 1,950 | 1.7 |
| 2032/33 | 315 | 7 | 0 | 0 | 322 | 0.3 |
| 2033/34 | 637 | 0 | 0 | 0 | 637 | 0.6 |
| 2034/35 | 624 | 0 | 0 | 0 | 624 | 0.5 |
| 2035/36 | 611 | 0 | 0 | 0 | 611 | 0.5 |
| 2036/37 | 599 | 0 | 0 | 0 | 599 | 0.5 |
| 2037/38 | 587 | 0 | 0 | 0 | 587 | 0.5 |
| 2038/39 | 226 | 0 | 0 | 0 | 226 | 0.2 |
| 2039/40 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 4.2 |
| 2040/41 | 3,500 | 0 | 0 | 0 | 3,500 | 3.0 |
| 2042/43 | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 1,000 | 0.8 |
| 2043/44 | 1,020 | 0 | 0 | 0 | 1,020 | 0.9 |
| 2044/45 | 1,010 | 0 | 0 | 0 | 1,010 | 0.9 |
| 2045/46 | 11,464 | 0 | 0 | 0 | 11,464 | 9.7 |
| 2050/51 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 1.7 |
| 2052/53 | 28,238 | 0 | 0 | 0 | 28,238 | 24.0 |
| 2054/55 | 3,000 | 0 | 0 | 0 | 3,000 | 2.6 |
| 2055/56 | 3,500 | 0 | 0 | 0 | 3,500 | 3.0 |
| 2056/57 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 4.2 |
| 2057/58 | 8,513 | 0 | 0 | 0 | 8,513 | 7.2 |
| 2059/60 | 1,763 | 0 | 0 | 0 | 1,763 | 1.5 |
| 2064/65 | 10,000 | 0 | 0 | 0 | 10,000 | 8.5 |
| 2066/67 | 6,200 | 0 | 0 | 0 | 6,200 | 5.3 |
| 2068/69 | 15,000 | 0 | 0 | 0 | 15,000 | 12.7 |
| | **117,546** | **162** | **0** | **0** | **117,708** | **100.0** |
| Cyfartaledd bywyd (blynyddoedd)/ Average life (years) | 31.14 | 3.42 | 0.00 | 0.00 | 31.10 | |
| Cyfartaledd graddf (%)/ Average rate (%) | 4.47 | 9.42 | 0.00 | 0.00 | 4.47 | |

| PROFFIL AD-DALU BENTHYCIADAU ERAILL 2024/25 YMLAEN / OTHER LOANS REPAYMENT PROFILE 2024/25 ONWARDS | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Benthyciad Salix Loan 1**<br><br>**£'000** | **Benthyciad Salix Loan 2**<br><br>**£'000** | **Benthyciad Salix Loan 3**<br><br>**£'000** | **Benthyciad Salix Loan**<br><br>**£'000** | **Benthyciad Salix Loan 5**<br><br>**£'000** | **Benthyciad Salix Loan 6**<br><br>**£'000** | **Cyfanswm / Total**<br><br>**£'000** |
| 2024/25 | 8 | 46 | 64 | 26 | 220 | 264 | 628 |
| 2025/26 | 0 | 45 | 64 | 26 | 220 | 264 | 619 |
| 2026/27 | 0 | 0 | 64 | 27 | 220 | 264 | 575 |
| 2027/28 | 0 | 0 | 63 | 27 | 220 | 264 | 574 |
| 2028/29 | 0 | 0 | 63 | 27 | 220 | 264 | 574 |
| 2029/30 | 0 | 0 | 0 | 13 | 221 | 265 | 499 |
| 2030/31 | 0 | 0 | 0 | 0 | 221 | 265 | 486 |
| 2031/32 | 0 | 0 | 0 | 0 | 221 | 265 | 486 |
| 2032/33 | | | | | | 265 | 265 |
| 2033/24 | | | | | | 265 | 265 |
| 2034/35 | | | | | | 265 | 265 |
| 2035/36 | | | | | | 265 | 265 |
| **Cyfanswm / Total** | 8 | 91 | 318 | 146 | 1,763 | 3,175 | 5,501 |

**Datganiad Polisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ar gyfer 2024/25**

Rhaid i'r Cyngor dalu elfen o wariant cyfalaf y Cyngor a'r CRT sydd wedi cronni bob blwyddyn (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf - GCC) drwy dâl refeniw (y ddarpariaeth refeniw isaf - DRI), er y caniateir iddo hefyd wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol os oes angen (darpariaeth refeniw wirfoddol - VRP).

Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DRI cyn pob blwyddyn. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi "os cynigir amrywio telerau'r datganiad gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor bryd hynny". Rhoddir nifer o opsiynau i gynghorau, ar yr amod bod darpariaeth ddarbodus. Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad DRI isod, sydd heb newid o bolisi DRI 2023/24:-

O 1 Ebrill 2022, ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sydd wedi ei gyllido drwy fenthyca â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth (CFR), codir DRI drwy ddefnyddio'r dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Mae'n bosib na fydd taliadau DRI sy'n seiliedig ar ddull blwydd-dal oes ased yn dod i rym tan y flwyddyn y daw'r ased yn weithredol. Gall y Swyddog Adran 151 ohirio'r tâl DRI tan y flwyddyn gyllidol sy'n dilyn y flwyddyn y daw'r ased yn weithredol. Bydd amcangyfrifo oes yr ased, cael ei benderfynu yn y flwyddyn y bydd y DRI yn dechrau ac ni fydd yn newid dros oes yr ased. Y Swyddog Adran 151 fydd yn amcangyfrifo oes yr ased, yn seiliedig ar gyngor a dderbynnir gan y swyddogion perthnasol, gan ystyried y gofynion Statudol a chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r DRI ac oes asedau. Pan fo tir yn cael ei brynu, bydd oed yr ased yn seiliedig ar oes yr ased a roddir ar y tir, sef 50 mlynedd yn rhan fwyaf o achosion, a hynny'n unol â hyd oes adeiladau fel asedau.

Oherwydd nad yw rhai mathau o wariant cyfalaf a wneir gan y Cyngor yn rhai y gellir eu cysylltu ag ased unigol, bydd oes ased yn cael ei hasesu ar sail sydd yn adlewyrchu'n fwyaf rhesymol am ba hyd y rhagwelir y ceir budd o'r gwariant. Hefyd, pa fath bynnag o wariant ydyw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif elfen y gwariant ac ni fydd ond yn cael ei rannu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes economaidd ddefnyddiol sylweddol wahanol i'w gilydd.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol i leihau dyled os ystyrir ei bod yn ddoeth gwneud hynny.

Bydd yr DRI a godir ar y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am ei gyfran o'r benthyca â chefnogaeth a digefnogaeth, hefyd yn seiliedig ar y dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Bydd unrhyw ad-daliadau sydd wedi eu cynnwys yn y PFI blynyddol neu brydlesau cyllid yn cael eu gweithredu fel DRI ac yn gyson â'r sail blwydd-dal oes ased dros oes y brydles neu'r cynllun PFI.

**ATODIAD 6**

**Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol**

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2010) yn rhoi diffiniad o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol.

Mae paragraff 5.1 y Canllawiau yn dweud bod buddsoddiad yn un penodol os yw'n cwrdd â phob un o'r isod:-

**(a)** bod y buddsoddiad yn cael ei wneud mewn sterling ac mae unrhyw daliadau neu ad-daliadau mewn perthynas â'r buddsoddiad yn daladwy mewn sterling yn unig; a

**(b)** nid yw'r buddsoddiad yn un tymor hir (*); a

**(c)** nad yw gwneud y buddsoddiad yn cael ei ddiffinio'n wariant cyfalaf yn rhinwedd rheoliad 20 (1) (d) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 [OS 3239 fel y'i diwygiwyd]; a

**(d)** gwneir y buddsoddiad gyda chorff neu mewn cynllun buddsoddi o ansawdd credyd uchel (**); neu gydag un o'r cyrff sector cyhoeddus canlynol:

**(i)** Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
**(ii)** awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y diffinnir yn adran 23 o Ddeddf 2003) neu gorff tebyg yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;
**(iii)** cyngor plwyf neu gymuned.

Mae'r Canllawiau hefyd yn dweud bod unrhyw fuddsoddiad nad yw'n cwrdd â'r diffiniad ym mharagraff 5.1 yn cael ei gyfrif fel buddsoddiad amhenodol.

Yn ystod 2024/25 nid yw'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi mewn arian gwledydd tramor, na chyda chyrff ansawdd credyd isel, nac unrhyw fuddsoddiadau a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf gan y ddeddfwriaeth (megis cyfranddaliadau mewn cwmnïau). Bydd buddsoddiadau amhenodol felly yn cael eu cyfyngu i (i) buddsoddiadau tymor hir; a (ii) adneuon gyda banciwr y Cyngor i ddibenion gwneud trafodion os yw'n methu a chwrdd â'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y credyd; yn yr achos hwn, caiff balansau eu cyfyngu i'r eithaf lle mae hynny'n bosib.

Mae'r tabl yn Atodiad 7 yn nodi'r meini prawf a'r cyfyngiadau buddsoddi ar gyfer y gwahanol gategorïau o fuddsoddiadau y bwriedir eu defnyddio yn ystod 2024/25 ac sydd, felly, yn sail ar gyfer y rhestr fenthyca a gymeradwyir.

Bydd raid i'r Cyngor Sir gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw newidiadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i gategorïau o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol a ddefnyddir ac/neu i'r meini prawf graddfeydd credyd / cyfyngiadau buddsoddi.

## Meini Prawf Gwrthbartïon

| Categori | Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch) | Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's) | Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's) | Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's) | Terfyn Arian | Terfyn Amser |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (sydd heb eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol) | F1+ | P-1 | A-1+ | AAA | Aaa | AAA | £10m | 5 mlynedd |
| | F1+ | P-1 | A-1+ | AA | Aa2 | AA | £10m | 3 mlynedd |
| | F1+ | P-1 | A-1+ | AA- | Aa3 | AA- | £10m | 364 diwrnod |
| | F1 | P-1 | A-1 | A | A2 | A | £7.5m | 6 mis |
| Banciau'r Deyrnas Unedig sydd wedi eu Gwladoli / eu Gwladoli'n Rhannol | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | £10m | 364 diwrnod |
| Banc y NatWest (wedi ei Wladoli'n Rhannol) | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | £30m | 364 diwrnod |
| Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Unedig (waeth beth fo'r raddfa credyd) | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | Dim uchafswm | Dim uchafswm |
| Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig ** | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | d/b | £10m | 364 diwrnod |
| Cronfeydd Marchnad Arian | d/b | d/b | d/b | AAA | AAA | AAA | £5m | 6 mis |

***fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003*

**Nodiadau ac Eglurhad**

**(1) Terfyn Arian Parod**

**(i)** Mae'r terfynau arian yn berthnasol i'r gwrthbarti unigol ac i'r grŵp cyffredinol y mae'n perthyn iddo. (e.e. ar gyfer y banciau o fewn Grŵp Bancio Lloyds plc (sef Bank of Scotland plc a Lloyds Bank plc) mae'r terfyn buddsoddi yn berthnasol i'r banciau hynny'n unigol a'r grŵp bancio yn ei gyfanrwydd);

**(ii)** Y terfyn arian cyffredinol ar gyfer adneuon dros 364 o ddyddiau yw £15m.

**(2) Terfyn Amser**

**(i)** I fyny at, a chan gynnwys y cyfnod a nodwyd.

**(3) Arian Gwledydd Tramor**

**(i)** Bydd buddsoddiadau mewn gwledydd tramor wedi eu cyfyngu i'r rheini a chanddynt raddfa credyd sofran AA- (Fitch) neu gyfatebol (o'r asiantaethau y cyfeiriwyd atynt yn adran 4.3 o'r strategaeth hon) - (yn seiliedig ar y cyfenwadur lleiaf) a hyd at uchafswm o £10 miliwn fesul gwlad dramor.

**(ii)** Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd nad yw'r raddfa sofran isaf yn AA- neu'n uwch. Ni fydd cyfyngiad gwlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y Deyrnas Unedig waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.

**(iii)** Bydd is-gwmnïau o grwpiau banciau tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y rhiant-sefydliad. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Banco Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y Deyrnas Unedig oherwydd ei fasnachfreintiau sylweddol yn y Deyrnas Unedig a natur hyd braich y berthynas rhwng y rhiant gwmni a'r is-gwmni.

**(4) Graddfa Credyd yn Gostwng**

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw, gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol cyn gynted ag y gellir.

**Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [yn gywir fel ar 19 Rhagfyr 2022]**

*Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar y gwledydd hynny sydd â graddfa sofran o AA- neu uwch (rydym yn dangos y raddfa isaf gan Fitch, Moody's a S&P) a hefyd, (ac eithrio - ar adeg ysgrifennu - ar gyfer Hong Kong a Lwcsembwrg) a chanddynt fanciau sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sterling sydd â statws credyd gwyrdd neu uwch yng ngwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services.*

***Yn seiliedig ar y raddfa isaf sydd ar gael***

AAA

- Awstralia
- Denmarc
- Yr Almaen
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

AA+

- Canada
- Y Ffindir
- U.D.A

AA

- Abu Dhabi (Yr Emiraethau Arabaidd Unedig)

AA-

- Gwlad Belg
- Qatar
- Ffrainc (wedi' hisraddio gan Fitch 2023)
- **Y D.U.**

**Cynllun Dirprwyo ar gyfer materion Rheoli Trysorlys**

**(i) Cyngor Sir**

- Cymeradwyo'r Gyllideb;
- Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR), Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol a diwygiadau iddynt;
- Cymeradwyo diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys; a
- Gweithredu ar argymhelliad a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a/neu'r Pwyllgor Gwaith.

**(ii) Pwyllgor Gwaith**

- Ystyried y gyllideb;
- Cymeradwyo rhannu cyfrifoldebau;
- Cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar delerau penodi;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel sy'n briodol; a
- Gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**(iii) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Craffu ar faterion Rheoli Trysorlys, fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:-

  - Craffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Flynyddol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
  - Craffu ar gynigion am ddiwygiadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys ac i'r diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
  - Derbyn a chraffu ar unrhyw gynigion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys ac sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir; a
  - Derbyn a chraffu ar adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol.

**Rôl Rheoli Trysorlys y Swyddog Adran 151**

**Mae rôl y Swyddog Adran 151 (y swyddog cyfrifol) yn**

**cynnwys:**


- argymell cymalau, polisi/arferion rheoli trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y polisi rheoli trysorlys;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r gyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth reoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys;

- sicrhau digonolrwydd y gwaith archwilio mewnol, a chydgysylltu ag archwilwyr allanol;
- argymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol;
- mae cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthyca, buddsoddi ac ariannu, wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli Trysorlys;
- paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli trysorlys o fewn amserlen tymor hir;
- sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir a'i bod yn darparu gwerth am arian;
- sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag archwaeth risg yr Awdurdod;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar asedau anariannol a'u cyllido;
- sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r Awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr Awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol;
- sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir;
- rhoi i Aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol;
- sicrhau bod Aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r Awdurdod yn agored iddynt;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod yr arbenigedd digonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod;
- creu Arferion Rheoli Trysorlys sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-
    - Rheoli risg (ARhT1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddi sylweddol nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys;
    - Mesur a rheoli perfformiad (ARhT2 a'r atodlenni), gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;
    - Gwneud penderfyniadau, llywodraethu a threfniadaeth (ARhT5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad ar ofynion llywodraethiant ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;
    - Gwybodaeth reoli ac adrodd (ARhT6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;
    - Hyfforddiant a chymwysterau (ARhT10 a'r atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

## DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS — ATODIAD 10
## GOSOD CYLLIDEB 2024/25

| Rhif | Dangosydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Fforddiadwyedd** | **2022/23 gwirioneddol** | **2023/24 amcangyfrif** | **2024/25 cynnig** | **2025/26 cynnig** | **2026/27 cynnig** |
| **1,2** | Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd refeniw net: | | | | | |
| | Cronfa’r Cyngor | 3.11% | 2.31% | 3.12% | 3.20% | 3.15% |
| | Cyfrif Refeniw Tai (yn cynnwys setliad) | 7.26% | 6.10% | 10.38% | 13.19% | 14.72% |
| | Cyfanswm | 3.57% | 2.73% | 3.89% | 4.24% | 4.35% |
| | **Bod yn ddarbodus** | | | | | |
| **3** | Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Ydy dyled allanol gros yn llai na'r GCC am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol? | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| | **Gwariant cyfalaf** | **£’000** | **£’000** | **£’000** | **£’000** | **£’000** |
| **4,5** | Amcangyfrif o [neu wir] wariant cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa’r Cyngor | 29,510 | 32,330 | 15,565 | 5,028 | 4,836 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 11,180 | 18,192 | 35,145 | 29,974 | 26,291 |
| | Cyfanswm | **40,690** | **50,522** | **50,710** | **35,002** | **31,127** |
| **6,7** | Amcangyfrif o’r Gofyniad Cyllido Cyfalaf, neu’r gwir Ofyniad Cyllido Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa’r Cyngor | 105,825 | 112,483 | 116,485 | 117,598 | 118,670 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 38,287 | 38,105 | 55,506 | 70,640 | 79,851 |
| | Cyfanswm | **144,112** | **150,588** | **171,991** | **188,238** | **198,521** |
| | **Dyled Allanol** | **£’000** | **£’000** | **£’000** | **£’000** | **£’000** |
| **8** | Terfyn Awdurdodedig | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 175,000 | 175,000 | 205,664 | 215,696 | 225,642 |
| | : Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 5,000 | 5,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| | : Cyfanswm | **180,000** | **180,000** | **215,664** | **225,696** | **235,642** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **9** | Terfyn gweithredol | | | | | |
| | : Benthyca cyffredinol | 170,000 | 170,000 | 200,664 | 210,696 | 220,642 |
| | : Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 5,000 | 5,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| | : Cyfanswm | **175,000** | **175,000** | **210,664** | **220,696** | **230,642** |
| **10** | Dyled Allanol Awirioneddol | **125,348** | | | | |
| **Rheoli'r Trysorlys** | | **2022/23 gwirioneddol** | **2023/24 amcangyfrif** | **2024/25 cynnig** | **2025/26 cynnig** | **2026/27 cynnig** |
| **11** | Y terfyn ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am gyfnodau o fwy na 364 diwrnod | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 |
| | (bydd unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a ddygir ymlaen o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys yn y terfyn ar gyfer pob blwyddyn) | | | | | |
| | | | **2024/25 Terfyn uchaf** | | **2024/25 Terfyn isaf** | |
| **12** | Y terfynau uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedrwydd benthyciadau ar gyfraddau sefydlog | | | | | |
| | • dan 12 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 12 months ac o fewn 24 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 24 months ac o fewn 5 mlynedd | | 50% | | 0% | |
| | • 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | | 75% | | 0% | |
| | • 10 mlynedd a thrososdd | | 100% | | 0% | |
| | | | Dim newid | | Dim newid | |
| **13** | Meincnod Rhwymedigaethau (gweler y siart isod) | | | | | |


Liability Benchmark 23/24 - 27/28
250,000
200,000
150,000
100,000
50,000
-
£'Millions
23/24
24/25
25/26
26/27
27/28
Loans CFR
Gross Loans Requirement (Benchmark)
Forecast Net Loan Debt (Net Loans Requirement)
Total Existing Loan Debt Outstanding

ATODIAD 11

**ATODIAD 11**

**Gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys**

**DANGOSYDDION DARBODUS**

**A) Fforddiadwyedd**

**1 a 2 Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd refeniw net**

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau rhwymedigaethau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyllido yn cynnwys ymrwymiadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

**(B) Bod yn Ddarbodus**

**3 Dyled Gros a'r GCC**

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2024/25 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn rhoi peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau na fyddir yn benthyca i ddibenion refeniw.

**C) Gwariant Cyfalaf**

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw'r gyrwyr allweddol o ran gweithgareddau rheoli trysorlys. Adlewyrchir allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf yn y dangosyddion darbodus, sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo aelodau i gael trosolwg o'r sefyllfa gyfalaf a chadarnhau cynlluniau gwariant cyfalaf.

Mae'n darparu crynodeb o wariant cyfalaf y Cyngor. Mae'n adlewyrchu materion y cytunwyd arnynt eisoes a chynlluniau arfaethedig ar gyfer cyfnodau ariannol yn y dyfodol.

Bydd lefel cyllido gwariant o'r fath yn dylanwadu ar y newid yn y dangosydd ar gyfer Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor.

**4 a 5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf**

Dyma'r Gwariant Cyfalaf a ragamcenir o 2022/23 hyd at 2025/26 ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25.

**6 a 7 Anghenion Benthyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)**

Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi talu amdano ar unwaith o ffynhonnell refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth Refeniw isaf (DRI) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased ac felly mae'n dâl ar y defnydd economaidd o asedau cyfalaf wrth iddynt gael eu defnyddio.

Mae’r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu’r GCC ac o’r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthyca, mae’r mathau hyn o gynlluniau’n cynnwys cyfleuster benthyca ac o’r herwydd, nid oes raid i’r Cyngor fenthyca ar wahân ar gyfer y cynllun

**CH) Dyled Allanol**

**8.** **Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol**. Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn rheoli’r uchafswm benthyca. Gwaherddir dyledion allanol y tu hwnt i’r terfyn hwn ac mae angen i’r Cyngor llawn osod neu ddiwygio’r terfyn. Mae’n adlewyrchu’r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny’n beth a ddeisyfir, ei fforddio yn y tymor byr ond nad yw’n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma’r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae’r Llywodraeth yn cadw’r opsiwn i reoli naill ai’r cyfan o gynlluniau’r holl Gynghorau, neu gynlluniau Cyngor penodol, er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio’r pŵer hwnnw.

Dywed y Swyddog Adran 151 bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda’r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw’n rhagweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymiadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a’r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb**.**

**9.** **Y ffin weithredol.** Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai’n ffigwr tebyg i GCC ond gall fod yn is neu’n uwch gan ddibynnu ar lefelau’r ddyled wirioneddol a’r gallu i gyllido tanfenthyca trwy ddefnyddio adnoddau arian parod eraill.

**10.** **Gwir ddyled allanol.** Mae’n rhaid i’r Cyngor ddatgelu’r balans cau ar gyfer gwir fenthyca gros mewn perthynas â’r cyfnod ariannol sydd newydd ddod i ben, ynghyd â lefel ymrwymiadau tymor hir eraill, ac felly, gwir lefel cyfanredol dyledion allanol ar ddyddiad y Fantolen.

## DANGOSYDDION TRYSORLYS

**11.** **Terfynau ar gyfer Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Tymor Hir**. Mae’r Dangosydd hwn yn ceisio cynorthwyo i reoli risg hylifedd. Dylid gosod y terfynau gyda golwg ar anghenion hylifedd y Cyngor a hefyd lleihau’r angen posib i orfod gadael y buddsoddiad yn gynnar er mwyn adennill arian. Mae’r dangosydd yn ymwneud â buddsoddiadau’r Cyngor i ddibenion rheoli trysorlys yn unig.

**12.** **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**. Mae’n ofynnol i’r Cyngor osod terfynau gros ar aeddfedrwydd ar gyfer y cyfnodau a ddangosir ac mae’n ymwneud â benthyciadau ar gyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy. Y rheswm yw ceisio rheoli’r posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu symiau mawr sydd angen eu hailgyllido.

**13.** **Meincnod Rhwymedigaethau.** Y dangosydd darbodus newydd ar gyfer 2024/25 yw’r Meincnod Rhwymedigaethau. Mae’n rhaid i’r Cyngor amcangyfrif a mesur y meincnod rhwymedigaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a’r ddwy flynedd ddilynol. Mae’r Meincnod Rhwymedigaethau’n cynnwys pedair rhan:-

1. **Dyledion benthyciadau cyfredol sy’n ddyledus**: benthyciadau cyfredol y Cyngor sydd yn parhau i fod yn ddyledus yn y dyfodol.

2. **GCC Benthyciadau**: mae hwn yn cael ei gyfrifo yn unol â'r diffiniad o GCC benthyciadau yn y Côd Darbodus ac mae amcangyfrifon i'r dyfodol yn seiliedig ar fenthyca darbodus a gymeradwywyd a DIR a gynlluniwyd.
3. **Gofyniad benthyca net**: Bydd hyn yn dangos dyledion benthyciadau gros y Cyngor wedi tynnu buddsoddiadau rheoli trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi'i amcangyfrif i'r dyfodol ac yn seiliedig ar y benthyca darbodus a gymeradwywyd, DIR a gynlluniwyd ac unrhyw lif arian sylweddol arall a ragwelir.
4. **Meincnod Rhwymedigaethau** (neu ofyniad benthyca gros): mae hwn yn gyfartal i'r gofyniad benthyca net ynghyd â'r lwfans hylifedd tymor byr.

## Geirfa

**GWARIANT CYFALAF**
Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol nad yw'n gyfredol, yn hytrach na dim ond cynnal gwerth yr ased. Mae enghreifftiau'n cynnwys: adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, gwaith adnewyddu sylweddol ar gartref gofal.

**CYLLIDO CYFALAF**
Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf, gan gynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF**
Y cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sydd heb ei dalu'n barod naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n adlewyrchiad o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca.

**RHAGLEN GYFALAF**
Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu dros gyfnod penodol o amser.

**DERBYNIADAU CYFALAF**
Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol. Gellir defnyddio cyfran o'r derbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

**CIPFA**
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

**CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**
Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â darpariaeth tai y Cyngor.

**LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**
Defnyddir y dull cyfradd llog gwirioneddol i fesur beth yw gwerth ased ariannol neu rwymedigaeth a fesurir yn ôl y gost llai amorteiddiad cronedig, ac i neilltuo incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog wirioneddol yw honno sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau yr amcangyfrifir y'u derbynnir yn y dyfodol dros oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd llog wirioneddol yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhwymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog gwirioneddol yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

**DARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI)**
Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

**DYLED NET**
Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

**BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH CYHOEDDUS (BBGC)**
Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca arnynt ei hun.

**GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**
Gwariant y gellir ei ohirio'n briodol (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran ei natur) ond nad yw'n arwain at ased diriaethol, na'n parhau i fod yn gysylltiedig â hi. Mae enghreifftiau o daliadau gohiriedig yn cynnwys grantiau o natur gyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

**GRANT CYNNAL REFENIW**
Grant a delir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau, ac sy'n cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

**BENTHYCA Â CHEFNOGAETH**
Mae'r Cyngor yn benthyca arian i gyllido rhan o'i raglen gyfalaf. Cydnabyddir y benthyciad gan Lywodraeth Ganolog wrth gyfrifo ei fformiwla gyllido ar gyfer y Cyngor.

**BENTHYCA DROS DRO**
Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

**BENTHYCA DIGEFNOGAETH**
Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthyca a gefnogir gan y Llywodraeth, a hynny er mwyn cyllido ei wariant cyfalaf cyn belled â'i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer hwn gan Gôd Darbodus CIPFA, sef Côd y mae'r Cyngor yn llwyr gydymffurfio ag ef.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 8 Chwefror 2024 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**
Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys gofyniad penodol fod y Pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'r ddyletswyddau deddfwriaethol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (3.4.8.10.1).

Mae gofyn i'r Pwyllgor ystyried y diweddariadau ar waith archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ymatebion rheolwyr a'r camau sydd wedi eu cymryd o ganlyniad i waith archwilio. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd, gan gynnwys effeithlonrwydd rheoliadau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad camau a gytunwyd arnynt (3.4.8.10.10)

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022 , yn benodol, mewn perthynas â swyddogaeth archwilio mewnol yr awdurdod a Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus, sy'n nodi'r angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio adrodd ar wybodaeth am gynnydd a chanlyniadau gweithgareddau archwilio (Safon 2060).

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor am y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 31 Ionawr 2024 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 30 Tachwedd 2023, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried:

- canlyniad y gwaith Archwilio mewnol,
- y sicrwydd a ddarparwyd ac
- ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

# Diweddariad Archwilio Mewnol

## Chwefror 2024




**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**



# Cynnwys


Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf ____ 1

Rheoli Risg Strategol: Diogelu (YM10) ____ 2

Y Gyflogres – Proses i Aelodau Staff Newydd ____ 2

Archwilio – Cael Gwared ar Wastraff (Gwasanaeth Tai) ____ 3

Gwiriad Iechyd Rheoli Risg - Zurich ____ 4

Gwaith ar y Gweill ____ 4

Camau Gweithredu sy'n Weddill ____ 5

Blaenoriaethau ____ 5

Capasiti Presennol ____ 5

Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig ____ 5

Blaenoriaethau Tymor Hwy ____ 5




# Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

1. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2023, yn cynnwys y raddfa sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau a godwyd.

2. Rydym wedi cwblhau **pedwar** darn o waith sicrwydd mewnol yn ystod y cyfnod, ac maent wedi'u crynhoi isod a cheir trafodaeth fanylach arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risg Strategol: Diogelu (YM10) | **Rhesymol** | 0 | 1 | 5 |
| Y Gyflogres – Proses I Aelodau Staff Newydd | **Rhesymol** | 0 | 0 | 4 |
| Archwilio – Cael Gwared ar Wastraff (Gwasanaeth Tai) | **Amherthnasol** | 0 | 0 | 1 |
| Gwiriad Iechyd Rheoli Risg (Zurich) | **Wedi'i Reoli** | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

## Rheoli Risg Strategol: Diogelu (YM10)

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 1 | Sylweddol |
| | 5 | Cymedrol |

3. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

   **A oes gan y Cyngor fesurau llywodraethu a rheoli effeithiol ar waith er mwyn rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â diogelu oedolion, plant a theuluoedd sydd mewn perygl er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl?**

4. Daethom i'r casgliad fod y gwaith llywodraethu a mesurau rheoli ar gyfer rheoli'r risg strategol sy'n ymwneud â diogelu yn effeithiol ar y cyfan.

5. Mae diogelu yn risg parhaus, ac er bod y Cyngor wedi dilyn nifer o gamau lliniaru, mae ansicrwydd yn bodoli bob amser oherwydd natur y risg.

6. Mae canlyniad ein hadolygiad, ar y cyfan, yn gadarnhaol, er ein bod wedi codi sawl Mater/Risg, un sylweddol a phump gydag effaith cymedrol sydd angen sylw rheoli.

7. Rydym wedi cytuno ar gynllun rheoli gyda'r tîm rheoli, ac felly, o fewn cwmpas ein hadolygiad, rydym yn gallu darparu **sicrwydd rhesymol** ar gyfer llywodraethant a rheolaeth risg y maes hwn.

## Y Gyflogres – Proses i Aelodau Staff Newydd

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 4 | Cymedrol |

8. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

   **A oes gan y Cyngor systemau cadarn ar waith i fodloni ei ddyletswydd i ofalu ac i gydymffurfio gyda deddfwriaeth wrth ddiogelu ei hun rhag weithgarwch twyllodrus wrth groesawu gweithwyr newydd?**

9. Daethom i'r casgliad, er bod gan y Cyngor reolyddion effeithiol ar waith er mwyn bodloni ei ddyletswydd o ofal ac i gydymffurfio gyda deddfwriaeth, mae angen i'w reolyddion diogelu ei hun rhag gweithgarwch twyllodrus wrth groesawu gweithwyr newydd fod yn gryfach, gan gynnwys cadarnhau rheolyddion systemau allweddol ac chysoni'r ffeil gyflog fisol.

10. Fodd bynnag, dylid nodi na ddaeth ein hadolygiad o hyd i unrhyw dystiolaeth o wall neu weithgarwch anawdurdodedig, a chafodd gofnodion tâl yr holl weithwyr newydd eu cofnodi'n gywir a'u prosesu yn unol â'r cyfnodau amser gofynnol.

11. Gwnaethom godi ein pedwar Mater/Risg, sydd angen sylw lefel gwasanaeth effaith gymedrol gan reolwyr, ac rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr. Er bod risg isel o weithgarwch twyllodrus, ac na fydd yn cael ei adnabod, mae'r cyfuniad o reolyddion lliniaru, gan gynnwys staff profiadol sy'n gwasanaethu ers peth amser a safonau recriwtio mwy diogel, yn golygu ein bod yn gallu darparu **sicrwydd rhesymol** ar gyfer llywodraethant a rheolaeth risg yn y maes hwn.

## Archwilio – Cael Gwared ar Wastraff (Gwasanaeth Tai)

12. Derbyniodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor, gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch trefniadau ar gyfer prynu deunyddiau a chael gwared ar wastraff o fewn yr Uned Cynnal a Chadw Tai, a dangos ffafriaeth tuag at gyflenwr penodol.

13. Gwnaeth yr Arweinydd gyfeirio'r cwyn i'w archwilio gan y tîm Archwilio Mewnol.

14. Roedd yr achwynydd wedi codi materion tebyg gyda'r tîm Archwilio Mewnol yn 2021, a chawsant eu harchwilio fel rhan o broses archwilio Dyraniadau Tai. Cwblhawyd yr archwiliad ym Medi 2021 a methwyd i gefnogi'r honiadau.

15. Rhwng mis Mehefin a Medi 2022, gwnaeth yr achwynydd gyflwyno tri chais Rhyddid Gwybodaeth yn gofyn am wybodaeth ynghylch contract yr Uned Cynnal a Chadw Tai, yn enwedig mewn perthynas â'r gwasanaeth cael gwared ar wastraff.

16. Yn dilyn hynny, ym mis Chwefror 2023, gwnaeth yr achwynydd godi pryderon gydag Archwilio Cymru, ac fe ddarparodd y Cyngor ymateb ar gyfer hyn. Dywedodd Archwilio Cymru na fyddent yn parhau i archwilio'r mater.

17. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd sylweddol mewn gwariant a oedd yn gysylltiedig â'r gontract, rydym yn credu y byddai'n briodol cynnal archwiliad mewnol pellach i'r mater.

18. Bwriad ein harchwiliad oedd ateb y cwestiynau allweddol canlynol:

- **A ddilynwyd rheolau gweithredu contract cywir wrth ddyfarnu'r gontract, yn enwedig ar gyfer trefniadau cael gwared ar wastraff?**
- **A oes trefniadau grymus ar waith er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni gwerth am arian o fewn ei gontract ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai, yn enwedig y gwasanaeth cael gwared ar wastraff?**

19. Daeth ein harchwiliad i'r casgliad fod y Gwasanaeth Tai wedi dilyn y rheolau caffael contract cywir wrth ddyfarnu'r contract drwy Fframwaith Deunyddiau Cymru.

20. Yn yr un modd, roedd y trefniadau ar gyfer gwasanaethau cael gwared ar wastraff yn cydymffurfio gyda rheolau gweithredu contract.

21. Fodd bynnag, rydym wedi adnabod rhai anghysondebau a gordaliadau posibl ar gyfer rhai gwasanaethau fel rhan o'r elfen cael gwared ar wastraff, a all gyfaddawdu gallu'r Cyngor i gyflawni gwerth am arian yn y maes hwn.

22. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r gwasanaeth er mwyn cryfhau rheolyddion yn y maes hwn, adfer unrhyw ordaliad a sicrhau bod trefniadau monitro a rheoli contract grymus ar waith wrth symud ymlaen.

23. Yn olaf, roedd archwiliadau blaenorol, a gefnogwyd gan ganfyddiadau'r archwiliad hwn, yn cefnogi'r casgliad nad oedd ffafriaeth amhriodol wedi'i ddangos gan y Gwasanaeth Tai i'r darparwr rheoli gwastraff.

## Gwiriad Iechyd Rheoli Risg - Zurich

24. Gwnaethom gomisiynu Zurich Resilience Solutions i ddarparu sicrwydd ynghylch trefniadau rheoli risg y Cyngor.

25. Mae canlyniadau gwaith Zurich yn cael eu hadrodd y tu allan i'r Pwyllgor hwn. Fodd bynnag, darparodd Zurich sicrwydd yn seiliedig ar fodel aeddfedrwydd a oedd yn cynnwys pump lefel.

26. Bu i Zurich asesu'r Cyngor, a nodi ei fod mewn cyfnod pontio rhwng lefel dau a thri, fel y gwelir isod, gyda rhai meysydd o'r sefydliad wedi'u datblygu'n dda o ran aeddfedrwydd, yn enwedig mewn perthynas â diwylliant a llywodraethant.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 1 Tameidiog | Lefel 2 Yn Datblygu | Lefel 3 Wedi Rheoli | Lefel 4 Wedi Integreiddio | Lefel 5 Gweddnewidiol |



# Gwaith ar y Gweill

27. Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

| Maes | Rheswm am yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|
| Datganiadau o Ddiddordeb | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 | Gwaith Maes |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 | Parhaus |
| Gweinyddu Grantiau Cyfleusterau ar gyfer yr Anabl | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 | Adroddiad Drafft |
| Rheoli Debyd Uniongyrchol | Strategaeth Archwilio Mewnol 2023-24 | Gwaith Maes |
| Prosesau Incwm Swyddogaeth Cyrchfan | Ar gais y Prif Weithredwr | Gwaith Maes |
| Archwiliad TG – Rheoli Mynediad Corfforaethol | Cofrestr Risg Strategol (YM3) | Gwaith Maes |
| Archwiliad TG – Rheoli Cyflenwyr | Cofrestr Risg Strategol (YM3) | Gwaith Maes |
| Grymuster dyfynbrisiau a chywirdeb asesiad arian wrth gefn (Adran 25 y Cod Rheolaeth Ariannol) | Cofrestr Risg Strategol (YM1) | Gwaith sefydlu cwmpas |
| Galw Gofal – Asesiad Dilynol Cyntaf | Adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig | Gwaith Maes |
| Rheoli Asedau | Cofrestr Risg Strategol (YM14) | Gwaith sefydlu cwmpas |

Tudalen 115

# Camau Gweithredu sy'n Weddill


28. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi sylw i'r holl 'Faterion/Risgiau' a godwyd a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.

29. Ar 31 Ionawr, 2024, mae un mater/risg sylweddol a tri mater/risg cymedrol angen ymdrin â nhw y tu hwnt i'r dyddiad targed.

30. Fodd bynnag, mae un mater/risg sylweddol a dau fater/risg cymedrol yn destun archwiliad dilynol presennol nad yw wedi'i gwblhau hyd yma; roedd Galw Gofal (Risgiau Partneriaeth) yn destun adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023.

31. Mae'r materion/risgiau cymedrol sy'n weddill yn ymwneud ag adferiad taliadau dyblyg, ac mae gwaith ynghylch hyn yn parhau.

**Materion / Risgiau Hwyr fesul Gwasanaeth**




# Blaenoriaethau

## Capasiti Presennol

32. Gennym dwy swydd wag ar hyn o bryd, ar lefel Uwch Archwilydd, oherwydd ymddiswyddiad a secondiad tymor hir.

33. Rydym yn defnyddio'r arbedion cyllidebol o ganlyniad i'r swyddi gwag i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol.

## Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

34. Er gwaethaf y swyddi gwag, rydym wedi gwneud cynnydd da gyda'n Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2023-24 a'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025.

35. Ein strategaeth tymor byr yw cwblhau'r holl ofynion sicrwydd o fewn ein Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023-24. Bydd unrhyw waith nad yw wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2024 yn cael ei drosglwyddo ymlaen i'r Strategaeth ar gyfer 2024-25.

## Blaenoriaethau Tymor Hwy

36. Mae'r Bwrdd Safonau Archwilio Mewnol Rhyngwladol (IIASB) wedi cyhoeddi Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang ar 9 Ionawr 2024, a byddant yn dod i rym yn dilyn cyfnod pontio o 1 blwyddyn. Mae'r safonau'n arwain yr arfer proffesiynol byd eang ar gyfer archwilio mewnol.

37. Mae'r Bwrdd Ymgynghori ar Safonau Archwilio Mewnol (IASAB), sy'n gosod y safonau ar gyfer sector cyhoeddus y DU, wedi dechrau ei adolygiad ar effaith y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus, a bydd yn datblygu cynigion ar gyfer deunydd wedi'i ddiwygio, fydd yn addas ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus y DU. Bydd unrhyw newidiadau dilynol i PSIAD y DU, a'u gweithrediad, yn dibynnu ar ymgynghoriad a threfniadau pontio priodol.

38. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor am yr effaith y gallai hyn ei chael ar waith y Pwyllgor.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 8 Chwefror 2024 |
| **Pwnc:** | Gwiriad Iechyd Rheoli Risg gan Zurich |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Fel rhan o'i gyfrifoldebau trosolwg ar gyfer y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol, mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r angen iddo adolygu ac asesu datblygiad effeithiol a gweithrediad rheoli risg o fewn y Cyngor (3.4.8.8.1). | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Comisiynodd y Cyngor Zurich Resilience Solutions i ymgymryd â Gwiriad Iechyd Rheoli Risg er mwyn adolygu trefniadau rheoli risg y Cyngor ar draws y sefydliad gan ganolbwyntio'n benodol ar ymchwilio i safbwyntiau a deall y canfyddiad o risg drwy drafodaethau â rhanddeiliaid.

1.2 Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Tachwedd 2018 ac adroddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2019.

## 2.0 CANLYNIAD


2.1 Mae adroddiad llawn Zurich i'w weld yn Atodiad A. Mae Crynodeb gweithredol wedi'i gynnwys ar dudalen 4 o'r adroddiad.

2.2 Er mwyn mesur aeddfedrwydd rheolaeth risg yn y Cyngor, mesurwyd canfyddiadau Zurich yn erbyn model perfformiad sy'n torri gweithgaredd rheolaeth risg i lawr yn chwe categori sy'n cyfrannu tuag at drefniadau rheoli risg effeithiol (graffig i ddilyn).

2.3 Mae'r model yn galluogi asesiad i gael ei wneud o ran i ba raddau mae rheolaeth risg yn cael effaith bositif ar y sefydliad. Mae'r pum lefel o aeddfedrwydd fel â ganlyn:


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lefel 1<br>Tameidiog | Lefel 2<br>Yn Datblygu | Lefel 3<br>Wedi Rheoli | Lefel 4<br>Wedi Integreiddio | Lefel 5<br>Gweddnewidiol |

2.4 Mae Zurich wedi asesu'r Cyngor i fod yn eistedd mewn cam trawsnewidiol rhwng lefelau dau a thri gyda rhai rhannau o'r sefydliad yn dangos aeddfedrwydd sydd wedi'i ddatblygu'n dda yn enwedig o ran diwylliant a llywodraethiant. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei osod yn erbyn meysydd lle mae aeddfedrwydd yn gyfyngedig, a amlygwyd fwyaf amlwg o fewn adrannau - Parodrwydd i dderbyn Risg a Strategaeth - yr adroddiad, a amlygir yn y graffig isod:




**Ionawr 2024**

2.5 Gellir gweld y cynnydd wrth ddatblygu trefniadau rheoli risg o fewn y Cyngor drwy gymharu'r graffig gyda chanlyniad Gwiriad Iechyd 2018 isod.




**Tachwedd 2018**

2.6 Amlinellwyd cyfres o arsylwadau ac argymhellion yn adroddiad Zurich. Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion Zurich (Atodiad B). Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cymeradwyo ac yn cefnogi'r Cynllun Gweithredu.

## 3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn adolygu ac yn cymryd sicrwydd o'r adroddiad gan Zurich Resilience Solutions bod rheoli risg yn cael ei ddatblygu a'i weithredu'n effeithiol o fewn y Cyngor.
- yn cefnogi'r gweithredoedd sy'n cael eu hargymell er mwyn gallu mynd i'r afael â'r argymhellion a wneir gan Zurich Resilience Solutions.

Jennifer Czapla – Ymgynghorydd Risg
Michael Henley – Ymgynghorydd Risg
Zurich Resilience Solutions
Dyddiad Ionawr 2024

# Adolygiad Gwiriad Iechyd Rheoli Risg

## Cyngor Sir Ynys Môn



# Cynnwys


1. Cyflwyniad 3

2. Crynodeb gweithredol 4

3. Arsylwadau ac argymhellion 6

   3.1. Diwylliant Risg ac Arweinyddiaeth 6

   3.2. Parodrwydd i Dderbyn Risg a Strategaeth 8

   3.3. Llywodraethu 10

   3.4. Methodoleg 12

   3.5. Pobl a Hyfforddiant 14

   3.6. Prosiectau, Partneriaid a’r Gadwyn Gyflenwi 16

4. Atodiadau 17




# 1. Cyflwyniad

Mae Zurich wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) i adolygu eu trefniadau rheoli risg ar draws y sefydliad, gan ganolbwyntio'n benodol ar archwilio'r safbwyntiau, y ddealltwriaeth a'r canfyddiad o risg drwy drafodaethau allweddol â rhanddeiliaid.

I fesur aeddfedrwydd rheoli risg yn y Cyngor, mae'r canfyddiadau wedi cael eu mesur yn erbyn model perfformiad sy'n rhannu gweithgarwch rheoli risg yn chwe chategori sy'n cyfrannu at drefniadau rheoli risg effeithiol mewn sefydliad:

| | |
|---|---|
| **Diwylliant Risg ac Arweinyddiaeth** | Archwilio agwedd Uwch Swyddogion ac Aelodau tuag at rôl a blaenoriaeth rheoli risg |
| **Parodrwydd i Dderbyn Risg a Strategaeth** | Adolygu i ba raddau mae'r polisïau ar gyfer rheoli risg yn cefnogi'r sefydliad a sut mae'r parodrwydd i dderbyn risg yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio |
| **Llywodraethiant** | Sefydlu sut y darperir sicrwydd i randdeiliaid, effeithiolrwydd y trefniadau adrodd a sut y rheolir risg o fewn meysydd adrannol. |
| **Methodoleg** | Asesu a oes prosesau ac offer risg effeithiol ar waith i gefnogi'r sefydliad |
| **Pobl a Hyfforddiant** | Gwerthuso lefel sgiliau, gwybodaeth a gallu rheoli risg ar draws y sefydliad |
| **Prosiectau, Partneriaethau a'r Gadwyn Gyflenwi** | Penderfynu a oes trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risgiau mewn prosiectau a gyda phartneriaid a chyflenwyr |

Mae'r model yn golygu bod modd asesu i ba raddau y mae rheoli risg yn cael effaith gadarnhaol ar y sefydliad. Mae'r pum lefel o aeddfedrwydd fel a ganlyn:

| Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|---|---|
| Tameidiog | Datblygu | Rheoli | Integredig | Trawsnewidiol |

Ar hyn o bryd rydym wedi asesu bod y Cyngor mewn cyfnod pontio rhwng lefelau dau a thri gyda rhai rhannau o'r sefydliad yn dangos aeddfedrwydd sydd wedi datblygu'n dda, yn enwedig o ran diwylliant a llywodraethu. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan feysydd lle mae'r aeddfedrwydd wedi'i gyfyngu, ac amlygwyd hyn yn fwyaf penodol yn adran Parodrwydd i Dderbyn Risg a Strategaeth yr adroddiad.

Amlinellir cyfres o sylwadau ac argymhellion yn y tudalennau canlynol i'w hystyried.

Cyfrinachol: Ar gyfer cwestiynau sy'n ymwneud â dyblygu neu ddosbarthu'r ddogfen hon, cysylltwch â'r awdur

Hawlfraint © 2020 Zurich

## 2. Crynodeb gweithredol

Yn gyffredinol, mae gan y fframwaith rheoli risg yn y Cyngor y potensial i fod yn sail i ddull rheoli risg cadarn. Mae nifer o nodweddion sy’n dangos llywodraethu da a bod yr arferion gorau’n cael eu deall. Rydym wedi nodi bod newid diwylliannol cadarnhaol wedi bod yn ddiweddar, sy’n cael ei annog gan y naws agored a thryloyw ar y brig. Mae’n allweddol bod momentwm o’r fath yn cael ei gynnal a’i hidlo i lawr i weddill y sefydliad fel bod yr elfennau o arfer da yn cael eu gwreiddio a’u cysoni ar draws gwasanaethau.


Er nad oes llawer o welliannau i’w gwneud o ran y dogfennau a’r fethodoleg, mae angen gwneud gwaith datblygu o hyd i sicrhau bod yr arferion gorau’n cael eu hadlewyrchu mewn gweithgarwch busnes fel arfer a’u bod yn cael eu deall ar draws y sefydliad. Er mwyn gallu rhoi sgôr aeddfedrwydd ‘integredig’ yn hyderus i’r sefydliad, mae angen rhagor o dystiolaeth o reoli risg sy’n gyrru’r broses o wneud penderfyniadau yn benodol a bod dull cyson o ymdrin â risg ar draws pob maes gwasanaeth, sy’n cefnogi a bwydo i mewn i’r dull strategol.

Gallai’r Cyngor wella ei sgôr aeddfedrwydd yn sylweddol drwy weithredu’r argymhellion gwella a nodir yn yr adroddiad hwn. Yr hyn fyddai fwyaf gwerthfawr fyddai blaenoriaethu darpariaeth hyfforddiant hygyrch wedi’i ddiweddaru i helpu i fagu hyder, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i liniaru’r ddibyniaeth bresennol ar berson allweddol sy’n bodoli mewn perthynas â’r Swyddog Risg ac Yswiriant, sy’n gyrru’r mwyafrif helaeth o weithgareddau sy’n gysylltiedig â risg. Drwy sicrhau bod hyfforddiant wedi’i deilwra’n cael ei ddarparu i bob grŵp rhanddeiliaid mewn ffordd ddiddorol a dealladwy, dylai unigolion gael gwell dealltwriaeth o’u rôl (boed yn berchennog risg neu’n Aelod) a chynyddu annibyniaeth wrth asesu risg mewn meysydd gwasanaeth.

Ystyrir bod trefniadau llywodraethu yn y sefydliad yn gadarnhaol, gyda threfniadau adrodd ac uwchgyfeirio sy’n cael eu deall yn dda. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith datblygu i wreiddio’r defnydd o barodrwydd i dderbyn risg yn llawn yn y sefydliad. Er bod gan y Cyngor y fframwaith a’r sylfeini ar gyfer defnyddio parodrwydd i dderbyn risg, fel y datganiadau parodrwydd a lefelau goddefiant, nid yw’r paramedrau hyn yn cael eu defnyddio fel arf wrth wneud penderfyniadau, cynllunio cyllideb na chynllunio corfforaethol. Mae angen gwneud rhagor o waith i ymgysylltu ag arweinwyr ac i ymgyfarwyddo â manteision defnyddio parodrwydd i dderbyn risg.

Yn gryno, mae gan y Cyngor brosesau llywodraethu da ar waith, digon o fforymau a phwyntiau cyffwrdd i adolygu risg a’r adnoddau cywir i reoli risg yn effeithiol. O’i gymharu ag awdurdodau lleol tebyg, mae gan y Cyngor sylfeini cryf iawn i ddatblygu dull mwy datblygedig a chynnil o ymdrin â risg. Yr hyn sydd ei angen yn awr yw i’r sefydliad ddechrau defnyddio’r broses yn annibynnol, fel y nodir yn y dogfennau, a chymryd perchnogaeth wirioneddol ohoni drwy wella hyder, sicrhau nad ymarferiad ticio blychau yn unig yw risg, ond rhywbeth sy’n cael ei werthfawrogi fel arf busnes i gyflawni amcanion.

Er mwyn mesur aeddfedrwydd rheoli risg, defnyddiwyd model perfformiad sy’n rhannu gweithgarwch yn chwe chategori sy’n cyfrannu at drefniadau rheoli risg effeithiol mewn sefydliad. O ystyried cymhlethdod y gwasanaethau a ddarperir a’r adnoddau sydd ar gael yn aml i gefnogi rheoli risg yn y sector cyhoeddus, mae’n werth nodi bod lefel 3, Rheoli, yn cael ei ystyried yn sgôr dda, a byddai’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cael eu gosod ar lefel 2, Datblygu.




Ffigur 1.

Mae'r ffigur uchod yn dangos lle mae'r Cyngor wedi cael ei asesu ar sail yr adolygiad.

Mae crynodeb byr wedi'i gynnwys isod o'r prif agweddau ar reoli risg sydd wedi'u nodi fel rhan o'r broses gwirio iechyd. Edrychir ar ragor o fanylion ym mhob adran yn yr adroddiad:

**Cryfderau:**

- Dealltwriaeth a defnydd cyson o'r fframwaith llywodraethu ac adrodd ar lefel strategol,
- Diwylliant risg cadarnhaol yn y sefydliad a pharodrwydd i drafod yn agored,
- Adolygu'r cofrestrau risg strategol yn rheolaidd ar bob lefel o'r sefydliad,
- Parodrwydd i ddysgu a gwella arferion rheoli risg,
- Perthynas waith gadarnhaol rhwng Aelodau a swyddogion a all ddarparu'r sylfeini ar gyfer dysgu ychwanegol.

**Cyfleoedd i Ddatblygu:**

- Gwell dealltwriaeth o'r risgiau trawsbynciol sy'n effeithio ar y Cyngor a'r ffordd orau o reoli'r rhain,
- Darparu hyfforddiant ychwanegol i uwch reolwyr ac Aelodau i leihau'r ddibyniaeth ar unigolion allweddol sy'n bodoli ar hyn o bryd, meithrin mwy o hyder, a sefydlu rolau a chyfrifoldebau,
- Mwy o ddealltwriaeth, defnydd a chyfathrebu wrth gymhwyso'r parodrwydd i dderbyn risg,
- Datblygu mwy o gysondeb ar lefel gwasanaeth i sicrhau bod rheolaethau'n fyw, yn fesuradwy ac wedi'u cysylltu'n benodol ag achos y risg.

# 3. Arsylwadau ac argymhellion

## 3.1. Diwylliant Risg ac Arweinyddiaeth

Mae'r adran hon yn ystyried agwedd uwch swyddogion ac aelodau tuag at rôl a blaenoriaeth rheoli risg.

| Lefel 1 Tameidiog | Lefel 2 Datblygu | Lefel 3 Rheoli | Lefel 4 Integredig | Lefel 5 Trawsnewidiol |
|---|---|---|---|---|

Canfyddiad cyffredinol y Cyngor yw bod agwedd gadarnhaol tuag at risg wedi'i hwyluso gan newid diwylliannol diweddar i roi mwy o bwyslais ar reoli risg ar lefel arweinyddiaeth. Mae tystiolaeth sylweddol yn awgrymu bod y tîm arwain yn deall ac yn ymwybodol o'r risgiau strategol allweddol sy'n wynebu'r sefydliad, ond nad yw sgyrsiau ynghylch risg strategol wedi'u cysylltu'n glir a bwriadus eto â'r broses o wneud penderfyniadau, nac yn ei gyrru.

Yn y rhan fwyaf o drafodaethau'r cyfweliadau, tynnodd swyddogion sylw at y gwelliannau a wnaed dros y 2-3 blynedd diwethaf i ddatblygu arferion rheoli risg ar draws y sefydliad. Yn benodol, adolygu a lleihau'r Gofrestr Risg Strategol, sydd wedi gwella eglurder a ffocws trafodaethau risg ar lefel arweinyddiaeth. Er bod hyder mawr gan yr holl swyddogion ynghylch cynnwys y gofrestr risg, un o'r meysydd lle'r oedd rhywfaint o betruster oedd ynghylch parodrwydd i dderbyn risg a sut mae proffil risg y sefydliad yn effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau. Pan ofynnwyd iddynt, teimlai'r rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd fod canfyddiad ac agwedd uwch swyddogion tuag at risg yn gyffredinol yn arwain at wneud penderfyniadau cyson ond nad oedd o reidrwydd yn rhan o broses ffurfiol ac yn briodol i brofiad a greddf yr unigolyn.

Thema gyson yr oedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn awyddus i dynnu sylw ati oedd rôl y Tîm Archwilio a Risg o ran cadw risg ar frig yr agenda arweinyddiaeth, gan dynnu sylw at rywfaint o wahaniaeth rhwng y broses risg a gwneud penderfyniadau. Roedd y sylwadau'n dangos, er bod risg yn ddeinamig ac yn rhan o'r drafodaeth fyw, bod rhai risgiau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau yn cael eu hystyried ar wahân i'r gofrestr risg strategol. Wrth bwyso a mesur, awgrymodd un swyddog y gellid ymgorffori adran risg mewn templedi adrodd i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sylweddol yn cael eu hystyried yn erbyn y risgiau strategol a pharodrwydd i dderbyn risg y sefydliad yn fwy ffurfiol.

Maes arall a archwiliwyd mewn perthynas ag arweinyddiaeth oedd rôl yr Aelodau. Yn gyffredinol, roedd pobl yn cydnabod bod Aelodau yn rhanddeiliaid pwysig, ond roedd yn amlwg bod eu barn a'u her gadarnhaol yn faes sy'n cael ei danddefnyddio ac yn lens risg ychwanegol a allai gryfhau'r broses adolygu. O'i gymharu â'r diffiniadau o rolau a chyfrifoldebau yn y Polisi, mae rhai anghysondebau oherwydd diffyg hyder a gwybodaeth. Gellid diffinio rôl a pherthynas cyfrifoldebau'r Pwyllgor Sgriwtini, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Deiliaid Portffolio yn benodol, eu mapio a'u hatgyfnerthu drwy hyfforddiant ychwanegol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gan Aelodau'r hyder a'r ddealltwriaeth i ymgysylltu'n effeithiol â'r broses, thema yr edrychir arni ymhellach yn adran 3.5 Pobl a Hyfforddiant. Mae'n bwysig nodi bod yna awydd am gefnogaeth a hyfforddiant yn ogystal â brwdfrydedd i ymgysylltu â'r broses risg yn fwy effeithiol. Tynnodd nifer o unigolion sylw at y ffaith bod y berthynas rhwng swyddogion ac Aelodau yn gryf, felly gallai hyfforddiant ychwanegol wella trafodaethau a werthfawrogir eisoes ar lefel Pwyllgor.

Mae'r dystiolaeth a amlinellir yn y dogfennau yn dangos awdurdod lleol sydd, ar bapur, yn gallu cael sgôr aeddfedrwydd 'integredig' ac sy'n adlewyrchu agwedd uchelgeisiol ond cyraeddadwy tuag at risg. Mae diwylliant risg cadarnhaol a thîm arwain sy'n croesawu risg (her neu gyfle) drwy hyrwyddo trafodaeth onest a thryloyw. Fodd bynnag, roedd yn anodd deall yn llawn a oedd risg yn cael ei deall yn gyson a'i gwreiddio'n ddigonol i fod yn hunangynhaliol y tu allan i ddylanwad y Tîm Risg ac Archwilio. Mae rhai pocedi o hyd yn y sefydliad lle mae gwybodaeth yn gudd, a rhagdybiaeth bod risg yn cael ei rheoli'n dda oherwydd cymhwysedd yr unigolyn yn hytrach na chael ei fonitro'n benodol fel rhan o'r broses risg ganolog. Mae'n anochel y bydd cyflwyno'r system risg newydd, cynnal sgyrsiau cyfredol a hyfforddiant pellach yn golygu y bydd y sefydliad yn cyflawni'r statws 'integredig'.

Argymhellion:

- Ystyried darparu hyfforddiant ychwanegol i uwch arweinwyr a phenaethiaid adrannau mewn perthynas â'u cyfrifoldebau o ran rheoli risg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y ddibyniaeth ar berson allweddol, sef y Swyddog Risg ac Yswiriant, yn cael ei ddiwallu. Ar hyn o bryd mae risg uchel o fethiant mewn perthynas â rheoli risg pe na bai'r Swyddog Risg ac Yswiriant ar gael.
- Darparu hyfforddiant ychwanegol i Aelodau i helpu i sicrhau eu bod yn gallu herio a chraffu'n effeithiol ar risgiau strategol allweddol sy'n cyd-fynd â'r rolau a'r cyfrifoldebau fel y nodir yn y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg,
- Adolygu'r templedi adrodd corfforaethol presennol i sicrhau bod adolygiad risg yn cael ei gynnwys fel adran safonol i annog arweinwyr i ystyried penderfyniadau allweddol yn erbyn proffil risg a pharodrwydd i dderbyn risg y sefydliad.

## 3.2. Parodrwydd i Dderbyn Risg a Strategaeth

Mae'r adran hon yn asesu i ba raddau mae'r polisïau ar gyfer rheoli risg yn cefnogi'r sefydliad a sut mae'r parodrwydd i dderbyn risg yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio

| Lefel 1<br>Tameidiog | Lefel 2<br>Datblygu | Lefel 3<br>Rheoli | Lefel 4<br>Integredig | Lefel 5<br>Trawsnewidiol |
|---|---|---|---|---|

Pwrpas strategaeth rheoli risg yw cyfleu pam a sut y bydd rheoli risg yn cael ei weithredu ledled y sefydliad a nodi pwrpas a chyfeiriad gweithgareddau rheoli risg. Dylai ymdrechu i sicrhau unffurfiaeth ar draws y broses rheoli risg a dileu unrhyw amwysedd ynghylch y lefelau capasiti risg, parodrwydd i dderbyn risg a goddefgarwch risg yn gyffredinol.

Yn gyffredinol, mae'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg yn ddogfen glir a hygyrch sy'n amlinellu'r arferion gorau mewn modd hawdd ei ddeall. Yn benodol, mae defnyddio'r amcanion rheoli risg, y sgôr aeddfedrwydd a'r penodau ar barodrwydd i dderbyn risg yn dangos dealltwriaeth fanwl ac uwch o risg y dylai'r sefydliad fod yn ei defnyddio i fonitro cynnydd. Er bod y ddogfen Strategaeth a'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg yn y ddogfen yn enghreifftiau o awdurdod lleol yn gweithredu ar lefel 'Rheoli', dangosodd trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol fod camddealltwriaeth a diffyg eglurder o hyd ynghylch defnyddio parodrwydd i dderbyn risg.

Yn y Polisi a'r Strategaeth, mae parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor wedi'i ddiffinio'n glir gyda lefelau parodrwydd i dderbyn risg dilynol wedi'u mapio yn erbyn pob categori, sy'n darparu tystiolaeth bod y sefydliad yn gweithredu ar lefel aeddfedrwydd "rheoli". Gellid ychwanegu rhagor o wybodaeth at y datganiadau parodrwydd i ddileu unrhyw amwysedd ynghylch ystyr y gwahanol gategorïau; fodd bynnag, dim ond ar ôl i'r parodrwydd i dderbyn risg gael ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth drafod a chael ei ddeall gan yr holl randdeiliaid perthnasol y byddai hyn yn ofynnol. Fel dyhead i'r dyfodol, unwaith y bydd risg wedi'i gwreiddio'n well, gellid cynnwys diffiniadau mwy penodol yn y datganiad parodrwydd i dderbyn risg ac ychwanegu llinellau goddefgarwch a chapasiti i ddangos lefel y risg nad yw'r sefydliad yn fodlon ei dderbyn.

Pan ofynnwyd iddynt am y defnydd o barodrwydd i dderbyn risg, roedd swyddogion yn tybio y byddai unigolion yn y tîm arwain yn gwneud penderfyniadau cyson sy'n briodol i broffil risg y sefydliad, ond byddai hyn yn seiliedig ar brofiad a greddf yn hytrach na defnyddio'r fframwaith parodrwydd i dderbyn risg fel yr amlinellir yn y polisi. Nid oes llawer o ddealltwriaeth o beth mae hyn yn ei olygu i'r sefydliad, ac nid yw wedi cael ei ddefnyddio eto i helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Dywedodd rhai unigolion y byddai'n ddefnyddiol i benderfyniadau allweddol gael eu cysylltu'n ôl i barodrwydd i dderbyn risg y sefydliad mewn ffordd fwy ffurfiol drwy'r broses adrodd gorfforaethol. Felly, mae cyfle i integreiddio'r broses risg strategol â phrosesau blaengynllunio sydd eisoes yn bodoli megis datblygu'r Cynllun Corfforaethol, cynllunio'r gyllideb a chynllunio'r gweithlu.

Er bod cynnydd diweddar wedi'i wneud, ar hyn o bryd mae'n ymddangos bod y tîm arwain yn gwneud penderfyniadau ac yna'n addasu'r parodrwydd yn ôl-weithredol o gwmpas hynny, os ystyrir parodrwydd o gwbl. Gyda phenderfyniadau masnachol yn cael eu gwneud ynghylch prosiectau allweddol, trawsnewid a meysydd risg uchel, mae dealltwriaeth gyson a chymhwyso parodrwydd i dderbyn risg yn cefnogi proses gwneud penderfyniadau mwy gwybodus a chadarn.

Argymhellion:

- Adolygu datganiadau parodrwydd i dderbyn risg gyda'r tîm arwain a darparu hyfforddiant perthnasol i sicrhau eu bod yn gyfredol, yn berthnasol ac yn adlewyrchu cyfeiriad strategol presennol y sefydliad. Dylid defnyddio'r rhain i helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn y sefydliad a dylid eu defnyddio fel ffordd allweddol o adolygu risgiau strategol a'u mesurau lliniaru.
- Ystyried darparu hyfforddiant i uwch arweinwyr mewn perthynas â pharodrwydd i dderbyn risg i sicrhau bod dealltwriaeth ddigonol o'r ffordd y dylid cymhwyso hyn o fewn y Cyngor, a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n effeithiol ac yn gyson i arweinwyr adrannol.
- Cynnwys map gwres risg mewn adroddiadau risg i annog y tîm arwain i weld y portffolio cyfan o risgiau a deall sefyllfa gyfunol y sefydliad mewn perthynas â'i barodrwydd i dderbyn risg.

## 3.3. Llywodraethu

Rydym yn adolygu'r sicrwydd a roddir i randdeiliaid, effeithiolrwydd y trefniadau adrodd a sut mae risg yn cael ei rheoli mewn meysydd gwasanaeth.

| Lefel 1 Tameidiog | Lefel 2 Datblygu | Lefel 3 Rheoli | Lefel 4 Integredig | Lefel 5 Trawsnewidiol |
|---|---|---|---|---|

Edrychwyd yn gyffredinol ar lywodraethu mewn goleuni cadarnhaol drwy gydol y gwiriad iechyd. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod prosesau da ar waith a oedd yn cael eu deall a'u dilyn yn gyson. Roedd cryfder y broses lywodraethu hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y dogfennau, a amlygwyd gan fframwaith clir a oedd yn adlewyrchu dealltwriaeth pobl. Am y rheswm hwn, mae'r sefydliad wedi cael sgôr ar Lefel 4.

Ers gweithredu'r fframwaith newydd, mae'r trefniadau adrodd ar risg wedi dod yn fwy cadarn ac yn dangos gwelliant mawr o'i gymharu â'r sefyllfa yr oedd y Cyngor ynddi cyn Covid. Mae gwerth penodol yn yr archwiliadau dwfn o risgiau strategol a gynhaliwyd gan y tîm arwain, sy'n galluogi mwy o drafod ac adolygu risgiau unigol yn hytrach nag asesiad cyfunol byr o'r holl risgiau.

Ar hyn o bryd, mae cyfrifoldeb mawr o hyd ar y Swyddog Risg ac Yswiriant ynghylch penderfynu pryd a ble mae angen uwchgyfeirio risg yn ogystal â nodi lle mae rhyngddibyniaethau ar draws adrannau. Er mai'r swyddog risg sy'n gyfrifol am hwyluso'r broses, mae angen rhoi mwy o bwyslais ar berchnogion risg unigol yn cyfrannu at ac yn gyrru'r broses ar draws gwasanaethau i reoli risgiau trawsbynciol. Er bod swyddogion yn glir y byddai cydweithio rhwng gwasanaethau yn digwydd pe bai angen, nid oedd yn glir a oes fforwm dynodedig neu broses ffurfiol ar draws adrannau ar gyfer adolygu rhyngddibyniaethau neu rannu arferion gorau. Mae risgiau sy'n gysylltiedig â chyllid, adnoddau dynol a digidol yn enghreifftiau da o ble gallai adrannau elwa o drafodaeth ac adolygiad ar y cyd. Fodd bynnag, roedd sicrwydd bod rhai o'r sgyrsiau hyn yn cael eu cynnal drwy'r cyfarfodydd un-i-un gyda'r Swyddog Risg ac Yswiriant a rheolwyr busnes, i sicrhau bod yr holl risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol.

O safbwynt strategol, mae'n amlwg bod gwaith sylweddol wedi'i wneud i sicrhau bod y broses lywodraethu yn gadarn ac yn diwallu anghenion y sefydliad. Er mwyn gallu rhoi sgôr lefel uwch yn hyderus i'r sefydliad, byddai angen rhagor o dystiolaeth o wasanaethau'n cymryd perchnogaeth ac yn defnyddio'r broses lywodraethu yn eu hadrannau. Mewn rhai cyfweliadau, roedd swyddogion yn glir ynghylch sut a phryd y rheolwyd risgiau, ond nid oedd hyn yn gyson ar draws yr holl wasanaethau. Er mwyn datblygu dull gweithredu mwy integredig sy'n dibynnu llai ar unigolion allweddol, gallai integreiddio dangosyddion perfformiad allweddol ymhellach (fel y cyfeirir atynt yn y Polisi Rheoli Risg) gefnogi'r camau uwchgyfeirio a chefnogi gwasanaethau i fonitro eu risgiau'n well yn annibynnol. Er y soniwyd am hyn yn y polisi rheoli risg, nid oedd sôn am ddefnyddio cydlynwyr risg yn ystod ein cyfweliadau. Byddai mwy o ddefnydd o gydlynwyr risg mewn gwasanaethau yn lleihau dibyniaeth ar berson allweddol a, thrwy ddefnyddio cyd-drafod ac adolygu rhwng cydlynwyr, byddai'n cynyddu'r siawns o nodi a monitro rhyngddibyniaethau risg.

Argymhellion:

- Defnydd pellach o’r rhwydwaith o gydlynwyr risg ar draws y sefydliad i hyrwyddo arfer gorau o ran risg a rhannu gwybodaeth am risg. Gallai’r gweithgaredd gynnwys trafodaethau grŵp risg rheolaidd gyda chydlynwyr risg a/neu hyfforddiant cydlynydd risg i sefydlu rolau a chyfrifoldebau.
- Mwy o ddefnydd o ddangosyddion perfformiad allweddol a lefelau goddefgarwch i gefnogi’r berthynas rhwng risgiau gweithredol / gwasanaeth a risgiau strategol / corfforaethol a thynnu sylw at pryd y dylid uwchgyfeirio risgiau.

## 3.4. Methodoleg

Mae'r adran hon yn ystyried pa brosesau ac offer sydd ar waith i helpu i reoli risg ac a ydynt yn effeithiol.

| Lefel 1 Tameidiog | Lefel 2 Datblygu | Lefel 3 Rheoli | Lefel 4 Integredig | Lefel 5 Trawsnewidiol |
|---|---|---|---|---|

Yn y Cyngor ceir methodoleg risg sefydledig ac, o'i gymharu â sefydliadau tebyg, mae'r cylch risg yn cael ei gwblhau i safon dda. Gan fod gan y sefydliad fan cychwyn cryf, mae cyfle sylweddol i asesu a gwerthuso'r risgiau ar lefel uwch, a fyddai'n gwella ansawdd a thrylwyredd asesu risg gan ddarparu lefel well o sicrwydd.

Mewn trafodaethau gyda'r rhai a gyfwelwyd, dywedodd rhai fod lefel o hunanfodlonrwydd oherwydd record hanesyddol dda o reoli risg, lwc dda, a lefel uchel o ymddiriedaeth mewn / dibyniaeth ar unigolion allweddol sy'n nodi risg. Ategwyd hyn gan bwyntiau eraill a godwyd yn y drafodaeth a oedd yn awgrymu bod gormod o ffocws ar sut mae risgiau'n cael eu mynegi ac nid digon ar yr elfen 'beth felly' o reoli risg. Er gwaethaf tystiolaeth yn y gofrestr risg sy'n dangos bod rheolaethau a chamau gweithredu'n cael eu hasesu'n rheolaidd, pwrpas rheoli risg menter yw llywio'r broses o wneud penderfyniadau a chwalu unrhyw rwystrau rhag llwyddiant. Roedd y cyfweliadau'n tynnu sylw at wahaniaeth rhwng lefelau ymwybyddiaeth o risg mewn adrannau a arweiniodd at wahaniaeth yn ansawdd y rheolaethau a'r camau gweithredu a oedd yn cael eu cynhyrchu rhwng adrannau. Mae angen sicrhau bod rheolaethau'n fyw, yn fesuradwy ac yn gyson ar draws pob adran yn ogystal â sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol ar ffurf targedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Perthnasol, Synhwyrol).

Gallai mwy o bwyslais mewn trafodaethau risg ar effeithiolrwydd rheoli, blaenoriaethu risg a newid dros amser gefnogi gwerthusiad y tîm arwain o'u sefyllfa risg a chyfrannu at feddwl a chynllunio tymor hir.

Ar lefel gwasanaeth, roedd swyddogion yn rhoi sicrwydd bod risg weithredol yn cael ei rheoli'n dda o fewn timau penodol, yn benodol lle mae nifer o brosiectau mawr a threfniadau gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, roedd hyn yn cael ei briodoli i hyfforddiant a sgiliau rheoli prosiectau arbenigol (fel PRINCE2) mewn rhai gwasanaethau. Bydd efelychu arferion da a hyrwyddo enghreifftiau mewnol llwyddiannus o reoli risg ar draws yr holl wasanaethau yn creu gwell cysondeb, yn gwreiddio'r fethodoleg ac yn lleihau'r pwysau capasiti ar y Tîm Risg ac Archwilio. Ar hyn o bryd mae gorddibyniaeth ar arbenigedd unigolion, yn hytrach na defnyddio'r broses rheoli risg a'i manteision fel nodi risg ar y cyd, herio fel grŵp a chynllunio camau gweithredu.

Ar ben hynny, roedd rhywfaint o bryder ynghylch rheoli risgiau trawsbynciol a sut roedd y rhain yn cael eu rheoli ar draws y Cyngor. Teimlwyd y gellid colli'r risgiau hyn o bosibl ac nad oes dull cydgysylltiedig o sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n gyson ac yn effeithiol. Dywedodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd fod angen mwy o gydweithio yn y maes hwn i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael sylw.

Yn olaf, er bod rhoi ar waith y system rheoli risg newydd (4Risk) wedi bod yn araf, roedd llawer o optimistiaeth y bydd y system yn helpu i wella ymgysylltiad â'r broses. Roedd pawb a gyfwelwyd yn teimlo bod yr ymgysylltiad gan yr uwch arweinwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gadarnhaol ac yn tynnu sylw at yr angen i gynnal momentwm. Y gobaith yw y bydd y system hon yn fwy greddfol na systemau blaenorol ac yn caniatáu monitro ac adolygu risgiau'n fwy effeithiol ac yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella o fewn y fethodoleg.

Argymhellion:

- Annog pob perchennog risg i adolygu a diweddaru unrhyw dargedau CAMPUS yn ogystal ag adolygu rheolaethau i sicrhau eu bod yn fyw, yn fesuradwy ac yn gyson,
- Ystyried sut y gellir rheoli themâu trawsbynciol a chyd-ddibyniaeth rhwng gwasanaethau er mwyn sicrhau mwy o gydweithio mewn proses fwy ffurfiol a rheolaidd.

## 3.5. Pobl a Hyfforddiant

Mae'r adran hon o'r gwiriad iechyd yn archwilio lefel yr arbenigedd a'r gallu i reoli risg ar draws y sefydliad.

| Lefel 1 Tameidiog | Lefel 2 Datblygu | Lefel 3 Rheoli | Lefel 4 Integredig | Lefel 5 Trawsnewidiol |
|---|---|---|---|---|

Un o'r themâu mwyaf cyson drwy gydol yr adolygiad oedd brwdfrydedd pobl dros gymorth a hyfforddiant ychwanegol i ddeall eu rôl yn llawn yn y broses rheoli risg. Cydnabuwyd ar yr un pryd y gallai materion capasiti fod wedi atal hyfforddiant rheolaidd rhag cael ei ddarparu'n hanesyddol a bod gan grŵp craidd o bobl yn y sefydliad ddigon o wybodaeth i gynnal proses effeithiol. Cyfeiriodd llawer at eu dibyniaeth ar wybodaeth pobl eraill, nad oeddent eu hunain wedi cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol. O ganlyniad, mae rhai swyddogion wedi etifeddu risgiau hanesyddol, cofrestrau risg a phrosesau nad ydynt yn cael eu deall yn llawn.

Nodwyd nad yw hyfforddiant rheoli risg ffurfiol ar lefel gorfforaethol wedi cael ei ddarparu ers nifer o flynyddoedd, ond bod swyddogion wedi cael cefnogaeth ac arweiniad gan y Tîm Risg ac Yswiriant yn ogystal â hyfforddiant mewn rhai meysydd gwasanaeth lle mae angen sgiliau arbenigol. Yn yr asesiad, cydnabuwyd bod cynllun ar waith i ddarparu hyfforddiant ychwanegol unwaith y bydd y symud i 4Risk wedi'i gwblhau a bod y Polisi Rheoli Risg wedi'i adolygu.

Trafodwyd rolau a chyfrifoldebau hefyd mewn perthynas â phobl a hyfforddiant. Mae'r rhestr o rolau a nodir yn y Strategaeth a'r Polisi yn glir ac yn cynnwys yn ddigonol yr holl rolau sydd eu hangen ar gyfer dull rheoli risg effeithiol. Rhoddwyd clod hefyd i'r Canllawiau Rheoli Risg sydd nid yn unig yn nodi'r broses risg mewn ffordd y gellir ei chyflawni a'i deall ond mae hefyd yn cynnwys fframweithiau arfer gorau fel dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) a diagram Bow Tie. Yr hyn nad yw'n glir, fodd bynnag, yw sut mae'r berthynas rhwng pob haen o reoli risg yn rhyngweithio â'i gilydd ac a yw'r rolau hynny, mewn gwirionedd, yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Er enghraifft, mewn cyfweliadau roedd yn anodd deall a oedd y ddogfen Canllawiau Rheoli Risg yn cael ei rhoi i staff ac yn cael ei defnyddio ganddynt.

Maes arall a drafodwyd oedd rôl yr Aelodau a sut mae'r rhwydwaith o Bwyllgorau'n cydweithio i asesu risg. Wrth siarad â'r rhai a gyfwelwyd a'r Tîm Risg ac Archwilio, dylid dogfennu'r dull canlynol a'i fwydo i sesiynau hyfforddi:

| Lefel y Risg | Nodi Risg / Cynnwys | Asesiad / Sicrwydd |
|---|---|---|
| Strategol | **Tîm Arwain:**<br><br>Dylai'r tîm arwain adnabod risg strategol a dylai cynnwys y gofrestr risg gael ei hunanasesu drwy sganio'r gorwel yn rheolaidd a thrafodaethau adnabod.<br><br>**Y Pwyllgor Gwaith:**<br><br>Dylai'r Pwyllgor Gwaith sicrhau bod y risgiau'n adlewyrchu sefyllfa bresennol y sefydliad, sicrhau bod unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried a'u cofnodi, a sicrhau bod y rhwystrau rhag cyflawni nodau strategol y sefydliad yn cael eu hadlewyrchu yng nghynnwys y gofrestr risg. Dylai'r Pwyllgor Gwaith nid yn unig fod yn fodlon bod bygythiadau a chyfleoedd blaenoriaeth yn cael eu cofnodi ond hefyd eu bod | **Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**<br><br>Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd rôl i'w chwarae o ran sicrhau bod bygythiadau a chyfleoedd strategol yn cael eu rheoli'n effeithiol. Er y gallai'r Pwyllgor fod eisiau gwneud sylwadau ar gynnwys y gofrestr risg, eu rôl yw sicrhau bod y fframwaith yn ddigon cadarn i reoli risg yn effeithiol. Gall eu hasesiad gynnwys rheoli effeithiolrwydd, monitro sgoriau risg dros amser ac adolygu unrhyw waith archwilio cysylltiedig mewn perthynas â'r risgiau strategol. |

| | | |
|---|---|---|
| | yn rhan o sgwrs ddwyffordd wrth herio ac adolygu risg. | |
| **Risg Gwasanaeth / Adrannol** | **Gwasanaethau**<br><br>Dylai fod gan bob Gwasanaeth gofrestrau risg penodol sy'n gysylltiedig â thargedau a chynlluniau gwasanaeth.<br><br>Gall prosiectau arbenigol penodol fod â chofrestrau risg ar wahân neu gael eu cynnwys fel rhan o log risg y gwasanaeth.<br><br>**Tîm Arwain y Gwasanaeth / Cyfarwyddiaeth**<br><br>Dylai'r penaethiaid Gwasanaethau a'r cyfarwyddwyr perthnasol oruchwylio risg sy'n benodol i'r Gwasanaeth yn rheolaidd. | **Pwyllgor Sgriwtini**<br><br>Pan fo'n berthnasol, efallai y bydd y Pwyllgor Sgriwtini am adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth neu brosiect penodol. |

Efallai y bydd angen i'r Cyngor wneud y rolau hyn yn fwy eglur yn ei fframwaith a rhannu'r disgrifiadau rôl gyda'r gwahanol Bwyllgorau i sicrhau eu bod yn cael eu deall yn iawn. Bydd cysylltu'r gweithgaredd hwn â chynlluniau hyfforddi sydd eisoes yn bodoli yn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol fel bod gan unigolion allweddol yr wybodaeth a'r hyfforddiant cywir i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

Argymhellion:

- Adolygu adran Rolau a Chyfrifoldebau'r Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg i sicrhau bod rolau'r Pwyllgor yn cael eu mynegi'n glir,
- Defnyddio sesiynau hyfforddi ar reoli risg i gael eglurder a chadarnhad ynghylch rolau a chyfrifoldebau aelodau.

## 3.6. Prosiectau, Partneriaid a’r Gadwyn Gyflenwi

Yn yr adran hon, rwy’n edrych ar y rheolaethau effeithiol sydd ar waith i reoli risgiau gyda phartneriaid / cyflenwyr ac mewn prosiectau.

| Lefel 1<br>Tameidiog | Lefel 2<br>Datblygu | Lefel 3<br>Rheoli | Lefel 4<br>Integredig | Lefel 5<br>Trawsnewidiol |
|---|---|---|---|---|

Yn yr un modd â nifer o gynghorau, mae gan y Cyngor amrywiaeth o brosiectau a phartneriaethau sy’n cydblethu ag amrywiaeth o weithgareddau risg. Mae monitro risg yn faes heriol oherwydd, weithiau, mae prosiectau a phartneriaethau’n cael eu monitro y tu allan i’r dull corfforaethol canolog o reoli risg.

Yn gyffredinol, roedd hyder mawr yn y trefniadau rheoli risg ar gyfer prosiectau allanol mawr oherwydd y trefniadau llywodraethu cadarn a’r arbenigedd yn y meysydd gwasanaeth perthnasol. Dywedwyd hefyd bod gan y rhan fwyaf o bartneriaethau gofrestrau risg gweithredol sy’n adrodd i’w Byrddau perthnasol. Cydnabyddir pwysigrwydd partneriaethau hefyd yn y Gofrestr Risg Strategol sy’n cael ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn. Mae lefel dda o sicrwydd bod lefel angenrheidiol a phriodol o oruchwyliaeth ar waith i reoli risgiau prosiectau a phartneriaethau.

Ni wnaeth y tîm adolygu unrhyw gofrestrau risg gweithredol na gwasanaeth fel rhan o’r Gwiriad Iechyd, ond tybir pan fydd risgiau’n gysylltiedig â chyflenwyr, partneriaethau neu ddarparwyr hanfodol, eu bod yn cael eu cynnwys mewn cofrestrau risg lleol.

Mae’r sefydliad wedi cael sgôr Lefel 3 oherwydd nifer o ffactorau. Er bod llawer o hyder mewn prosesau a threfniadau, mae rheoli risgiau prosiect yn cael ei wneud ar wahân i’r dull risg strategol. Er nad oes angen adrodd ar holl risgiau prosiectau yn ganolog, heb oruchwyliaeth na phwyntiau cyffwrdd sefydledig, mae’n anodd i’r sefydliad ddeall cyfanswm cost y risg y mae’n agored iddi ac os yw’r risg yn cael ei mesur yn gyson ar draws y sefydliad.

Ar ben hynny, roedd ein sgyrsiau’n tynnu sylw at y ffaith bod caffael hefyd wedi cael ei nodi fel maes i’w wella, gydag archwiliadau diweddar yn darparu argymhellion allweddol i’w rhoi ar waith. Ar draws y sector cafwyd nifer o enghreifftiau lle na ddilynwyd prosesau caffael gan arwain at fwy o fygythiadau a chamgymeriadau y gellid bod wedi’u hosgoi. Byddai monitro contractau a chyflenwyr allweddol drwy wneud mwy o ddefnydd o gofrestrau risg gwasanaeth yn sicrhau bod rhywfaint o oruchwyliaeth a chofnod o’r cysylltiadau hyn. Byddai hefyd yn cefnogi parhad busnes a threfniadau cynllunio ar gyfer argyfwng wrth nodi gwasanaethau a chyflenwyr hanfodol yng ngoleuni digwyddiadau aflonyddol.

Argymhellion:

- Adolygu’r posibilrwydd o oruchwyliaeth risg ganolog ar gyfer prosiectau mawr neu oddefiadau penodol sy’n pennu pryd mae angen i brosiectau fod yn weladwy i’r Tîm Risg ac Yswiriant er mwyn gwella’r broses o asesu a rheoli risg ar y cyd.

# 4. Atodiadau

## 4.1 Crynodeb o'r Argymhellion

| | |
|---|---|
| **Diwylliant Risg ac Arweinyddiaeth** | • Ystyried darparu hyfforddiant ychwanegol i uwch arweinwyr a phenaethiaid adrannau mewn perthynas â'u cyfrifoldebau o ran rheoli risg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y ddibyniaeth ar berson allweddol , sef y Swyddog Risg ac Yswiriant, yn cael ei ddiwallu. Ar hyn o bryd mae risg uchel o fethiant mewn perthynas â rheoli risg pe na bai'r Swyddog Risg ac Yswiriant ar gael.<br>• Darparu hyfforddiant ychwanegol i Aelodau i helpu i sicrhau eu bod yn gallu herio a chraffu'n effeithiol ar risgiau strategol allweddol sy'n cyd-fynd â'r rolau a'r cyfrifoldebau fel y nodir yn y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg,<br>• Adolygu'r templedi adrodd corfforaethol presennol i sicrhau bod adolygiad risg yn cael ei gynnwys fel adran safonol i annog arweinwyr i ystyried penderfyniadau allweddol yn erbyn proffil risg a pharodrwydd i dderbyn risg y sefydliad. |
| **Parodrwydd i Dderbyn Risg a Strategaeth** | • Adolygu datganiadau parodrwydd i dderbyn risg gyda'r tîm arwain a darparu hyfforddiant perthnasol i sicrhau eu bod yn gyfredol, yn berthnasol ac yn adlewyrchu cyfeiriad strategol presennol y sefydliad. Dylid defnyddio'r rhain i helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau yn y sefydliad a dylid eu defnyddio fel ffordd allweddol o adolygu risgiau strategol a'u mesurau lliniaru.<br>• Ystyried darparu hyfforddiant i uwch arweinwyr mewn perthynas â pharodrwydd i dderbyn risg i sicrhau bod dealltwriaeth ddigonol o'r ffordd y dylid cymhwyso hyn o fewn y Cyngor, a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n effeithiol ac yn gyson i arweinwyr adrannol.<br>• Cynnwys map gwres risg mewn adroddiadau risg i annog y tîm arwain i weld y portffolio cyfan o risgiau a deall sefyllfa gyfunol y sefydliad mewn perthynas â'i barodrwydd i dderbyn risg. |
| **Llywodraethiant** | • Defnydd pellach o'r rhwydwaith o gydlynwyr risg ar draws y sefydliad i hyrwyddo arfer gorau o ran risg a rhannu gwybodaeth am risg. Gallai'r gweithgaredd gynnwys trafodaethau grŵp risg rheolaidd gyda chydlynwyr risg a/neu hyfforddiant cydlynydd risg i sefydlu rolau a chyfrifoldebau.<br>• Mwy o ddefnydd o ddangosyddion perfformiad allweddol a lefelau goddefgarwch i gefnogi'r berthynas rhwng risgiau gweithredol / gwasanaeth a risgiau strategol / corfforaethol a thynnu sylw at pryd y dylid uwchgyfeirio risgiau. |
| **Methodoleg** | • Annog pob perchennog risg i adolygu a diweddaru unrhyw dargedau a rheolaethau CAMPUS i sicrhau eu bod yn fyw, yn fesuradwy ac yn gyson,<br>• Ystyried sut y gellir rheoli themâu trawsbynciol a chyd-ddibyniaeth rhwng gwasanaethau er mwyn sicrhau mwy o gydweithio mewn proses fwy ffurfiol a rheolaidd. |

| | |
|---|---|
| **Pobl a Hyfforddiant** | • Adolygu adran Rolau a Chyfrifoldebau'r Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg i sicrhau bod rolau'r Pwyllgor yn cael eu mynegi'n glir,<br>• Defnyddio sesiynau hyfforddi ar reoli risg i gael eglurder a chadarnhad ynghylch rolau a chyfrifoldebau aelodau. |
| **Prosiectau, Partneriaid a'r Gadwyn Gyflenwi** | • Adolygu'r posibilrwydd o oruchwyliaeth risg ganolog ar gyfer prosiectau mawr neu oddefiadau penodol sy'n pennu pryd mae angen i brosiectau fod yn weladwy i'r Tîm Risg ac Yswiriant er mwyn gwella'r broses o asesu a rheoli risg ar y cyd. |

Zurich Management Services Limited
Cofrestrwyd yn Lloegr: Rhif 2741053
Swyddfa Gofrestredig
The Zurich Centre, 3000 Parkway
Whitely, Fareham
Hampshire, PO15 7JZ



173007574 (04/21) TCL

## 4.2 Asesiad Aeddfedrwydd

| | Diwylliant Risg ac Arweinyddiaeth | Parodrwydd i Dderbyn Risg a Strategaeth | Llywodraethiant | Methodoleg | Pobl a Hyfforddiant | Prosiectau, Partneriaethau a'r Gadwyn Gyflenwi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lefel 5 Trawsnewidiol** | Caiff Rheoli Risg ei hyrwyddo'n frwd gan y Prif Swyddog Gweithredol, yr Uwch Reolwyr a'r Aelodau. Rhoddir ystyriaeth gref i risg ym mhob proses gwneud penderfyniadau | Mae parodrwydd i dderbyn risg yn cael ei adolygu bob blwyddyn o leiaf ac mae'n cael ei ystyried mewn pwyntiau penderfynu allweddol gan gynnwys gweithrediadau o ddydd i ddydd, yn ogystal â phenderfyniadau strategol | Mae'r Aelodau a'r uwch reolwyr yn goruchwylio'r gwaith o reoli risg yn weithredol | Mae rheoli risg ac ansicrwydd wedi'i integreiddio'n dda â'r holl brosesau busnes allweddol a dangoswyd ei fod yn sbardun allweddol i lwyddiant busnes | Mae gan staff y grym i fod yn gyfrifol am reoli risg ac mae gan y sefydliad hanes da o gymryd risgiau sy'n cael eu rheoli'n dda | Mae rheoli risg yn weithgaredd ar y cyd rhwng pob parti a dangosir ei fod yn un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno llwyddiant |
| **Lefel 4 Integredig** | Mae'r Uwch Reolwyr ac Aelodau'n herio gwybodaeth am risg yn adeiladol ac yn ystyried risg yn y prosesau gwneud penderfyniadau | Mae'r sefydliad wedi ffurfioli ei barodrwydd i dderbyn risg ac mae datganiadau'n bodoli ar gyfer pob prif gategori risg i'w defnyddio'n ymarferol ar bwyntiau penderfynu allweddol | Mae'r trefniadau llywodraethu yn effeithiol ac yn cyd-fynd â phrosesau eraill yn y sefydliad | Defnyddir prosesau rheoli risg i gefnogi prosesau busnes allweddol a darparu gwasanaethau | Mae canllawiau addas ar gael, ac mae rhaglen hyfforddi wedi cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod y gallu i reoli risg yn parhau | Mae fframweithiau llywodraethu cadarn yn cael eu sefydlu yn y meysydd hyn ac mae nodau risg cyffredin yn cael eu nodi ymysg yr holl bartïon |
| **Lefel 3 Rheoli** | Mae'r uwch reolwyr a'r Aelodau yn arwain y gwaith o reoli risg ar draws y sefydliad ac mae cofrestr o risgiau strategol allweddol yn cael ei chadw | Mae'r uwch reolwyr yn deall ac yn defnyddio cysyniadau parodrwydd i dderbyn risg a goddefgarwch wrth drafod risgiau strategol | Mae trefniadau adrodd a sicrwydd ffurfiol ar gyfer rheoli risg yn bodoli sy'n rhoi gwerth i'r sefydliad ac sy'n cael eu defnyddio'n gyson | Mae prosesau rheoli risg wedi'u sefydlu ac yn effeithiol ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y sefydliad | Mae gan grŵp craidd o bobl y sgiliau, y wybodaeth a'r gallu i reoli risg yn effeithiol ac yn gweithredu'r fframwaith risg ar draws y sefydliad | Mae'r risg a reolir yn y meysydd hyn yn effeithiol, gydag adnoddau priodol |
| **Lefel 2 Datblygu** | Mae uwch reolwyr ac Aelodau wrthi'n datblygu diwylliant risg y sefydliad ac mae 'hyrwyddwr risg' ar lefel uwch wedi'i benodi | Mae strategaethau a pholisïau Rheoli Risg yn cael eu llunio, eu cyfathrebu ac yn cael eu gweithredu ond nid yw Parodrwydd i Dderbyn Risg yn gysyniad sy'n cael ei ddefnyddio'n weithredol yn y sefydliad, hyd yn oed os yw'n cael ei grybwyll yn y polisi / strategaeth | Mae adroddiadau a sicrwydd yn bodoli ond maent yn y broses o gael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd neu mae angen eu datblygu | Mae prosesau rheoli risg yn bodoli ond maent yn y broses o gael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd neu mae angen eu datblygu | Mae'r sefydliad yn cymryd camau i gynyddu capasiti a chymhwysedd unigolion sydd â rolau a chyfrifoldebau rheoli risg | Mae dulliau ar gyfer rheoli risg yn y meysydd hyn yn bodoli ond maent yn y broses o gael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd neu mae angen eu datblygu |
| **Lefel 1 Tameidiog** | Mae'r uwch reolwyr a'r Aelodau yn ymwybodol o'r angen i reoli risgiau | Mae Rheoli Risg yn ysbeidiol ac yn ddistrwythur o fewn y sefydliad | Mae'r gwaith o fonitro ac adrodd ar risgiau yn gyfyngedig a dim ond ar gais yr uwch reolwyr neu'r Aelodau y gwneir hynny | Nid oes proses ffurfiol yn bodoli ar gyfer rheoli risg o fewn y sefydliad | Mae pobl allweddol yn ymwybodol o'r angen i ddeall egwyddorion risg ond mae bwlch sgiliau ar draws y sefydliad | Mae pobl allweddol yn ymwybodol o ffactorau risg posibl yn y meysydd hyn |



Zurich Management Services Limited
Cofrestrwyd yn Lloegr: Rhif 2741053
Swyddfa Gofrestredig
The Zurich Centre, 3000 Parkway
Whitely, Fareham
Hampshire, PO15 7JZ

173007574 (04/21) TCL

Zurich Management Services Limited

Cofrestrwyd yn Lloegr: Rhif 2741053
Swyddfa Gofrestredig
The Zurich Centre, 3000 Parkway
Whitely, Fareham
Hampshire, PO15 7JZ

173007574 (04/21) TCL

# Adolygiad Rheoli Risg (Zurich)

Ionawr 2024



Tudalen 140

## Cynllun Gweithredu

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Julie Jones



| Cyf | Mater / Risg | Graddfa Risg | Camau Arfaethedig gan Reolwyr | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae peth ansicrwydd ynglŷn â rôl aelodau mewn perthynas â chraffu ar risgiau Strategol, yn enwedig o ran rôl a pherthynas y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r pwyllgorau sgriwtini. Byddai modd diffinio cyfrifoldebau'r Aelod Portffolio yn fwy eglur. (Argymhellion 11 a 12) | | Adolygu'r adran Rolau a Chyfrifoldebau yn y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg i sicrhau fod rolau a chyfrifoldebau Pwyllgorau'n cael eu diffinio'n glir. | Marion Pryor / Julie Jones | Ebrill 2024 |
| 2 | Nid yw'r holl randdeiliaid perthnasol yn deall y parodrwydd i dderbyn risg ac mae peth amwysedd ynglŷn ag ystyr y gwahanol gategorïau parodrwydd i dderbyn risg, ac, oherwydd hynny, mae ansicrwydd ynglŷn â lefel y risg nad yw'r sefydliad yn fodlon ei dderbyn. (Argymhellion 1, 4 a 5) | | Adolygu datganiadau parodrwydd i dderbyn risg i sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru, eu bod yn berthnasol a'u bod yn adlewyrchu cyfeiriad strategol presennol y sefydliad. | Marion Pryor / Julie Jones | Mawrth 2025 |
| | | | Darparu hyfforddiant i Gyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth ac uwch reolwyr eraill ynglŷn â'u cyfrifoldebau yn gysylltiedig â rheoli risg a pharodrwydd i dderbyn risg. | Marion Pryor / Julie Jones | Hydref 2024 |
| 3 | Mae'n ymddangos bod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb roi ystyriaeth gyson i'r parodrwydd i dderbyn risg, neu mae'n cael ei gysylltu â'r penderfyniad ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud (Argymhellion 3 a 6) | | Adolygu'r templedi adrodd corfforaethol i sicrhau eu bod yn cynnwys adran safonol ar gyfer risg er mwyn annog arweinwyr i ystyried risg a parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor wrth wneud penderfyniadau. | Gwyndaf Parry | Medi 2024 |
| | | | Cynnwys map gwres risg yn yr adroddiadau risg i annog arweinwyr i edrych ar y portffolio cyfan o risgiau a deall sefyllfa gyfunol y Cyngor mewn perthynas â'i parodrwydd i dderbyn risg. | Marion Pryor / Julie Jones | Ebrill 2024 |

| Cyf | Mater / Risg | Graddfa Risg | Camau Arfaethedig gan Reolwyr | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Nid oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o safbwyntiau Aelodau a'u her gadarnhaol mewn perthynas â risg ac ymddengys nad oes gan rai aelodau hyder, gwybodaeth a dealltwriaeth o'u rôl i fedru cymryd rhan effeithiol yn y broses. (Argymhellion 2 a 12) | | Darparu hyfforddiant addas i Aelodau i'w cynorthwyo i herio a chraffu'n effeithiol ar risgiau a deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, fel y cânt eu nodi yn y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg. | Marion Pryor / Julie Jones | Hydref 2024 |
| 5 | Mae'n ymddangos nad oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o rôl cydlynwyr risg yn y gwasanaethau, gan olygu fod mwy o ddibyniaeth ar y Tîm Archwilio Mewnol a Risg mewn perthynas â rheoli risg; byddai hyfforddiant pellach yn golygu fod llai o ddibyniaeth ar bersonau allweddol. (Argymhelliad 7) | | Darparu hyfforddiant i gydlynwyr risg er mwyn sefydlu eu rolau a'u cyfrifoldebau a datblygu eu dealltwriaeth o risgiau ymhellach. | Marion Pryor / Julie Jones | Hydref 2024 |
| 6 | Gallai risgiau trawsbynciol gael eu methu gan yr ymddengys nad oes dull cydgysylltiedig ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n gyson ac yn effeithiol. (Argymhelliad 10) | | Cyflwyno proses i reoli themâu trawsbynciol a chyd-ddibyniaeth rhwng gwasanaethau er mwyn creu mwy o gydweithio mewn proses fwy ffurfiol a rheolaidd. | Marion Pryor / Julie Jones | Medi 2024 |
| 7 | Mae lefelau ymwybyddiaeth o risgiau yn y gwasanaethau yn anghyson gan olygu fod ansawdd y mesurau rheoli a'r gweithredoedd yn amrywio. Nid yw gweithredoedd bob amser ar ffurf targedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Perthnasol, Synhwyrol). (Argymhelliad 9) | | Adolygu a diweddaru holl fesurau rheoli risg a gweithredoedd gwasanaethau i sicrhau eu bod ar waith, yn fesuradwy ac yn gyson. | Pob perchennog risg | Medi 2024 |

| Cyf | Mater / Risg | Graddfa Risg | Camau Arfaethedig gan Reolwyr | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Mae'n ymddangos fod risgiau prosiectau'n cael eu rheoli ar wahân i'r trefniadau ar gyfer rheoli risgiau strategol, sy'n gwneud hi'n anodd i'r sefydliad ddeall cyfanswm cost y risg y mae'n ei wynebu a sicrhau fod risgiau'n cael eu mesur yn gyson ar draws y sefydliad. (Argymhelliad 13) | | Ystyried proses i ddarparu trosolwg canolog o risgiau ar gyfer prosiectau mawr neu oddefiant penodol sy'n pennu pryd mae angen i brosiectau fod yn weladwy. | Gwyndaf Parry / Julie Jones | Tachwedd 2024 |
| 9 | Nid yw dangosyddion perfformiad allweddol (y cyfeirir atynt yn y Polisi Rheoli Risg) yn cael eu hintegreiddio na'u gwreiddio'n llawn, gan olygu bod dibyniaeth ar unigolion allweddol i uwchgyfeirio a monitro risgiau yn hytrach na bod gwasanaethau'n monitro eu risgiau'n annibynnol. (Argymhelliad 8) | | Gwneud mwy o ddefnydd o ddangosyddion perfformiad allweddol a lefelau goddefiant i gefnogi'r berthynas rhwng y cofrestrau risgiau ac amlygu pryd ddylid uwchgyfeirio risgiau. | Julie Jones | Medi 2024 |

# Matrics Risg – Crynodebau o 'Risgiau / Materion'

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOLRWYDD | Yn ystod y 3 mis nesaf | **Bron yn Sicr** | **5** | | | | | |
| | Yn ystod y 12 mis nesaf | **Tebygol** | **4** | | | | | |
| | Yn ystod y 2 flynedd nesaf | **Posib** | **3** | | | | | |
| | Yn ystod y 5 mlynedd nesaf | **Annhebygol** | **2** | | | | | |
| | Nid yn ystod y 25 mlynedd nesaf | **Prin** | **1** | | | | | |
| **MÂN** | | **CYMEDROL** | | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
| **SYLWEDDOL** | | **CRITIGOL** | | **Dinod** | **Mân** | **Cymedrol** | **Sylweddol** | **Trychinebus** |
| Amcanion | | | | Ychydig o oedi wrth gyflawni amcanion | Lleihau cwmpas neu ansawdd amcan eilaidd | Lleihau cwmpas neu ansawdd prif amcan neu oedi sylweddol wrth gyflawni amcan eilaidd | Oedi sylweddol wrth gyflawni prif amcan, neu ni ellir cyflawni amcan eilaidd | Ni ellir cyflawni prif amcan |
| Enw Da | | | | Pryder cyhoeddus wedi'i gyfyngu i gwynion lleol | Mân sylwadau a chwynion anffafriol yn lleol / cyhoeddus / yn y cyfryngau | Sylw andwyol yn lleol neu fân sylw anffafriol yn y cyfryngau yn rhanbarthol neu'n genedlaethol | Beirniadaeth negyddol ddifrifol yn rhanbarthol neu'n genedlaethol | Condemniad rhanbarthol a chenedlaethol estynedig |
| Cost Ariannol | | | | <£100k | £100k - £500k | £500k - £2m | £2m - £5m | >£5m |
| Iechyd a Diogelwch | | | | Damwain neu fân anaf a fu bron a digwydd nad oedd angen unrhyw driniaeth feddygol broffesiynol | Mân anaf a oedd angen triniaeth feddygol broffesiynol | Anaf difrifol | Anaf sy'n newid bywyd | Marwolaeth |
| Diogelu | | | | Dim effaith o ran diogelu | Un achos o beidio â chydymffurfio â gweithdrefnau | Enghreifftiau parhaus o beidio â chydymffurfio â gweithdrefnau | Mater diogelu unigol | Materion diogelu niferus a chysylltiedig |
| Rheoleiddio | | | | Dim effaith o ran rheoleiddio | Digwyddiad y mae'n rhaid rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr amdano, nid oes angen dilyn i fyny | Rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr am achos o dorri rheolau y mae'n rhaid ei gywiro ar unwaith | Erlyniad gan y rheoleiddiwr sy'n arwain at ddirwyon neu ymyrraeth sydd angen prosiect er mwyn gallu cywiro'r sefyllfa | Erlyniad gan y rheoleiddwyr sy'n arwain at ddirwyon sylweddol ac ymyrraeth ar raddfa fawr |
| Amgylcheddol | | | | Effaith bychan yn y tymor byr | Effaith tymor byr nad oes angen fawr o adnoddau i'r ddatrys | Effaith tymor byr y mae angen adnoddau sylweddol i'w ddatrys | Effaith tymor byr difrifol neu rywfaint o effaith yn y tymor hir | Effaith difrifol yn y tymor hir |
| **EFFAITH** | | | | | | | | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Strategaeth Ddigidol – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Cyfeirnod y ddogfen:3945A2023

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Crynodeb o'r Adroddiad 4

Adroddiad manwl

Yr hyn y gwnaethom edrych arno a pham — cwmpas yr archwiliad hwn 6

Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn 6

Strategaeth ddigidol y Cyngor 7

Yr hyn a ganfuwyd gennym: ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor ddull strategol effeithiol o ymdrin â digidol 7

Atodiadau

Atodiad 1 – cwestiynau allweddol a meini prawf archwilio 11

# Crynodeb o’r adroddiad

## Crynodeb o’r adroddiad

**Arddangosyn 1: crynodeb o’r adroddiad**

Mae’r arddangosyn isod yn crynhoi’r rheswm y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn, ein canfyddiadau allweddol a’n hargymhellion ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor).

**Pam fod dull strategol digidol yn bwysig**

1 Mae technoleg ddigidol yn allweddol i ddarparu ystod eang o wasanaethau cyngor mewn ffordd fwy darbodus, effeithlon ac effeithiol, ac mae hefyd yn ffordd bwysig i gynghorau gyflawni eu hamcanion llesiant a mynd ar drywydd datblygu cynaliadwy.

2 Mae bod â dull strategol digidol eglur yn gallu dwyn nifer o fanteision megis:

- sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol a’r deilliannau bwriadedig i gymunedau lleol sy’n gysylltiedig ag amcanion strategol y Cyngor;
- helpu i sicrhau bod defnydd cynghorau o dechnoleg ddigidol yn cyd-fynd â’u hamcanion strategol allweddol a chynlluniau a strategaethau eraill a’i fod wedi’i oleuo gan ddealltwriaeth dda am dueddiadau yn awr ac yn y dyfodol;
- lleihau’r risg o ddyblygu o fewn cynghorau a chyda phartneriaid;
- ystyried yr adnoddau a ddarperir ar gyfer datblygiadau digidol dros y tymor byr, canolig a hwy gyda’i gilydd; a
- darparu fframwaith i’w ddefnyddio i fonitro cynnydd dros y tymor byr, hir a chanolig.

**Ffocws ein harchwiliad**

3 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae dull strategol digidol y Cyngor wedi cael ei ddatblygu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau’r Cyngor.

**Ein canfyddiadau allweddol**

4 Nid oes gan y Cyngor ddull strategol cyfredol o ymdrin â digidol na strategaeth ddigidol gymeradwy neu gyfwerth. Mae absenoldeb ymagwedd strategol yn golygu na all y Cyngor ddangos ei fod yn cynllunio dros amserlen briodol, wedi'i lywio gan ystyriaethau perthnasol a chyfraniad rhanddeiliaid. Mae hefyd yn golygu nad yw'r Cyngor wedi ystyried goblygiadau adnoddau ei ymagwedd at ddigidol yn y tymor byr a'r tymor hwy ac nid yw wedi datblygu mesurau i fonitro cynnydd wrth ei roi ar waith.

**Ein hargymhellion i’r Cyngor**

**A1 Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth**

Er mwyn helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn wybodus a bod ei adnoddau’n cael eu targedu’n effeithiol, wrth ddatblygu ei strategaeth dylai’r Cyngor ddefnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys

- cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y strategaeth ddigidol yn ogystal â thynnu ar farn rhanddeiliaid o ffynonellau presennol;
- amcanion a strategaethau cyrff cyhoeddus eraill, a nodi cyfleoedd i gydweithio;
- dadansoddiad pellach o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol (gweler ein meini prawf archwilio ar gyfer C.1.1 a C1.2 yn Atodiad 1 am rai enghreifftiau o'r hyn y gallai hyn ei gynnwys)

**A2 Nodi goblygiadau adnoddau**

Er mwyn helpu i sicrhau bod modd cyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor nodi'r goblygiadau o ran adnoddau yn y tymor byr a'r hirdymor o'i chyflawni ynghyd ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd a fwriedir.

**A3 Trefniadau ar gyfer monitro gwerth am arian**

Er mwyn gallu monitro gwerth am arian ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro ei gynnydd a'i effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy.

# Adroddiad manwl

## Yr hyn y gwnaethom edrych arno — cwmpas yr archwiliad hwn

1 Gwnaethom adolygu dull strategol digidol y Cyngor, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac i ba raddau y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

2 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda sampl o Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac uwch-swyddogion. Cyfyngwyd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau i'r ffynonellau hyn. Ymgymerwyd â'r gwaith yn ystod mis Mehefin 2023.

3 Aethom ati i ateb y cwestiwn '**Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**' Gwnaethom hyn drwy edrych ar y cwestiynau canlynol:

- A yw strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau presennol a thueddiadau'r dyfodol?
- A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae'n dymuno ei gyflawni drwy ddefnyddio technoleg ddigidol?
- A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol?
- A yw'r Cyngor wedi darparu adnoddau ar gyfer ei strategaeth ddigidol fel y gall gyflawni buddion hirdymor/ataliol?
- A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd?
- A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o'r ffordd y mae'n gweithio?

4 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl yr aethom ati i'w hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

## Pam y cynhaliwyd yr archwiliad hwn

5 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

6 Gwnaethom geisio gwneud yr hyn a ganlyn:

- rhoi sicrwydd y bydd strategaethau digidol cynghorau yn helpu i gyflawni amcanion llesiant mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;
- rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio eu strategaethau digidol;

- esbonio sut mae cynghorau'n defnyddio/gwneud cynlluniau i ddefnyddio technoleg ddigidol i ddiwallu anghenion pobl a chyflawni canlyniadau gwell; ac
- ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arferion/dulliau nodedig pan fo hynny'n berthnasol.

# Strategaeth ddigidol y Cyngor

7 Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi strategaeth ddigidol gorfforaethol newydd bydd yn cael ei chymeradwyo yn ddiweddarach eleni. Roedd y strategaeth ddigidol flaenorol yn cwmpasu'r cyfnod 2017-21 ac fe'i hymestynnwyd i gwmpasu'r cyfnod hyd at fis Ebrill 2022.

8 Mae'r strategaeth ysgolion digidol yn rhychwantu 2022-24 ac yn ceisio mynd i'r afael â'r materion caledwedd a seilwaith ar gyfer ysgolion yr Ynys.

9 Yn absenoldeb strategaeth gyfredol mae gan y Cyngor fodel 'partner busnes' lle mae gan bob un ond un o'r gwasanaethau bwynt cyswllt mewn TG. Defnyddir hwn fel cyfrwng cyfathrebu dwy ffordd ar ofynion digidol y gwasanaethau a'u galluoedd digidol posibl. Mae'r Cyngor wedi ein hysbysu y bydd y Cynllun Digidol Strategol yn destun ei drefniadau rheoli perfformiad a monitro arferol.

# Yr hyn a ganfuwyd gennym: Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor ddull strategol effeithiol o ymdrin â digidol

## Nid yw'r Cyngor wedi defnyddio ystod eang o ffynonellau tystiolaeth i helpu i lywio ei strategaeth ddigidol

10 Mae dealltwriaeth y Cyngor o'r sefyllfa bresennol yn canolbwyntio ar ddigidol fel dull amgen ac ychwanegol o gysylltu â'r Cyngor a chael mynediad at wasanaethau yn hytrach nag fel dull posibl o fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau. Ar ôl gweld cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio sianeli digidol, mae'r Cyngor yn disgwyl newid i'r cyfeiriad hwn ond mae'n ymwybodol y bydd rhai cwsmeriaid yn gofyn am barhad o sianeli ffôn ac wyneb yn wyneb hefyd.

11 Mae dealltwriaeth gyfyngedig o'r ffactorau hirdymor a fydd yn effeithio ar strategaeth ddigidol y Cyngor a'r heriau a'r cyfleoedd a allai ddeillio o hynny. Mae'r Cyngor yn bennaf wedi nodi ffactorau tymor byr neu ganolig a fydd yn effeithio ar sut y gellid gwella eu gwasanaethau cwsmeriaid. Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan y Cyngor ar gyfer 2023-28 yn nodi bod cyfleoedd trawsnewid digidol ond nid beth gallent fod. Drwy gyfyngu ar ei ddefnydd o ddigidol fel modd i drigolion gael mynediad at wasanaethau, efallai y bydd y Cyngor yn colli cyfleoedd i ddefnyddio

digidol i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau presennol a dyfodol a chydbwyso'r angen i fodloni amcanion tymor byr a thymor hwy.

12 Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod y Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol. Nid yw’r amserlen ar gyfer strategaeth ddigidol nesaf y Cyngor wedi’i phenderfynu eto; mae peth pryder ynghylch ymrwymo i gynlluniau digidol nad oes ganddynt hirhoedledd efallai. Mae cyfnod strategaeth o bum mlynedd wedi'i gyflwyno i gyd-fynd â hyd Cynllun diweddaraf y Cyngor ond oherwydd y newidiadau radical a ddisgwylir mewn datblygiadau digidol, mae'r Cyngor hefyd yn ystyried cynhyrchu dogfen bolisi lefel uchel gyda chynlluniau cyflawni blynyddol. Mae’r strategaeth ysgolion digidol yn rhychwantu 2022-24 ac nid yw’n mynd i’r afael â goblygiadau cost hirdymor adnewyddu caledwedd. Nid yw'r Cyngor wedi gosod mesurau na cherrig milltir ar gyfer ei strategaeth ysgol ddigidol i helpu i fonitro ei effeithiau tymor byr a thymor hir a gwerth am arian. Mae absenoldeb y mesurau neu'r cerrig milltir hyn yn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor allu asesu gwerth am arian y strategaeth.

## Mae’r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd alinio ei strategaeth ddigidol â dogfennau allweddol eraill, ond mae’n rhy gynnar i asesu a fydd hyn yn arwain at ddull integredig

13 Gan fod y Cyngor yn datblygu ei strategaeth ddigidol pan wnaethom gynnal yr adolygiad hwn, mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau i ba raddau y bydd yn cyd-fynd â'i gynlluniau a strategaethau corfforaethol eraill a rhai cyrff eraill. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i'w strategaeth ddigidol nesaf fod yn gydnaws â'i gynlluniau corfforaethol allweddol eraill.

14 Nodwn, yn ystod y cyfnod pontio ar ôl i’w strategaeth ddigidol flaenorol ddod i ben, i’r Cyngor ddefnyddio matrics sgorio gyda phwysiadau ar gyfer ystyriaethau megis

- perthnasedd i gynllun y cyngor ac amcanion llesiant;
- gostyngiad yn y galw oherwydd methiant; a
- chydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;

i benderfynu pa brosiectau digidol ddylai gael eu blaenoriaethu gan y tîm TG. Mae staff allweddol yn nodi y gallai matrics tebyg fod yn rhan o'r strategaeth lefel uchel nesaf.

15 Mae’r Cyngor yn dymuno i’w strategaeth ddigidol nesaf alinio mewn egwyddor â cherrig milltir amser a nodir o fewn ystod o strategaethau digidol cyrff cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, ar adeg y gwaith maes, ni allai'r Cyngor ddangos sut y mae wedi ceisio integreiddio ei waith â gwaith sefydliadau partner. Byddai alinio strategaeth ddigidol y Cyngor â’i amcanion llesiant, cynlluniau a strategaethau eraill a rhai cyrff cyhoeddus eraill yn lleihau’r risg o ddyblygu ac yn helpu i nodi cyfleoedd i ddarparu buddion lluosog.

## Nid yw'r Cyngor wedi nodi'r rhanddeiliaid y mae angen iddo eu cynnwys wrth ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf

16 Nid yw'r Cyngor wedi nodi'r amrywiaeth o randdeiliaid y mae angen iddo eu cynnwys wrth ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf. Ar y pwynt hwn, cyn i ddrafft gael ei gynhyrchu, nid yw'r Cyngor ychwaith yn gallu dangos ei fod yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl y mae ei strategaeth ddigidol yn effeithio arnynt yn effeithiol. Rydym yn deall y bydd strategaeth ddigidol nesaf y Cyngor yn canolbwyntio ar brofiad gwell i gwsmeriaid ac yn cyfrannu at gyflawni ei siarter cwsmeriaid newydd, ond nid yw'n glir a fydd y Cyngor yn ymgynghori ar ei strategaeth neu unrhyw brosiectau ar ôl iddynt gael eu datblygu.

17 Canfu adolygiad y Cyngor ei hun o'i ddull digidol nad digidol yw'r dull cyfathrebu a ffefrir gan rai. Mae'r Cyngor mewn perygl o ddyrannu adnoddau'n amhriodol drwy beidio â cheisio barn darpar ddefnyddwyr ar y rhesymau dros hyn.

18 Nid yw'r Cyngor wedi cynnal ymarfer mapio i nodi gwahanol randdeiliaid sydd â diddordeb yn natblygiad a chyflwyniad ei strategaeth ddigidol nesaf. Mae peidio â chynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu dull strategol y Cyngor, na'i gyflawni, yn peri risg o gynllunio dulliau nad ydynt yn bodloni anghenion dinasyddion ac nad ydynt felly'n sicrhau gwerth am arian.

## Nid yw'r Cyngor wedi nodi goblygiadau adnoddau hirdymor ei strategaeth ddigidol nesaf

19 Nid yw'r Cyngor wedi cyfrifo'r goblygiadau adnoddau hirdymor ar gyfer ei strategaeth ddigidol nesaf eto, er ei fod yn eu hystyried yn her ariannol sylweddol yng nghyd-destun pwysau ariannol ehangach. Mae'r symiau a gyfrifwyd ac a neilltuwyd i wireddu nodau tymor byr i ganolig prosiectau digidol wedi'u rhestru mewn dogfennau allweddol eraill ers i'r strategaeth flaenorol ddod i ben. Mae'r Cyngor yn disgwyl i gynllun cyflawni blynyddol y strategaeth ddigidol nesaf gefnogi Cynllun y Cyngor, a dim ond y flwyddyn gyntaf, 2023-24, a gafodd ei gostio. Mae'r cynlluniau darparu gwasanaeth yn rhestru'r gwariant a ragwelir hyd at 2025-26 ond maent yn seiliedig ar brisiau 2023-24.

20 Dim ond yn rhannol yr ymdrinnir â chostau oes gyfan y strategaeth ysgolion digidol yn y Strategaeth Gyfalaf. mae'r Cyngor wedi mabwysiadu egwyddor bod 'swm' amhenodol yn cael ei ddyrannu yn y rhaglen gyfalaf bob blwyddyn i ariannu'r gwelliant mawr i, neu amnewid, offer TG presennol ac y bydd cais yn cael ei gyflwyno cyn 2029 i adnewyddu caledwedd rhwydwaith.

21 Nid yw'r Cyngor wedi ystyried sut y gallai ddyrannu adnoddau i sicrhau canlyniadau gwell yn y tymor hwy. Er enghraifft, buddsoddi mewn technoleg ddigidol a allai arwain at gostau sylweddol ymlaen llaw ond sy'n sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau gwell yn y tymor hwy. Byddai ystyried a fyddai modd defnyddio adnoddau'r Cyngor orau i sicrhau buddion yn y tymor hwy, a'r ffordd orau o'u defnyddio, yn ei helpu i ddangos ei fod yn cymhwyso'r egwyddor

datblygu cynaliadwy. Mae hefyd yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

## Mae gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro cynnydd

22 Yn absenoldeb strategaeth, mae'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd prosiectau digidol unigol o ran cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb a pha amcanion llesiant y maent yn cyfrannu atynt. Mae hyn wedi'i nodi yn yr adroddiad monitro cerdyn sgorio chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith. Nid yw trefniadau monitro ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor wedi'u cadarnhau eto. Roedd y broses interim ar gyfer dewis prosiectau yn pwysleisio'r manteision hirdymor o safbwynt gwerth am arian ond nid yw'n glir sut y caiff hyn ei adolygu unwaith y bydd prosiectau wedi'u dewis i'w cyflawni. Cyfeiriwyd at y system AD fel buddsoddiad gwerth am arian hirdymor gan fod y fanyleb yn nodi bod ei hyblygrwydd yn ei gwneud yn haws i addasu ar gyfer gofynion y dyfodol pe baent yn newid.

23 Mae monitro cyflawniad amcanion ar gyfer dull strategol y Cyngor a phrosiectau digidol unigol yn bwysig er mwyn deall effaith buddsoddiad y Cyngor mewn digidol, ac felly effaith trefniadau i sicrhau gwerth am arian.

## Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei ddull strategol o ymdrin â digidol ond nid yw trefniadau ar gyfer adolygu ei strategaeth ysgolion digidol wedi'u rhoi ar waith yn llawn

24 Adolygodd Tîm Technegol y Cyngor y gwersi a ddysgwyd o Strategaeth TG 2017-21 (estynwyd i 2022) a pharatoi adroddiad i'r Tîm Arwain. Daethpwyd i'r casgliad bod y nod o gynnig sianeli digidol i gysylltu â'r Cyngor wedi ei gyflawni ond nad oedd systemau cefn swyddfa wedi eu trawsnewid eto.

25 Mae'r papur eglurhaol ar gyfer y Strategaeth Ysgolion Digidol 2022-24 yn nodi y bydd adroddiad cynnydd blynyddol ac adolygiad o'r strategaeth yn cael eu cwblhau. Mae hefyd yn nodi y byddai adroddiadau cryno chwarterol ar y camau gweithredu, canlyniadau / effaith, yn amlygu llwyddiannau a materion yn cael eu darparu. Ond, nid yw hyn wedi digwydd yn ymarferol ar wahân i'r ddau fesur ar gyfer gweithredu ac adroddiad ystadegol ar y defnydd o lwyfan HWB mewn grŵp llywio mewnol.

26 Yn absenoldeb strategaeth ddigidol ddrafft, ni all y Cyngor ddangos pa ddulliau a fydd yn eu lle ar gyfer adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol nesaf. Gallai cwblhau a rhannu adolygiadau ôl-weithredu hefyd helpu'r Cyngor i asesu a yw wedi cyflawni ei nodau gwreiddiol a dysgu gwersi i wella prosiectau yn y dyfodol.

# Atodiad 1

## Cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio

Isod, ceir y cwestiynau y ceisiwyd eu hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

Y prif gwestiwn archwilio: **Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

**Arddangosyn 2: cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio**

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 1. A yw strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau presennol a thueddiadau'r dyfodol? | 1.1 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r 'hyn sydd ohoni' (hy y galw presennol/problemau i'w datrys) a'r rhesymau dros hynny/achosion sylfaenol? | • Mae'r Cyngor wedi defnyddio ystod eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o'r 'hyn sydd ohoni' a sut mae'n debygol o newid. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth (gan gynnwys data) sy'n ymwneud â:<br>– heriau cynaliadwyedd/cadernid gwasanaethau a darparu adnoddau.<br>– anghenion dinasyddion a chymunedau.<br>– achosion sylfaenol y galw/problemau presennol y mae angen sylw arnynt.<br>– dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol a'u heffeithiau posibl, ee cymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol neu dechnolegol. Gallent gynnwys tueddiadau hysbys ee poblogaeth sy'n heneiddio, adnoddau naturiol sy'n lleihau ac, yn enwedig, datblygiadau technolegol. Gallant gynnwys hefyd y rhai sydd â lefel o ansicrwydd uwch, ee y swyddi a'r sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol. |
| | 1.2 A oes dealltwriaeth drylwyr o effaith y ffactorau hirdymor, ac o'r heriau a'r cyfleoedd a allai ddeillio o hynny (ee risgiau a chyfleoedd)? | |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | | • Mae'r dadansoddiad o'r 'hyn sydd ohoni' a sut mae'n debygol o newid yn hyddysg drwy weithgarwch cynnwys, fel y bo'n briodol, sy'n adlewyrchu arferion da cydnabyddedig (ee Egwyddorion Cenedlaethol ar Gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, cyngor a chanllawiau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio ei sylfaen dystiolaeth yn effeithiol i:<br>– nodi'r camau yn ei ddull strategol digidol sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol a pham, gan gynnwys sut y gallai fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau;<br>– llywio penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd o dechnoleg ddigidol sy'n ceisio cydbwyso'r angen i gyflawni amcanion tymor byr a thymor hwy. |
| 2. A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae'n dymuno ei gyflawni drwy ddefnyddio technoleg ddigidol? | 2.1 A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried yr hyn y mae hirdymor yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull gweithredu digidol — hy pa mor bell o'i flaen y gall/dylai gynllunio a pham (o leiaf deng mlynedd gan ystyried tueddiadau tymor hwy fel y bo'n briodol).<br>• Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall camau gweithredu gyflawni'r effaith orau dros yr amserlen honno o ran canlyniadau a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Gallai hyn gynnwys ystyried pwyntiau ymyrraeth priodol sy'n gysylltiedig â diffiniad y Comisiynydd o atal. (Mae rhagor o fanylion ar gael yn: Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebu — Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol).<br>• Mae'r Cyngor wedi gosod mesurau ar gyfer ei strategaeth ddigidol sy'n adlewyrchu effeithiau a gwerth am arian yn y tymor byr a'r hirdymor, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu'r cynnydd fel y bo'n briodol. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | | • Mae'r Cyngor wedi nodi sut y darperir adnoddau ar gyfer ei strategaeth ddigidol dros y tymor hwy cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol (gweler hefyd y meini prawf sy'n ymwneud ag integreiddio). |
| | 2.2 A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei strategaeth ddigidol eu cael, gan gynnwys:<br>• sut y gallai gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol?<br>• sut bydd yn effeithio ar y pethau eraill y mae'n ceisio eu cyflawni (hy ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach)?<br>• sut bydd yn effeithio ar yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni (hy eu hamcanion llesiant)? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall ei strategaeth ddigidol wneud cyfraniad ar draws y nodau llesiant.<br>• Mae staff sy'n datblygu'r strategaeth ddigidol yn deall yr hyn y mae cydweithwyr a phartneriaid yn ei wneud a sut mae eu gwaith yn ymwneud â hynny, ac maent wedi ceisio integreiddio eu gwaith â gwaith eu cydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor a sefydliadau partner.<br>• Mae integreiddiad yn amlwg yn aliniad y strategaeth ddigidol â strategaethau corfforaethol allweddol a chynlluniau gwasanaeth eraill. Er enghraifft cynllun ariannol tymor canolig, cynllun gweithlu, strategaethau rheoli asedau, datganiad llesiant a chynlluniau lleihau carbon.<br>• Mae'r strategaeth ddigidol yn gyson ag amcanion strategol eraill, megis:<br>– profiadau cwsmeriaid;<br>– rheoli'r galw/lleihau'r galw, methiant ac atal; a<br>– dylunio a gweithredu modelau darparu gwasanaethau newydd.<br>• Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn gyson â chynlluniau/strategaethau partneriaid lleol a chenedlaethol, gan gynnwys Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru a chynlluniau llesiant. |
| | 2.3 A oes dealltwriaeth eang a chyffredin o'r hyn mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni? | • Mae gan gynghorwyr ac uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth ddigidol ddealltwriaeth cyffredin a chlir o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni a'r effaith a fwriedir ar y broses o ddarparu gwasanaethau. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | | • Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei chyfleu'n glir i staff a phartneriaid a allai helpu i'w chyflawni. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 3. A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol | 3.1 A yw'r Cyngor wedi nodi pwy mae angen iddo ei gynnwys? | • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o bwy y bydd y strategaeth ddigidol yn effeithio arno yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ac o bwy y mae angen iddo ei gynnwys.<br>• Mae'r Cyngor wedi cynnwys yn effeithiol yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, gan gynnwys o ffynonellau nad ydynt yn rhai traddodiadol ac o'r rhai efallai ei fod wedi methu â'u cyrraedd yn flaenorol. |
| | 3.2 A yw'r Cyngor yn cynnwys yn effeithiol yr amrywiaeth lawn y bobl yr effeithir arnynt gan ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor wedi darparu cyfleoedd gwirioneddol i bobl ddylanwadu ar y broses o ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol o gyfnod cynnar, gan gynnwys cynrychiolwyr grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.<br>• Mae'r Cyngor wedi defnyddio canlyniadau cynnwys i lunio dyluniad a'r broses o gyflawni ei strategaeth ddigidol. |
| | 3.3 A yw'r Cyngor yn cydweithredu'n effeithiol â'r partneriaid cywir? | • Mae'r Cyngor yn cydweithredu i sicrhau ei fod yn cyflawni gwell canlyniadau a gwerth am arian drwy ei strategaeth ddigidol ac mae wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gefnogi hyn, er enghraifft ar gyfer:<br>– rhannu neu gyfuno arbenigedd ac adnoddau; |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | | – rhannu gwybodaeth;<br>– sicrhau bod gwaith monitro, gwerthuso ac atebolrwydd effeithiol, gan gynnwys ystyried gwerth am arian. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 4. A yw'r Cyngor wedi darparu adnoddau ar gyfer ei strategaeth ddigidol fel y gall gyflawni buddion hirdymor/ataliol? | 4.1 A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau adnoddau hirdymor? | • Mae'r Cyngor wedi asesu costau a manteision defnyddio technoleg ddigidol i fuddsoddi mewn dulliau hirdymor ac ataliol, a'r gost (yn ariannol ac o ran canlyniadau) o beidio â gwneud hynny.<br>• Mae'r Cyngor wedi meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni ei strategaeth ddigidol dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau bywyd cyfan) a sut y gallai reoli risgiau/talu'r costau hynny gan gynnwys, er enghraifft, mentrau 'buddsoddi i arbed' arfaethedig a gostyngiadau a reolir mewn dyled dechnegol.<br>• Mae'r Cyngor wedi cyfrifo a nodi unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud drwy weithredu ei strategaeth ddigidol. |
| | 4.2 A yw'r Cyngor yn dyrannu adnoddau er mwyn cyflawni canlyniadau gwell dros yr hirdymor? | • Mae camau gweithredu (gan gynnwys camau ataliol) sy'n debygol o gyfrannu at ganlyniadau gwell a/neu well defnydd o adnoddau dros y tymor hwy yn cael eu hybu a'u cefnogi, hyd yn oed:<br>– pan fo hyn yn cyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion tymor byr;<br>– pan fo'r manteision yn debygol o gael eu cronni gan sefydliad arall neu eu priodoli i sefydliad arall. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 5. A yw’r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd? | 5.1 A yw’r Cyngor yn monitro ac yn adolygu’r cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a thymor hwy? | • Mae’r Cyngor yn monitro costau a buddion cyflawni ei strategaeth ddigidol o safbwynt gwerth am arian.<br>• Mae’r Cyngor yn mesur y cyfraniad ehangach y mae’r strategaeth ddigidol yn ei wneud ar draws ei amcanion ei hun/amcanion partner.<br>• Mae’r cynnydd yn cael ei fesur o’i gymharu ag amcanion tymor byr, canolig a hirdymor. |
| 6. A yw’r Cyngor yn dysgu gwersi o’r ffordd y mae’n gweithio? | 6.1 A yw’r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol? | • Mae’r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol yn rheolaidd, gan gynnwys:<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cydweithredol;<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cynnwys, gan gynnwys effaith y strategaeth ar ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys y rhai sy’n cael eu hallgáu’n ddigidol;<br>– effaith y strategaeth ar y rhai sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig;<br>– darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y strategaeth ddigidol yn gyffredinol o ran helpu’r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol.<br>• Mae’r Cyngor wedi adolygu gwersi a ddysgwyd o’i ymateb i’r pandemig ac mae’n cymhwyso’r ddysg hon i’w strategaeth ddigidol. |
| | 6.2 A yw’r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgir o’i ddull o weithredu ei strategaeth ddigidol? | • Mae’r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgir wrth ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol yn eang ar draws y sefydliad, ac â phartneriaid pan fo hynny’n berthnasol. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

# Ymateb Sefydliadol

**Teitl yr adroddiad:** Adolygiad o Strategaeth Ddigidol: Cyngor Sir Ynys Môn

**Dyddiad cwblhau:**

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad Cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y camau arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | **Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth**<br>Er mwyn helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn wybodus a bod ei adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol, wrth ddatblygu ei strategaeth dylai'r Cyngor ddefnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys<br>• cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y strategaeth ddigidol yn ogystal â thynnu ar farn rhanddeiliaid o ffynonellau presennol;<br>• amcanion a strategaethau cyrff cyhoeddus eraill, a nodi cyfleoedd i gydweithio;<br>dadansoddiad pellach o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol (gweler ein meini prawf archwilio ar gyfer C.1.1 a C1.2 yn Atodiad 1 am rai enghreifftiau o'r hyn y gallai hyn ei gynnwys). | Mae'r Cyngor wedi – datblygu ei amserlen er mwyn cynhyrchu strategaeth ddigidol sydd wedi dechrau ar adeg archwilio ac mae wedi cynnwys<br>• ymgysylltiad gan randdeiliaid ar lefelau gwahanol – tîm Digidol CLILC, SOCATIM, rhwydwaith TG Gogledd Cymru, yr uwch dîm, y tîm corfforaethol, Fforwm Môn (timau rheoli gwasanaethau), Rheolwr Busnes (pob gwasanaeth), y cyhoedd. Mae'r tîm TG hefyd wedi casglu adborth gan gwsmeriaid ynghylch ymholiadau'r desg gymorth.<br>• Mae cydweithio eisoes yn digwydd yn y maes hwn gydag awdurdodau lleol eraill, yn rhanbarthol yng Nghymru ac yn is-ranbarthol, gan rannu arfer da ac adnoddau. | Mae drafft o'r strategaeth ddigidol wedi'i chwblhau, ac ar hyn o bryd mae'n destun llywodraethant mewnol, fydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2024<br><br>Mae'r ymgysylltiad a'r cydweithio yn parhau trwy'r fforymau gwahanol sydd wedi'u nodi. | **Pennaeth Proffesiwn, Adnoddau Dynol a Thrawsnewid** |
| A2 | **Nodi goblygiadau adnoddau**<br>Er mwyn helpu i sicrhau bod modd cyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor nodi'r goblygiadau o ran adnoddau yn y tymor byr a'r hirdymor o'i chyflawni ynghyd ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd a fwriedir. | Gwnaed cais i bob gwasanaeth ddarparu eu blaenoriaethau technoleg arfaethedig ar gyfer y 5 mlynedd nesaf er mwyn llywio'r strategaeth.<br><br>Mae meini prawf sgorio wedi'i ddatblygu er mwyn gallu blaenoriaethu prosiectau newydd. Bydd y Strategaeth Ddigidol yn cael ei chefnogi | **Ebrill 2024, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25** | **Rheolwr y Tîm TG** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gan gynllun gweithredu flynyddol fydd yn adnabod meini prawf llwyddiant, sy’n cynnwys adnoddau a chanlyniadau. | | |
| **A3** | **Trefniadau ar gyfer monitro gwerth am arian**<br>Er mwyn gallu monitro gwerth am arian ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro ei gynnydd a'i effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. | Bydd y gwaith o fonitro’r strategaeth ddigidol wedi’i gynnwys yn agenda’r Bwrdd Trawsnewid (Moderneiddio) | Bydd cyfarfodydd y Bwrdd Trawsnewid yn cael eu cynnal bob deufis | **Rheolwr y Tîm TG** |

This page is intentionally left blank

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3927A2023

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Yr hyn y gwnaethom edrych arno – cwmpas yr archwiliad hwn 4

Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn? 5

Trefniadau adrodd ar berfformiad y Cyngor 5

Yr hyn a nodwyd gennym 6

Prin yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr i'w galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor

Argymhellion 8

Atodiadau

Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn roeddem yn edrych amdano 9

# Adroddiad cryno

1 Gwnaethom ystyried gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau a ddarparwyd i uwch-swyddogion ac uwch-aelodau (uwch-arweinwyr), a sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio.

2 Ar y cyfan, gwelsom mai prin yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yng Nghyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) i'w galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor.

3 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i gryfhau'r wybodaeth a roddir i'r uwch-arweinwyr.

# Yr hyn y gwnaethom edrych arno – cwmpas yr archwiliad hwn

4 Gwnaethom ganolbwyntio ar y wybodaeth am berfformiad a ddarparwyd i uwch-swyddogion ac uwch-aelodau (uwch-arweinwyr) am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau, a sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio. Ni wnaethom gynnal adolygiad llawn o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor nac adolygiad manwl o ansawdd y data y mae'r Cyngor yn eu casglu. Nid oedd yr adolygiad yn canolbwyntio ychwaith ar ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ar newidiadau penodol i'r gwasanaeth na datblygu polisïau a strategaethau.

5 Rydym wedi nodi ein cwestiynu archwilio a meini prawf archwilio yn **Atodiad 1**. Mae'r meini prawf archwilio yn eu hanfod yn nodi sut beth yw da a beth y byddem yn disgwyl ei ganfod.

6 Ar y cyfan, roeddem yn chwilio am wybodaeth am berfformiad i'w rhannu ag uwch-arweinwyr i'w helpu i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaethau a pha mor dda y maent yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r canlyniadau y mae'n gweithio tuag atynt. Roeddem hefyd yn edrych i weld bod uwch-arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cynnydd a chymryd camau lle bo angen i wella canlyniadau.

7 Mae hyn yn rhan bwysig o drefniadau i wneud yn siŵr bod cynghorau yn sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Mae hefyd yn ffordd bwysig y gall y Cyngor gael sicrwydd ei fod yn gweithredu yn unol â'r ffordd 'cynnwys' o weithio wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Heb y wybodaeth hon, mae'n anodd gweld sut y gall uwch-arweinwyr ddeall a yw eu polisïau a'u gweithredoedd yn cael yr effaith a fwriadwyd a gwneud newidiadau lle nad ydynt.

8 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau â'r aelod Pwyllgor Gwaith, y pennaeth gwasanaeth a'r uwch-swyddog sy'n gyfrifol am drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom y gwaith hwn yn ystod mis Mai 2023.

9 Ein nod oedd ateb y cwestiwn **‘A yw’r wybodaeth am berfformiad y Cyngor yn galluogi uwch-arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddiwr gwasanaeth a chanlyniadau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol?’** Gwnaethom hyn drwy archwilio’r cwestiynau canlynol:

- A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth?
- A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am ganlyniadau gweithgareddau’r Cyngor?
- A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir?
- A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau?
- A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau?

# Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn?

10 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn er mwyn helpu i gyflawni dyletswyddau’r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

11 Gwnaethom geisio:

- cael sicrwydd bod y wybodaeth am berfformiad y mae’r Cyngor yn ei darparu i uwch-swyddogion ac aelodau etholedig yn eu galluogi i ddeall safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth a chanlyniad ei weithgareddau;
- cael sicrwydd bod y wybodaeth hon yn rhan o drefniadau’r Cyngor er mwyn sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau a’i gymhwysiad o’r egwyddor datblygu cynaliadwy; a
- nodi cyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau.

# Trefniadau adrodd ar berfformiad y Cyngor

12 Mae Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor (uwch swyddogion) a’i Bwyllgor Gwaith (Arweinydd y Cyngor ac aelodau portffolio) yn derbyn adroddiadau perfformiad chwarterol ar ffurf cerdyn sgorio corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys manylion perfformiad gwasanaeth, cynnydd tuag at amcanion llesiant a gwybodaeth monitro ariannol.

13 Yn ogystal â’r cardiau sgorio corfforaethol chwarterol, caiff Cynllun y Cyngor ei fonitro drwy:

- Adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol sy'n canolbwyntio ar y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â gwasanaeth;
- Byrddau Rhaglen Trawsnewid Chwarterol.

14 Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar y dulliau adrodd perfformiad allweddol hyn.

## Yr hyn a nodwyd gennym

# Prin yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr i'w galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor

### Mae'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yn rhoi dealltwriaeth gyfyngedig i safbwynt defnyddwyr gwasanaeth

15 Nid yw safbwynt defnyddwyr gwasanaeth wedi'i gynrychioli'n dda yn adroddiadau perfformiad presennol y Cyngor. Mae'r prif adroddiad perfformiad, y cerdyn sgorio corfforaethol chwarterol, yn darparu gwybodaeth gyfyngedig am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, dim ond pump o'r 74 o fesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cardiau sgorio chwarterol sy'n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaeth. Felly, mae'n anodd gweld sut y byddai uwch-arweinwyr yn gallu deall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth o'r wybodaeth hon.

16 Mae rhai aelodau gweithredol yn cael gwybodaeth am berfformiad am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â rhai gwasanaethau yn eu portffolio, ond nid eraill. Er enghraifft, canolfannau hamdden ond nid glendid strydoedd. Lle mae gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth, nid yw hyn wedyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau perfformiad chwarterol. Er enghraifft, mae canolfan alwadau Cyswllt Môn yn cofnodi ac yn monitro cwynion a chanmoliaethau ac mae sylwadau a dderbyniwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn cael eu monitro, sy'n galluogi'r adrannau i ymateb yn gyflym. Fodd bynnag, dim ond i'r pennaeth gwasanaeth perthnasol y cyflwynir camau gweithredu fel arfer. At ei gilydd, mae'r wybodaeth a ddarperir yn gymharol gyfyngedig ac felly nid yw'n galluogi uwch-arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddiwr gwasanaeth yn llawn.

### Mae'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar allbynnau a gweithgareddau yn hytrach nag arfarnu eu heffaith

17 Mae'r Cyngor yn defnyddio ei wybodaeth am berfformiad o amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth, megis y cyfryngau cymdeithasol, ymatebion ysgrifenedig i arolygon a botymau 'wyneb hapus' boddhad ymwelwyr. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar weithgareddau yn hytrach na darparu asesiad o ganlyniadau.

18 Mae'r Cyngor yn nodi yn ei adroddiad Hunanasesiad 2021-22 fod ganddo lefel uchel o hyder ei fod yn cyflawni'r canlyniadau arfaethedig. Fodd bynnag, nid yw'r

adroddiad yn nodi beth yw’r canlyniadau. Mae'r adroddiad yn disgrifio cynlluniau a chamau gweithredu yn bennaf.

19 Gwelsom rai enghreifftiau cyfyngedig o wybodaeth am ganlyniadau yn y cardiau sgorio chwarterol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oedd y wybodaeth a ddarparwyd yn galluogi uwch-arweinwyr i ddeall effaith a chanlyniadau gweithgareddau’r Cyngor. Mae hyn yn cyfyngu ar allu uwch-arweinwyr i ddeall effaith gweithgareddau’r Cyngor ac a yw’n cyflawni’r canlyniadau dymunol.

## Nid oes gan y Cyngor drefniadau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad sy'n adlewyrchu safbwynt a chanlyniadau'r defnyddiwr gwasanaeth yn gywir

20 Mae gan y Cyngor Lawlyfr Rheoli Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol sy’n nodi fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'n cyfeirio at drefniadau er mwyn sicrhau cywirdeb data.

21 Ar y cyfan, nodwyd gennym nad oes gan y Cyngor drefniadau cynhwysfawr er mwyn sicrhau cywirdeb ei wybodaeth am safbwynt defnyddiwr gwasanaeth a chanlyniadau. O ganlyniad, mae risg y gellir cymryd camau a phenderfyniadau, a defnyddio adnoddau ar sail gwybodaeth anghywir.

## Gan fod y wybodaeth a ddarperir am ganlyniadau a safbwynt defnyddwyr gwasanaeth yn gyfyngedig, mae'r graddau y gall y Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau yn gyfyngedig hefyd.

22 Fel y nodir uchod, ein prif ganfyddiad yw nad yw’r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yn gyffredinol yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor. Felly, mae'n naturiol bod y ffordd y mae’r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau er mwyn helpu i gyflawni ei ganlyniadau o’r wybodaeth am berfformiad hwn yn gyfyngedig.

23 Lle gwelsom enghreifftiau o'r Cyngor yn darparu gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau, gwelsom y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud newidiadau. Er enghraifft, mae Atodiad yr Adroddiad Cwynion Blynyddol diweddaraf yn rhestru'r gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd mewn perthynas â chwynion. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys nifer y canmoliaethau fesul gwasanaeth. Ond er bod dwywaith cymaint o ganmoliaethau â chwynion, nid yw’r adroddiad yn cynnwys unrhyw sylwadau pellach ar y ganmoliaeth. Mae hwn yn gyfle a gollwyd i roi gwybodaeth i uwch-arweinwyr a fyddai’n eu helpu i gael sicrwydd bod y gwasanaethau a ddarperir yn cyflawni eu canlyniadau disgwyliedig.

### Mae'r Cyngor yn adolygu ei gyfundrefn perfformiad yn flynyddol, ond nid yw hyn yn ymdrin yn benodol â safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a gwybodaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau

*24* Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i adolygu'r gyfundrefn perfformiad yn ffurfiol bob blwyddyn. Adolygodd ei Lawlyfr Perfformiad ym mis Ionawr 2023. Fodd bynnag, nid archwiliodd y Cyngor sut y gall gryfhau'r wybodaeth am safbwynt neu ganlyniadau defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o hyn.

*25* Nid yw'r Cyngor yn cymharu'r math o wybodaeth y mae'n ei chasglu na'r dulliau casglu o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth neu ganlyniadau â'r wybodaeth a gesglir gan sefydliadau tebyg. Nid ydym yn golygu cymharu perfformiad fel y cyfryw, ond yn hytrach ei helpu i ddysgu sut mae sefydliadau eraill yn darparu gwybodaeth am safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau er mwyn helpu i gryfhau eu trefniadau eu hunain. Mae hon yn elfen bwysig o drefniadau er mwyn sicrhau gwerth am arian.

# Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

**Gwybodaeth am safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth**

A1 Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth y mae'n ei darparu i'w uwch-arweinwyr i'w galluogi i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau.

**Gwybodaeth am ganlyniadau**

A2 Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'r canlyniadau arfaethedig.

**Trefniadau i sicrhau ansawdd a chywirdeb data**

A3 Mae angen i'r Cyngor gael sicrwydd bod ganddo drefniadau cadarn i sicrhau ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei ddarparu i uwch-arweinwyr sy'n ymwneud â safbwynt a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn roeddem yn edrych amdano

**Arddangosyn 2: cwestiynau allweddol a'r hyn roeddem yn edrych amdano**

Mae’r tabl isod yn nodi’r cwestiwn yr aethom ati i’w ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â’r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i ddod i’n canfyddiadau.

| **Lefel 1** | |
|---|---|
| A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch-arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddiwr gwasanaeth a chanlyniadau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol? | |
| **Lefel 2** | **Meini Prawf Archwilio[1] (yr hyn rydym yn edrych amdano)** |
| 2.1 A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth? | • Mae’r wybodaeth yn:<br>– berthnasol i amcanion y mae’r Cyngor wedi’u gosod i’w hun;<br>– digonol i alluogi dealltwriaeth o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth;<br>– digonol i ddarparu dealltwriaeth o gynnydd tuag at y canlyniadau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cyflawni;<br>– dod o amrywiaeth y defnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig;<br>• Mae'r Cyngor wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaeth wrth benderfynu pa wybodaeth i'w chasglu. |
| 2.2 A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch-arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am ganlyniadau gweithgareddau’r Cyngor? | • Mae'r wybodaeth yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth i roi golwg gyfannol ar gynnydd.<br>• Mae’r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro cynnydd dros y tymor byr, tymor canolig a thymor hir.<br>• Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch-arweinwyr i fonitro cyflawniad canlyniadau sy'n cwmpasu nifer o feysydd gwasanaeth a/neu sefydliadau. |

[1] Mae ein meini prawf archwilio wedi’u llywio gan ein gwybodaeth gronnus o waith archwilio blaenorol, yn ogystal â’r hierarchaeth gwestiynau a’r dangosyddion cadarnhaol rydym wedi’u datblygu i gefnogi ein harchwiliadau o egwyddorion datblygu cynaliadwy.

| **Lefel 1** | |
|---|---|
| A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch-arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddiwr gwasanaeth a chanlyniadau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol? | |
| **Lefel 2** | **Meini Prawf Archwilio[1] (yr hyn rydym yn edrych amdano)** |
| 2.3 A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir? | • Mae gan y Cyngor drefniadau clir i sicrhau ansawdd a chywirdeb y data y mae'n eu darparu i uwch-arweinwyr.<br>• Lle nodir gwendidau mewn ansawdd data, mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â nhw. |
| 2.4 A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau? | • Lle nodir perfformiad gwael, mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i wneud newidiadau/ymyriadau.<br>• Mae tystiolaeth bod y Cyngor yn gwella ei gynnydd tuag at ei ganlyniadau o ganlyniad i ymyriadau. |
| 2.5 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau? | • Mae'r Cyngor yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir i uwch-arweinwyr er mwyn sicrhau ei bod yn briodol ac yn berthnasol.<br>• Mae'r Cyngor yn cymharu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu â'r wybodaeth a gesglir gan sefydliadau tebyg i nodi cyfleoedd i gryfhau ei drefniadau. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

# Ymateb Sefydliadol

**Teitl yr adroddiad:** Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau – Cyngor Sir Ynys Môn

**Dyddiad cwblhau:** 3.1.24

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad Cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y camau arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | **Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth y mae'n ei darparu i'w uwch-arweinwyr i'w galluogi i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau.** | **Bydd uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn cytuno ar ddangosyddion y Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Mae’r data chwarterol a’r dadansoddiad ar dueddiadau yn gyfle i herio. Cyflwynir y Cerdyn Sgorio’n chwarterol i’r Pwyllgor Gwaith a Sgriwtini, lle bydd aelodau etholedig yn cwestiynu a herio.**<br><br>**Mae dangosfyrddau data thematig allweddol wedi cael eu datblygu cyfochr â’r gwaith hwn, fel rhan o amcan tymor hir i ddod yn sefydliad sy’n cael ei yrru gan ddata. Mae’r dangosfyrddau dechreuol sydd wedi cael eu datblygu yn cynnwys Sero Net a Thlodi. Mae’r data wedi’i gaffael gan amrywiaeth o ffynonellau mewnol ac allanol e.e., data o’r cyfrifiad, data o’r Cyfrifiad yn ôl wardiau ac ati.**<br><br>**Mae’r Awdurdod yn bwriadu gofyn i’w uwch arweinwyr pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt er mwyn deall pa mor dda mae gwasanaethau a pholisïau yn bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth.** | **Medi 2024** | **Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformio a Rhaglen** |
| **A2** | **Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'r canlyniadau arfaethedig** | **Mae sawl ffynhonnell gwybodaeth eisoes yn cael eu darparu ar gyfer uwch arweinwyr ynghylch perfformiad e.e., adolygiadau gwasanaeth blynyddol, adolygiadau** | **Medi 2024** | **Rheolwr Cynllunio Corfforaethol,** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **blynyddol ar wasanaethau ariannol, y cerdyn sgorio data chwarterol, y broses hunan-arfarnu ac ati, ac mae'r cyfan yn canolbwyntio ar y ffordd mae'r Cyngor yn darparu.**<br><br>**Fel y nodwyd yn yr ymateb i A1 uchod, mae'r gwaith o ddatblygu dangosyfrddau wedi'i groesawu gan Uwch Arweinwyr, fel ffordd o adnabod data yn ogystal â darparu gwybodaeth mewn fformat sy'n cynnig ei hun i herio ymhellach. Mae hyn yn cefnogi barn y Cyngor i symud tuag at fod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata, sy'n defnyddio llai o naratif ac yn canolbwyntio mwy ar ddata a thueddiadau sy'n creu darlun clir mewn fformat cyson.**<br><br>**Mae creu'r Dangosfryddau dechreuol wedi annog llawer o frwdfrydedd a diddordeb, a'r her yw rheoli disgwyliad y brwdfrydedd hwnnw o fewn y capasiti sydd ar gael. Mae cydweithio gydag awdurdodau lleol eraill sydd wedi gwneud gwaith sylweddol – er bod ganddynt y capasiti i ddarparu – wedi bod yn werthfawr o ran y cynnydd mae'r Awdurdod wedi'i wneud gyda'r datblygiadau hyn.**<br><br>**Mae'r Awdurdod lleol yn bwriadu gofyn i'r uwch arweinwyr pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt er mwyn eu helpu y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes ar waith i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a chanlyniadau arfaethedig.** | | **Perfformio a Rhaglen** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A3 | Mae angen i'r Cyngor gael sicrwydd bod ganddo drefniadau cadarn i sicrhau ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei ddarparu i uwch-arweinwyr sy'n ymwneud â safbwynt a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau. | Mae trefniadau presennol ar gyfer casglu data yn cael eu rheoli ar lefel gwasanaeth, ond yn cael eu trefnu ar gyfer y ganolfan gorfforaethol er mwyn eu coladu. Ar hyn o bryd, mae'r ganolfan gorfforaethol yn adolygu data yn erbyn data blaenorol ac mae unrhyw anghysondeb, lefelau uwch/llai yn cael eu cyfeirio at wasanaeth a/neu eu gwirio drwy ddefnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chadw gan ffynonellau eraill.<br><br>Bydd sefydlu Dangosfryddau yn cryfhau trefniadau dilysu cywirdeb ac ansawdd.<br><br>Mae Archwilio Mewnol yn edrych yn gyson ar fesurau perfformio a'r data cysylltiedig mewn archwiliadau perthnasol, ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth. Bydd "Mater/Risg" yn cael ei godi mewn perthynas â data perfformiad gan Archwilio Mewnol, lle bo'n berthnasol, a bydd yn cael ei weithredu fel cam ar gyfer gwneud gwelliannau.<br><br>Mae'r Cyngor yn awyddus i fanteisio ar unrhyw gyfle fydd yn ei alluogi i ddysgu o arfer da eraill. Er enghraifft, yn ddiweddar mae wedi ymuno â Rhwydwaith Data Cymru, sydd newydd ei sefydlu, a dylai fod yn rwydwaith gwerthfawr ar gyfer rhannu a dysgu gan eraill.<br><br>Bydd gwasanaethau yn adolygu safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau drwy Fwrdd Ymgynghori a Chyfathrebu'r Cyngor. | Medi 2024 | Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformio a Rhaglen |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 8 Chwefror 2024 |
| **Pwnc** | Adolygiad o'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2023-24 f5 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2023-24 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynorthwyo i gyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Blaenraglen Waith ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen hyfforddiant yn Atodiad B.

1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.3 Gwnaed gwelliannau i'r dyddiadau y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i gyfarfodydd Medi 2023, Rhagfyr 2023, Chwefror 2024 ac Ebrill 2024 i ystyried gwaith y Pwyllgor ar adolygu ei effeithiolrwydd.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2023-24 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl, a
- nodi'r newidiadau i'r dyddiadau y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno.

# Atodiad A – Blaenraglen Waith 2023-24

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2023 | 27 Gorffennaf 2023 | 21 Medi 2023 | 07 Rhagfyr 2023 | 08 Chwefror 2024 | 18 Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2022-23 (3.4.8.3.1) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 f2 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 f3 (3.4.8.3.2)<br><br>~~Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2)~~ | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 f4 (3.4.8.3.2)<br><br>**~~Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2)~~** | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2023-24 (3.4.8.3.2)<br><br>**~~Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2)~~**<br><br>~~Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.3.2)~~ | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2024-25 (3.4.8.3.2)<br><br>**Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2)**<br><br>**Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.3.2)** |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | | ~~Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3)~~<br><br>~~Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio 2022-23 (3.4.8.4.4)~~<br><br>Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3) | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2022-23 (3.4.8.5.1/2/3/4) | ~~Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3)~~ | **Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3)** | |

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2023 | 27 Gorffennaf 2023 | 21 Medi 2023 | 07 Rhagfyr 2023 | 08 Chwefror 2024 | 18 Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2024-25) (3.4.8.5.3/4) | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2022-23 (3.4.8.7.1/2)<br><br>Diweddariad Newid Hinsawdd (3.4.8.7.1/2) | | ~~Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth 2022-23 (3.4.8.7.1/2)~~<br><br>~~Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2022-23 (3.4.8.7.1/2)~~<br><br>~~Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2022-23 (3.4.8.7.1/2)~~ | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion 2022-23 (3.4.8.7.1/2)<br><br>**~~Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth 2022-23 (3.4.8.7.1/2)~~**<br><br>**~~Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2022-23 (3.4.8.7.1/2)~~** | **Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2022-23 (3.4.8.7.1/2)**<br><br>**Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2022-23 (3.4.8.7.1/2)**<br><br>**Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2022-23 (3.4.8.7.1/2)**<br><br>**Canlyniad ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r Digwyddiad Seiber ym mis Mehefin 2021 (3.4.8.7.1/2)** | |
| Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | ~~Diweddariad Cofrestr Risg~~ | **Diweddariad Cofrestr Risg** | ~~Diweddariad Cofrestr Risg~~ | Adolygiad Blynyddol o |

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2023 | 27 Gorffennaf 2023 | 21 Medi 2023 | 07 Rhagfyr 2023 | 08 Chwefror 2024 | 18 Ebrill 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ~~Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~ | **Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)** | ~~Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)~~<br><br>**Gwiriad Iechyd Rheoli Risg (Zurich Municipal Risk Engineering) (3.4.8.8.1)** | Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)<br><br>**Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)** |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | ~~Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-23 (3.4.8.9.4)~~<br><br>*Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2022-23 (3.4.8.9.1)* | ~~Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2023-26 (3.4.8.9.2/3)~~<br><br>**Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-23 (3.4.8.9.4)** | **~~Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2023-26 (3.4.8.9.2/3)~~** | **Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2024-26 (3.4.8.9.2/3)** |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022-23 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6)<br><br>Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (3.4.8.10.1/2/9/12/14) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/ Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6)<br><br>~~Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)~~ | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10 /11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) |

| **Swyddogaeth Graidd** | **29 Mehefin 2023** | **27 Gorffennaf 2023** | **21 Medi 2023** | **07 Rhagfyr 2023** | **08 Chwefror 2024** | **18 Ebrill 2024** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2024-25 (3.4.8.10.1/2/5/6)<br><br>**Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)** |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch4 2022) (3.4.8.11.3)<br><br>Cynllun Archwilio Blynyddol Amlinellol 2023 (3.4.8.11.1/3) | Cynllun Archwilio Blynyddol Manwl 2023 (3.4.8.11.1/3) | Adolygiad o Reoli Datblygu a Gorfodaeth Cynllunio<br>• Cyflwyno adroddiad cenedlaethol (er gwybodaeth)<br>• Cyflwyno adroddiad lleol mewn perthynas â Chyngor Sir Ynys Môn<br>• Cyflwyno ymateb y sefydliad<br>(3.4.8.11.3)<br><br>Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch1 2023) (3.4.8.11.3) | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3)<br><br>Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch2 2023) (3.4.8.11.3) | ~~Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 (3.4.8.11.3)~~<br><br>**Strategaeth Ddigidol (3.4.8.11.3)**<br><br>**Defnyddio Gwybodaeth Perfformiad (3.4.8.11.3)** | **Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 (3.4.8.11.3)** |

Tudalen 187

| **Swyddogaeth Graidd** | **29 Mehefin 2023** | **27 Gorffennaf 2023** | **21 Medi 2023** | **07 Rhagfyr 2023** | **08 Chwefror 2024** | **18 Ebrill 2024** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2022-23 (3.4.8.12.1/2) | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2022-23 (3.4.8.12.1/2) | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | | ~~Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.13.1)~~ | **~~Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.13.1)~~** | **Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.13.1)** |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2022-23 (3.4.8.14.1/2)<br><br>Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022-23 (3.4.8.14.1/2) | | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft (3.4.8.15.1/2/3) | | | | | |
| Asesiad o berfformiad gan Banel (3.4.8.16)[1] | | | | | | |

[1] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

# Atodiad B – Rhaglen Hyfforddiant

## Hyfforddiant benodol i'r pwyllgor



| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|
| Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynghorwyr | Rhithiol | Chartered Institute of Public Finance and Accountancy (CIPFA) | 22 Mehefin 2023<br><br>24 Awst 2023 | Dilwyn Evans<br>Michael Wilson<br>Cyng Geraint Bebb |
| Rheoli Trysorlys | Rhithiol | Richard Bason, Cynghorydd Rheoli'r Trysorlys, Link Group | 15 Medi 2023 | Dilwyn Evans<br>Michael Wilson<br>Cyng Euryn Morris<br>Cyng Margaret M. Roberts |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol | Rhithiol | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) | 11 Hydref 2023<br><br>17 Hydref 2023 | Michael Wilson<br>Cyng Euryn Morris<br>Dilwyn Evans<br>Sharon Warnes<br>William Parry |
| Atal Twyll a Llygredd | Wyneb i wyneb | Paul Stratton, 'The Fraud Nerd' | 4 Rhagfyr 2023 | Dilwyn Evans<br>Sharon Warnes<br>Michael Wilson<br>Cyng Keith Roberts<br>Cyng Margaret M. Roberts<br>Cyng Geraint Bebb<br>Cyng Ieuan Williams |
| Rheoli Risg | Rhithiol | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) | 13/03/24 (16:00 – 17:30)<br>19/03/24 (16:00 – 17:30) | |

## Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Wedi ei Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seiber 2023/24***
***Annual Cyber Security Report 2023/24***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au)<br>Paragraph(s) | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
| 14: Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information).<br>18: Information relating to any action taken or to be taken in connection with the prevention, investigation or prosecution of crime. | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Information relating to the effectiveness of the Council's cyber security arrangements indirectly relates to the security of the public's personal and confidential data. There is a public interest in access to the information as the public may be considered to be stakeholders in the Council's cyber security. | Y budd y cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.<br><br>Gall hefyd ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â chamau gweithredu'r Cyngor a gymerwyd mewn cysylltiad ag atal troseddu.<br><br>Placing information about the Council's cyber security arrangements into the public domain would be likely to increase the risk to the security of the Council's network and the integrity of its data. The information could be exploited by criminals and other parties who seek to undermine the Council's security measures. The likelihood of harm to the business affairs of the Council, arising from disclosure is high resulting in prejudice to the commercial and financial interests of the Council. The public interest in ensuring the security of data holdings is strong. |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

Yn rhinwed paragraff(au) 14, 18 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank